



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Gwerthusiad o'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post



Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMWIL GYMDEITHASOL
Y LLYWODRAETH

CSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy



Cynnwys

Tudalen

Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Cefndir yr ymchwil	1
1.2 Nodau ac amcanion yr ymchwil	1
1.3 Methodoleg	2

Pennod 2: Cefndir

2.1 Cyd-destun polisi'r DU	5
2.2 Cyd-destun polisi Cymru	7
2.3 Y rhesymeg dros y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post a'i datblygiad	9
2.4 Cymorth grant arall i swyddfeydd post	13

Pennod 3: Canfyddiadau astudiaethau blaenorol

3.1 Dichonoldeb swyddfeydd post	15
3.2 Gwerth cymdeithasol swyddfeydd post	15
3.3 Cau swyddfeydd post	18
3.4 Cryfderau, gwendidau, bygythiadau a chyfleoedd	19
3.5 Cymariaethau rhwngwladol	22

Pennod 4: Gweinyddu'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post

4.1 Adolygiad mewnol	23
4.2 Adolygiad allanol	24
4.3 Canfyddiadau arolygon, astudiaethau achos ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid	27

Pennod 5: Proffil gwariant y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post

5.1 Ansawdd gwybodaeth	31
5.2 Mathau o weithgareddau a ariannwyd	32
5.3 Proffil gwariant	33
5.4 Ceisiadau aflwyddiannus	42

Pennod 6: Effaith y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post

6.1 Canfyddiadau arolygon	43
6.2 Canfyddiadau ymgynghoriadau â rhanddeiliaid	51
6.3 Canfyddiadau astudiaethau achos	55

Pennod 7: Casgliadau ac argymhellion

7.1 Casgliadau	57
7.2 Argymhellion	60

Atodiadau:

Atodiad 1: Llyfryddiaeth

Atodiad 2: Holiadur a thaflen monitro amrywiaeth enghreifftiol

Atodiad 3: Rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy ac ymatebwyr

Atodiad 4: Ymgynghoreion astudiaethau achos a chanllaw ar bynciau

Atodiad 5: Astudiaethau achos

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir yr ymchwil

Roedd Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post Llywodraeth Cynulliad Cymru (y Gronfa) yn weithredol rhwng mis Tachwedd 2002 a mis Mawrth 2006. Mae'r gwerthusiad hwn o'r Gronfa yn rhan o raglen ymchwil gyhoeddus y Grŵp Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Er na fwriedir parhau â'r Gronfa ar ei ffurf bresennol, mae'n bwysig bod unrhyw wersi a ddysgwyd o'r Gronfa ar gael i lywio'r ffordd y mae llywodraeth y DU a'r llywodraeth yng Nghymru yn mynd ati i gynllunio unrhyw gymorth cyhoeddus i swyddfeydd post yn y dyfodol.

Gwnaed yr ymchwil gan Tamlyn Rabey ar ran yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, rhwng mis Medi 2005 a mis Ionawr 2006. Fe'i goruchwyliwyd gan grŵp llywio yn Llywodraeth y Cynulliad a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol: Uned Ymchwil a Gwybodaeth Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio; y Gyfarwyddiaeth Gymunedau; yr Is-adran Cyngor Economaidd; y Gangen Datblygu Gwledig; a'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol. Rôl y Grŵp Llywio oedd derbyn a chytuno ar raglen waith fanwl, derbyn a gwneud sylwadau ar ganfyddiadau cychwynnol a therfynol yr ymchwil, a derbyn yr adroddiad drafft a'r adroddiad terfynol a chytuno ar ei strwythur a'i gynnwys.

Hoffai Llywodraeth y Cynulliad ddiolch i'r holl Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi a gymerodd ran yn y gwerthusiad, i'r holl sefydliadau ac unigolion a gyfrannodd dystiolaeth neu safbwyntiau, ac i Swyddfa'r Post Cyf am ei chydweithrediad a'i chymorth.

1.2 Nodau ac amcanion yr ymchwil

Nod yr ymchwil oedd asesu i ba raddau y cyflawnodd y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post ei hamcanion datganedig, a dysgu gwersi o brofiad y Gronfa er mwyn nodi mesurau a allai wneud Swyddfeydd Post yng Nghymru yn fwy dichonadwy a dod â mwy o fanteision cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig neu ynysig.

Yr amcanion oedd:

- Rhoi trosolwg o'r ffordd y cafodd y grant ei ddefnyddio a'i ddosbarthu o ran dosbarthiad daearyddol ac yn ôl categori o weithgarwch a ariannwyd (mynediad a chyfleusterau i bobl anabl; cynhyrchion neu wasanaethau newydd gan gynnwys cyfleusterau cymunedol; gwaith adeileddol neu esthetig; mesurau diogelwch).
- Nodi effaith mesurau a gwelliannau a wnaed o ganlyniad i gyllid y Gronfa ar swyddfeydd post a busnesau cysylltiedig.
- Canfod a fu'r Gronfa yn llwyddiannus o ran cyflawni ei hamcanion datganedig i helpu i gynnal rhwydwaith dichonadwy o swyddfeydd post; gan sicrhau bod swyddfa post a chyfleusterau cymunedol eraill ar gael mewn cymunedau difreintiedig neu ynysig; ac ychwanegu at y gwasanaethau a ddarperir a gwella'r cysylltiadau â busnesau a chyfleusterau eraill.
- Nodi pa fesurau a fu'n effeithiol i gyflawni amcanion y Gronfa.
- Nodi unrhyw fanteision cymdeithasol neu gymunedol eraill neu fanteision

canfyddedig y gweithgareddau a ariannwyd o dan y Gronfa.

- Gwneud argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau er mwyn llywio unrhyw gymorth ariannol gan y sector cyhoeddus i ddatblygu swyddfeydd post yn y dyfodol.

1.3 Methodoleg

Gwnaed yr ymchwil ar bum cam.

Cam 1: Adolygu deunyddiau ysgrifenedig

Roedd y cam hwn yn cynnwys arolwg byr o'r deunyddiau ysgrifenedig perthnasol gyda'r nod o gael dealltwriaeth gyffredinol o'r cyd-destun polisi yn y DU yn gyffredinol ac yng Nghymru yn benodol, ac amlygu materion allweddol megis cryfderau a gwendidau rhwydwaith y swyddfeydd post, a'r cyfleoedd a'r bygythiadau iddo. Roedd yn cynnwys trosolwg byr o wasanaethau a rhwydweithiau swyddfeydd post mewn gwledydd eraill. Ceir y llyfryddiaeth yn Atodiad 1.

Cam 2: Datblygu proffil gwariant y Gronfa

Roedd y cam hwn yn cynnwys casglu a dadansoddi data a gwybodaeth weinyddol a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gymunedau a Chyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth y Cynulliad a chan Swyddfa'r Post Cyf. Archwiliwyd pob ffeil prosiect a datblygwyd cronfa ddata o brosiectau a ariannwyd o dan y Gronfa, yn seiliedig ar gronfa ddata weinyddol a oedd yn bodoli eisoes, ond fe'i hestynnwyd i gynnwys categorïau o weithgareddau a ariannwyd a gwybodaeth am effaith y prosiect a ragwelir. Fe'i defnyddiwyd i ddatblygu proffil cynhwysfawr o gyllid y Gronfa, yn ôl math o weithgarwch a math o ardal, ac amcan o lwyddiant prosiectau o ran cwblhau a chyflawni'r hyn y cytunwyd y dylid ei wneud. Roedd y cam yn cynnwys trosolwg o geisiadau aflwyddiannus yn seiliedig

ar y gronfa ddata weinyddol a ddelir, ac archwilio hapsampl o 20% o ffeiliau ar geisiadau aflwyddiannus.

Cam 3: Arolwg o Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi

Nod yr arolwg oedd asesu effaith y Gronfa o ran gwneud swyddfeydd post yn fwy dichonadwy a chynaliadwy, gwasanaethau swyddfeydd post sydd ar gael mewn cymunedau difreintiedig/ynysig, ac effaith y grant ar y gymuned a'r economi leol.

Datblygwyd tri holiadur i Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi. Yn y ddau gyntaf holwyd y rhai a oedd wedi cael cyllid o dan y Gronfa ynglŷn â'r canlynol:

- eu profiad o'r ffordd y gweinyddwyd y Gronfa;
- dichonoldeb eu swyddfeydd post a'u busnesau cysylltiedig;
- effaith y Gronfa o ran ychwanegedd a'i heffaith ar ddichonoldeb masnachol (incwm a nifer y cwsmeriaid) a swyddi;
- canfyddiadau o'r effaith ar y gymuned leol o ran cael gwasanaethau swyddfeydd post, a darpariaeth o gyfleusterau neu wasanaethau newydd nad ydynt yn ymwneud â swyddfa'r post;
- pwysigrwydd cymharol mathau gwahanol o weithgareddau a ariannwyd.

Arolwg rheoli oedd y trydydd holiadur, a anfonwyd at hapsampl o swyddfeydd post nad oeddent wedi cael cyllid o dan y Gronfa (p'un a oeddent wedi gwneud cais amdano neu'n gymwys i'w gael ai peidio). Gofynnodd yr un cwestiynau ar newidiadau yn y swyddfeydd post hyn dros gyfnod gweithredu'r Gronfa, er mwyn helpu i ganfod a ellid priodoli unrhyw effaith a nodwyd mewn swyddfeydd post a oedd wedi cael cyllid o dan y Gronfa i'r cyllid hwnnw.

Yn Arolwg 1 targedwyd swyddfeydd post a oedd yn cynnal prosiectau o dan y Gronfa a oedd wedi'u cwblhau erbyn 1 Medi 2005, a lle y gellid asesu effaith yn haws felly. Fe'i hanfonwyd i bob un o'r 50 o swyddfeydd post yn y categori hwn. Rhagwelwyd cyfradd ymateb o 50%, ac fel mae'n digwydd cafwyd 31 o ymatebion (62%).

Yn Arolwg 2 targedwyd swyddfeydd post y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa, ond lle nad oedd y prosiect wedi cael ei gwblhau erbyn 1 Medi 2005. Anfonwyd yr arolwg i bob un o'r 56 o swyddfeydd post yn y categori hwn. Rhagwelwyd cyfradd ymateb o 50%. Ar y dechrau roedd y gyfradd ymateb yn weddol isel, ac anfonwyd ail holiadur at y rhai nad oeddent wedi ymateb, gan arwain at gyfradd ymateb o 50% yn y pen draw (28 o ymatebion). Roedd yn hysbys bod rhai, o blith y grŵp hwn o swyddfeydd post, ar y trywydd iawn i gwblhau eu prosiect erbyn y terfyn amser sef 31 Ionawr 2006, bod rhai yn anelu at hynny ond yn cael anhawster i wneud hynny erbyn y terfyn amser, a bod eraill rywbyrd ers dyfarnu'r grant wedi gwrthod y cynnig ac wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â phrosiect y Gronfa. Cafwyd pedwar ymateb gan unigolion a oedd wedi penderfynu peidio â derbyn y grant a gynigiwyd, a dadansoddwyd y rhain ar wahân.

Holiadur rheoli oedd Arolwg 3, a anfonwyd i hapsampl o 153 (neu un o bob wyth) o'r 1220 o swyddfeydd post yng Nghymru nad ydynt wedi'u rheoli'n uniongyrchol. Rhagwelwyd cyfradd ymateb o 20% ond cafwyd 55 o ymatebion mewn gwirionedd (36%).

Anfonwyd taflen monitro amrywiaeth gyda phob holiadur i helpu i ganfod a oedd unrhyw wahaniaethu o ran rhyw,

oedran, gallu neu hil wrth ddosbarthu cyllid y Gronfa.

Ceir holiadur a thaflen monitro amrywiaeth enghreifftiol yn Atodiad 2.

Cam 4: Safbwyntiau rhanddeiliaid

Er mwyn rhoi cyfle i bob rhanddeiliad perthnasol gyflwyno sylwadau ar eu profiad neu roi eu barn ar y Gronfa, ysgrifennwyd llythyr at y canlynol: pob Awdurdod Unedol; Un Llais i Gymru (sefydliad ambarél i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru); pob Cyngor Gwirfoddol Sirol; mudiadau gwirfoddol cenedlaethol sy'n cynrychioli pobl hŷn a phobl anabl; a sefydliadau perthnasol eraill. Ceir rhestr iawn o'r holl sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy, a'r ymatebion a gafwyd yn Atodiad 3.

Yn y llythyr gofynnwyd yn benodol am sylwadau ar y canlynol:

- Rhesymeg a chynllun gwreiddiol y Gronfa;
- Sut y gweinyddwyd y Gronfa;
- Tystiolaeth ynglŷn ag effaith gymdeithasol neu gymunedol prosiectau a ariannwyd o dan y Gronfa, yn enwedig ar grwpiau diamddiffyn;
- Tystiolaeth ynglŷn ag effaith prosiectau a ariannwyd o dan y Gronfa ar fusnesau lleol eraill;
- Enghreifftiau o weithgarwch a ariannwyd o dan y Gronfa a oedd yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus iawn.

Cam 5: astudiaethau achos

Roedd yr ymchwil hefyd yn cynnwys tair astudiaeth achos o swyddfeydd post a oedd wedi cael cyllid o dan y Gronfa ac a oedd wedi cwblhau eu prosiectau. Dewiswyd yr astudiaethau achos o gylch 1 a 2 y Gronfa, er mwyn sicrhau bod digon o amser wedi mynd heibio cyn asesu effaith y prosiect yn

y tymor hwy. Roedd dwy o'r astudiaethau achos mewn ardaloedd difreintiedig trefol (Trelái a Bargod), ac roedd y llall mewn ardal wledig ynysig (Llangurig). Y bwriad oedd cynnal ail astudiaeth achos wledig yn y Gogledd, er mwyn cael cydbwysedd rhwng astudiaethau achos gwledig a threfol a dosbarthiad daearyddol da o astudiaethau achos. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau personol, gorfu i'r Is-bostfeistres dynnu yn ôl o'r astudiaeth. Felly mae'r dosbarthiad daearyddol yn cynnwys Caerdydd, y Cymoedd a'r Canolbarth, ond nid y Gogledd.

Ym mhob achos bu i'r ymchwilydd ymweld â'r swyddfa bost, gweld y gwaith a oedd yn cael ei ariannu o dan y Gronfa, cyfweld â'r Is-bostfeistr neu'r Is-bostfeistres, ac arsylwi ar waith y swyddfa bost yn ystod ei horiau agor. Ceisiwyd barn yr AS lleol, yr AC lleol, Cynghorydd/Cynghorwyr Sir a'r Cyngor Cymuned, a chynrychiolwyr eraill yn y gymuned leol fel y bo'n briodol (Cydgysylltwyr Cymunedau yn Gyntaf,

cydgysylltwyr lleol gwasanaethau i bobl hŷn ac ati).

Yr astudiaethau achos oedd yr elfen fwyaf gwrthrychol o'r gwerthusiad ac ni fwriadwyd iddynt fod yn gynrychioliadol o holl brofiadau'r Gronfa; roedd pob un a gyfwelwyd yn 'gwsmeriaid bodlon' yr oedd eu prosiect wedi'i gwblhau, ac a oedd yn fodlon cael eu cyfweld a rhoi eu barn ar goedd. Felly roeddent yn fwy tebygol na'r cyffredin i wneud sylwadau ffafriol am y Gronfa. Nod yr astudiaethau achos yw darlunio ac ystyried rhai o'r materion sy'n wynebu Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi mewn cymunedau difreintiedig ac ynysig a'r rhan y mae'r Gronfa wedi'i chwarae i helpu tair swyddfa bost unigol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Ceir y canllaw ar bynciau a ddefnyddiwyd yn ystod cyfweiliadau'r astudiaethau achos, ynghyd â rhestr o bobl y gofynnwyd iddynt roi eu barn ar yr astudiaethau achos, yn Atodiad 4. Mae'r astudiaethau achos eu hunain i'w gweld yn Atodiad 5.

2. Cefndir

2.1 Cyd-destun Polisi'r DU

Mae rhwydwaith Swyddfeydd post y DU wedi'i redeg gan Swyddfa'r Post Cyf, sef is-gwmni o dan berchenogaeth lawn Grŵp y Post Brenhinol ccc, cwmni cyfyngedig cyhoeddus a chanddo un cyfranddaliwr sef Llywodraeth y DU.

Mae'r rhwydwaith o 14,600 o swyddfeydd post yn y DU yn cynnwys tua 540 o Ganghennau Wedi'u Rheoli'n Uniongyrchol (hen "Swyddfeydd y Goron"), ond mae'r mwyafrif llethol o swyddfeydd post wedi'u rheoli ar sail asiantaeth gan Is-bostfeistri/Is-bostfeistresi neu bartneriaid masnachfaint (gan gynnwys cadwyni o archfarchnadoedd). Mae 8,054 wedi'u dosbarthu'n swyddfeydd post gwledig.

Mae Is-swyddfeydd yn cael eu hariannu drwy ddau daliad:

- Taliad Swyddfa Penodedig, sy'n amrywio rhwng swyddfeydd post ond sy'n cael ei dalu ni waeth faint o drafodion a gynhelir. Mae Is-bostfeistri yn aml yn ystyried hyn yn 'gyflog';
- Taliad ar sail Trafodion, sydd megis comisiwn ar wahanol drafodion y swyddfa bost ac sydd felly'n amrywio yn ôl faint o fusnes a gynhelir a'r math o fusnes a gynhelir.

Pan fydd y Taliad ar sail Trafodion yn fwy na Thaliad Swyddfa Penodedig dywedir bod swyddfa bost yn 'cyfrannu i'r rhwydwaith'. Pan fydd y Taliad ar sail Trafodion yn fwy na Thaliad Swyddfa Penodedig ynghyd â chostau canolog eraill a delir gan Swyddfa'r Post Cyf, ystyrir bod y swyddfa bost yn 'broffidiol'. Mae a wnelo hyn â phroffidioldeb Swyddfa'r Post Cyf ac nid yw'n awgrymu bod swyddfeydd post unigol eraill eu hunain yn gwneud colled.

Mae'r rhan fwyaf o swyddfeydd post trefol yn y DU yn cyfrannu i'r rhwydwaith, ond mae bron 40% o swyddfeydd post gwledig yn methu â gwneud hynny. Mae llai na 1% o swyddfeydd post gwledig yn 'broffidiol'. O ran swyddfeydd post gwledig nad ydynt yn cyfrannu i'r rhwydwaith, mae Swyddfa'r Post Cyf yn dibynnu ar Daliad y Rhwydwaith Cymdeithasol gan Llywodraeth y DU, fel y trafodir isod.

Mae'r rhwydwaith o swyddfeydd post yn y DU yn wynebu heriau mawr. Mae Swyddfa'r Post Cyf yn gwneud colled - collwyd £110m o'i gweithrediadau yn 2004-5. Mae Postcomm, Comisiwn Gwasanaethau Post a chorff rheoleiddio annibynnol, yn priodoli hyn i'r refeniw traddodiadol o fudd-daliadau sydd wedi cael ei golli, y ffaith bod cynhyrchion newydd ar gam cynnar yn eu datblygiad, a chost cefnogi'r rhwydwaith gwledig (Postcomm Hydref 2005). Amcangyfrifir bod y penderfyniad i dalu pensiynau a budd-daliadau yn uniongyrchol yn 2003 wedi mynd â 40% o incwm traddodiadol swyddfeydd post.

Mae maint y rhwydwaith cyffredinol yn lleihau bob blwyddyn: yn ôl Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri (NFSP), dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae 32% o swyddfeydd post wedi cau. Tan 2002 digwyddodd hyn mewn ffordd heb ei rheoli, rhywbeth a feirniadwyd gan Uned Perfformiad ac Arloesedd Swyddfa'r Cabinet yn 2000 yn ei hadroddiad 'Counter Revolution'. Mewn ymateb i'r feirniadaeth hon, rhwng mis Tachwedd 2002 a mis Mawrth 2005 gweithredwyd Rhaglen Ail-lunio'r Rhwydwaith Trefol gan Swyddfa'r Post Cyf gyda'r nod o ad-drefnu rhwydwaith y swyddfeydd post trefol a chreu rhwydwaith a oedd yn ddichonadwy

i Is-bostfeistri/Is-bostfeistresi unigol ac i Swyddfa'r Post Cyf ei hun, gyda chyn lleied o darfu ar ddefnyddwyr. Arweiniodd y Rhaglen at gau dros 2,400 o swyddfeydd trefol ledled y DU a buddsoddi £9.6m mewn gwelliannau i ganghennau trefol eraill. Disgwylir y bydd dros 2,600 o swyddfeydd post wedi cau erbyn diwedd y Rhaglen hon. Noda'r adroddiad terfynol ar yr adolygiad o'r rhaglen ar ran Postcomm (NERA mis Gorffennaf 2005) fod Swyddfa'r Post Cyf yn disgwyl gwario'r holl gronfa fuddsoddi o £30m a neilltuwyd yn wreiddiol. Yn ôl yr adolygiad roedd y rhaglen wedi cael derbyniad cadarnhaol gan Is-bostfeistri/Is-bostfeistresi, ac wedi bod yn ffactor pwysig i ysgogi gwelliant ym mherfformiad ariannol Swyddfa'r Post Cyf. Fodd bynnag, canfuwyd bod penderfyniadau i gau swyddfeydd post wedi effeithio ar gwsmeriaid a arferai eu defnyddio a bod cau swyddfa bost wedi effeithio ar 80% o gartrefi. Cyfeiriodd at amseroedd teithio hwy a mwy o bellter i deithio, gyda llai o bobl yn mynd ar droed i'w swyddfa bost, a llawer o bobl yn defnyddio swyddfeydd post yn llai aml ac yn defnyddio siopau eraill yn amlach, gyda'r amharu mwyaf ar grwpiau diamddiffyn. Effeithiwyd ar fusnesau bach yn yr un modd, a oedd yn ei chael yn llai cyfleus i fynd i'w cangen leol newydd, gyda 40% yn mynd i'w swyddfa bost yn llai aml. Mae canfyddiad NERA fod y rhan fwyaf o gwsmeriaid swyddfeydd sydd wedi'u cau yn mynd i swyddfeydd eraill wedi'i ategu gan ganfyddiad MORI bod 94% o gwsmeriaid yn mynd i swyddfa arall (MORI 2003). Yn ôl MORI roedd gan y rhan fwyaf o gwsmeriaid feddwl uchel o'u swyddfa bost newydd, ond eu bod yn llai cyfleus, bod angen defnyddio tipyn yn fwy o geir a thrafnidiaeth gyhoeddus, a bod lleihad yn nifer yr ymweliadau â'r swyddfa bost.

Hyd yma ni chafwyd 'ail-lunio rhwydwaith' cyfatebol i swyddfeydd post gwledig. O ran y rhwydwaith gwledig, mae'r Llywodraeth wedi gosod gofyniad ar Swyddfa'r Post Cyf na fydd, tan Hydref 2006, yn cau unrhyw swyddfa bost lle y gellir osgoi gwneud hynny. Er mwyn galluogi Swyddfa'r Post Cyf i gydymffurfio â'r gofyniad hwn i ddarparu gwasanaeth sy'n gwneud colled, neilltuodd £150m y flwyddyn tan fis Ebrill 2006, a elwir yn Daliad y Rhwydwaith Cymdeithasol. Cyhoeddodd Patricia Hewitt, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ar y pryd, ym mis Medi 2004 y câi'r taliad hwn ei estyn am ddwy flynedd, tan fis Ebrill 2008. Mae £10m o Daliad y Rhwydwaith Cymdeithasol yn cael ei wario ar gynlluniau peilot sy'n cael eu rhedeg gan Swyddfa'r Post Cyf i brofi gwahanol ffyrdd o ddarparu gwasanaethau swyddfa bost mewn ardaloedd ynysig iawn. Telir y £140m sy'n weddill i Swyddfa'r Post Cyf i dalu am y diffyg yn incwm rhai o'r swyddfeydd post llai eu maint. Er mwyn helpu i osgoi cau swyddfeydd post, mae Swyddfa'r Post Cyf wedi sefydlu tîm o Gynghorwyr Trosglwyddo Gwledig i gynorthwyo a chynghori swyddfeydd post gwledig. Yn 2004-05 bu gostyngiad clir o 144 o swyddfeydd gwledig ledled y DU er gwaethaf y polisi o beidio â chau swyddfa lle y gellir osgoi gwneud hynny. O ran yr Is-bostfeistri/Is-bostfeistresi sy'n gadael eu swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig, mae Postcomm yn amcangyfrif bod llai na hanner wedi cael incwm o fwy na £15,000 y flwyddyn.

Bydd angen i Lywodraeth y DU gyhoeddi cyn Hydref 2006 a fydd yn estyn y polisi o beidio â chau swyddfa lle y gellir osgoi gwneud hynny ar ôl y dyddiad hwn. Mae hefyd wedi cytuno i roi 18 mis o rybudd i Swyddfa'r Post Cyf am unrhyw newid i'r Taliad Rhwydwaith Cymdeithasol,

sy'n golygu bod yn rhaid i gyhoeddiad ar y mater hwn gael ei wneud erbyn mis Medi 2006. Felly mae rhwydwaith y swyddfeydd post gwledig yn wynebu ansicrwydd ynglŷn â'i ddyfodol ar hyn o bryd.

2.2 Cyd-destun polisi Cymru

Nid yw polisi ynglŷn â swyddfeydd post wedi'i ddatganoli yn y DU, ac erys yn gyfrifoldeb wedi'i gadw yn Adrannau Whitehall. Fodd bynnag, mae cysylltiad clir rhwng y polisi ynglŷn â swyddfeydd post a meysydd polisi datganoledig pwysig iawn i Lywodraeth y Cynulliad, megis polisi gwledig, cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio, cynhwysiant cymdeithasol ac ariannol, polisiâu ynglŷn â chymunedau gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf ac adeiladu cymunedau cynaliadwy, a mentergarwch. Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau sy'n gyfrifol am oruchwylio'r polisi ynglŷn â swyddfeydd post o fewn ardaloedd Llywodraeth y Cynulliad ac mae wedi cysylltu ag is-adrannau polisi eraill i ystyried gwasanaethau neu fentrau llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol y gellid eu darparu o bosibl mewn partneriaeth â swyddfeydd post. Mae rhai wedi mynegi diddordeb mewn egwyddor, ond ni chafwyd unrhyw ddatblygiadau pendant yn y maes hwn. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi rhannu eu canfyddiadau â swyddogion yn Swyddfa'r Post Cyf ac yn yr Adran Masnach a Diwydiant sydd hefyd yn ymwneud â'r gweithgarwch hwn.

Ceir tua 1,200 cangen o Swyddfa'r Post yng Nghymru, y mae 25 ohonynt yn Ganghennau Wedi'u Rheoli'n Uniongyrchol ac y mae 880 ohonynt wedi'u dosbarthu'n swyddfeydd post gwledig gan Swyddfa'r Post Cyf. Dylid nodi fodd bynnag mai diffiniad Swyddfa'r Post Cyf o ardal wledig yw ardal lle mae llai na 10,000 o boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys llawer

o ardaloedd y byddid yn eu hystyried yn ardaloedd trefol yng nghyd-destun Cymru, yn enwedig y Cymoedd a llawer o goridor yr A55, a chan gynnwys sawl rhan ddifreintiedig o Gymru. Mae tua 65% o boblogaeth Cymru yn byw mewn aneddiadau o 10,000 o bobl neu fwy o'i chymharu â 80% yn Lloegr (Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth y Cynulliad). Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried bod rhai o'r 880 o'r swyddfeydd post sy'n swyddfeydd post 'gwledig' yn ffurfiol yn gwasanaethu ardaloedd trefol.

Mae Rhaglen Ail-Iunio'r Rhwydwaith Trefol yn cynnwys rhwydwaith y swyddfeydd post trefol yng Nghymru, lle y bwriedir cau 143 o swyddfeydd post yng Nghymru. Yr un yw'r sefyllfa ar hyn o bryd i'r rhwydwaith gwledig ar draws y DU gyfan o ran polisi, ac mae'n wynebu'r un math o her:

- mae gan y rhwydwaith gwledig yng Nghymru ddiffyg blynyddol o £17.4 miliwn - sy'n cael ei gyflenwi gan y Taliad Rhwydwaith Cymdeithasol ar hyn o bryd. Dim ond 4 swyddfa bost yn y rhwydwaith sy'n gwneud 'elw' yn ôl diffiniad Swyddfa'r Post Cyf.
- Mae'r swyddfeydd post hynny sy'n agosaf at wneud elw fel arfer ar gyrion trefi.
- 75% o swyddfeydd post y rhwydwaith gwledig yw'r unig swyddfa bost yn yr anheddiad.
- mae 441 o swyddfeydd post (50%) yn cael llai na 500 o gwsmeriaid yr wythnos.
- Y swyddfeydd post hyn sydd fel arfer yn gwneud y golled fwyaf. Fel grŵp, mae gan y swyddfeydd post bach hyn ddiffyg o oddeutu £5.5 miliwn gyda'i gilydd neu tua 30% o gyfanswm diffyg y "rhwydwaith gwledig".


Dengys y map isod amseroedd gyrru i'r swyddfa bost agosaf i gartrefi yng Nghymru. Dengys y canlynol:

- Mae ychydig dros 95% o gartrefi o fewn pum munud i swyddfa bost yn y car.

- Mae gan bob awdurdod lleol o leiaf 80% o gartrefi o fewn 5 munud i swyddfa bost yn y car.
- Mae dros 80% o gartrefi o fewn 5 munud i 2 neu fwy o swyddfeydd post yn y car.
- Mae tua 0.5% o gartrefi yn fwy na 10 munud o daith o swyddfa post yn y car.

(Ffynhonnell: mae Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth y Cynulliad, yn seiliedig ar restr lawn o swyddfeydd post ym mis Ionawr 2005 - yn cynnwys rhai swyddfeydd post yn Lloegr yn agos at y ffin â Chymru.)

Amseroedd gyrru - Swyddfa'r Post. Chwefror 2005



Ffynhonnell: Swyddfa'r Post
Isochrones MapInfo Drivetime

© Hawlfraint y Goron 2005. Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif Trwydded: 100017916

artographics
artograffeg

Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol,
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn ôl arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o wasanaethau gwledig yng Nghymru (Medi 2004) mae gan 80% o'r Cynghorau Cymuned a ymatebodd swyddfa bost yn eu cymuned. Mae tua dwy o bob tair o'r swyddfeydd post yn cynnwys siop hefyd. Dim ond mewn 10% o ardaloedd gwledig mae banc, ac mewn 15% mae cymdeithas adeiladu, gyda braidd dim darpariaeth o'r naill na'r llall mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn llai na 1,000.

2.3 Y rhesymeg dros y Gronfa a'i datblygiad

Tan fis Ionawr 2002 yr Is-adran Gweinyddu a Phenodiadau Cyhoeddus fu'n gyfrifol am bolisi ynglŷn â swyddfeydd post yn y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â materion eraill nad oeddent wedi'u datganoli. Yno fe'i trosglwyddwyd i'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau er mwyn cydnabod y cysylltiadau â materion o ran datblygu a chydlynu cymunedol. Dechreuodd y tîm polisi newydd ar swyddfeydd post asesu'r ddadl dros gymorth gan Llywodraeth y Cynulliad i swyddfeydd post er mwyn cydnabod yr heriau a wynebant a'r rhan bwysig yr oeddent yn ei chwarae'n gymdeithasol. Y prif fygythiad a'r prif ysgogiad i ddatblygu polisi yn y maes hwn ar y pryd oedd y bwriad i ddechrau talu budd-daliadau'n uniongyrchol yn 2003, fel y trafodir isod.

Ar yr un pryd yn Lloegr yr oedd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn datblygu syniadau ar gyfer Cronfa Swyddfeydd Post mewn Ardaloedd Trefol Difreintiedig. Byddai hyn yn targedu swyddfeydd post mewn ardaloedd trefol, yn ôl diffiniad Swyddfa'r Post Cyf o 'trefol'. Nodwyd yng Nghymru y byddai trefniadau cyfatebol yn peidio â chynnwys llawer o ardaloedd a ystyrir yng Nghymru yn ardaloedd trefol difreintiedig a bod canolbwyntio'r holl gymorth ar swyddfeydd

post trefol yn methu â chydabod yr heriau a wynebai cymunedau gwledig ynysig yng Nghymru. Felly datblygwyd y Gronfa i ddiwallu anghenion penodol daearyddiaeth a demograffeg Cymru, gan dargedu cymunedau difreintiedig trefol a chymunedau gwledig ynysig fel ei gilydd. Ar gamau datblygu'r Gronfa ceir tystiolaeth o gryn ymgynghori a thrafod â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys Swyddfa'r Post Cyf, Consignia, Postcomm, Golwg ar Bost Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri, y Ganolfan Byd Gwaith, Awdurdod Datblygu Cymru, a Chanolfan Gydweithredol Cymru.

Y Cynulliad oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i lansio cynllun cymorth grant o'r fath i swyddfeydd post. Lansiwyd y Gronfa ym mis Tachwedd 2002 gan Mrs Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd. Darparwyd £4.1m dros dair blynedd i gynorthwyo a datblygu canghennau o Swyddfa'r Post sydd wedi'u lleoli yn yr 125 o gymunedau mwyaf difreintiedig a'r 125 o gymunedau mwyaf ynysig ledled Cymru neu sy'n eu gwasanaethu. Nodwyd y cymunedau cymwys drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2000, a barnwyd natur ynysig yn ôl parth y Mynegai a oedd yn ymwneud â "mynediad at wasanaethau". Nid oedd unrhyw orgyffwrdd rhwng y ddau gategori: amddifadedd ac ynysu. Diffiniad y Gronfa oardal drefol yw ardal lle mae'r boblogaeth dros 3,000.

O dan delerau'r Gronfa, rhoddwyd grantiau o hyd at £50,000 i swyddfeydd post unigol sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd cymwys neu sy'n eu gwasanaethu, i dalu hyd at 100% o gostau cyfalaf prosiectau cymeradwy. Gwnaed taliadau'r Gronfa o dan Adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Pennwyd y terfyn grant o £50,000 yn bennaf er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r Gymuned Ewropeaidd ynglŷn â chymorth gwladwriaethol, sy'n gwahardd cymorth a roddir gan Aelod Wladwriaethau sy'n ystumio cystadleuaeth rhwng Aelod Wladwriaethau. Gan fod y terfyn o €100,000 yn gymwys dros gyfnod o 3 blynedd, gweithredodd y Gronfa fel cynllun Cymorth Gwladwriaethol de minimis yn unol â Rheoliad 69/2001 y Comisiwn ar gymhwyso Erthyglau 87 ac 88 Cytuniad y CE at gymorth de minimis ("y rheoliad de minimis"). Felly cadwodd y Gyfarwyddiaeth Gymunedau gofnodion er mwyn sicrhau na fyddai neb yn derbyn mwy na'r swm hwn dros dair blynedd o'r Gronfa nac ar y cyd â ffynonellau ariannu eraill.

Dengys y datganiad ROAME (rhesymeg, amcanion, arfarnu, monitro a gwerthuso) am y Gronfa, dyddiedig Hydref 2002, i'r sylfaen dystiolaeth a'r adroddiadau ymchwil a oedd ar gael ar y pryd gael eu hystyried pan gafodd ei sefydlu. Roedd y rhesymeg a roddwyd dros y grant fel a ganlyn:

- crebachu rhwydwaith y swyddfeydd post yng Nghymru dros nifer o flynyddoedd;
- tystiolaeth o'r gwerth a roddwyd ar swyddfeydd post yn enwedig gan grwpiau diamddiffyn;
- yr effaith debygol ar incwm canghennau o Swyddfa'r Post yn sgîl cyflwyno talu pensiynau a budd-daliadau yn uniongyrchol (neu'r Trosglwyddo Credyd Awtomatig, ACT) ym mis Ebrill 2003.

Mae'n debyg mai'r rheswm olaf, sef Trosglwyddo Credyd Awtomatig a oedd ar fin cael ei gyflwyno, oedd yr hyn a ysgogodd y gweithredu yn ôl cyfweiliadau â swyddogion a oedd yn ymwneud â

datblygiad y Gronfa. Wrth ddatblygu'r Gronfa cydnabuwyd y duedd i'r swyddfa bost beidio â bod yn unig ddarparwr llawer o'i gwasanaethau traddodiadol megis gwerthu stampiau a chasglu pensiynau a budd-daliadau. Roedd debyd uniongyrchol, post a'r rhyngwrwyd yn mynd yn gynyddol boblogaidd fel ffyrdd o dalu biliau a phrynu trwyddedau teledu a threth ar geir. Roedd y duedd yn mynd i barhau ar ôl cyflwyno cystadleuaeth ym maes gwasanaethau post, sef polisi a oedd yn yr arfaeth.

Rhagwelodd y Datganiad ROAME y byddai ACT yn arwain at golli hyd at 40% o incwm blynyddol swyddfeydd post. Dangosai ymchwil gan MORI ar ran Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri, fel y digwyddodd ym mis Awst 2003, ar ôl pedwar mis o daliadau uniongyrchol, fod hanner yr Is-bostfeistri wedi gweld gostyngiad o 5-19% yn incwm llyfrau archebion a sieciau giro, gyda gostyngiadau mawr eraill erbyn mis Chwefror 2004. Erbyn hynny roedd ychydig o dan 40% o hawlwyd wedi newid o lyfrau archebion a sieciau giro i daliadau uniongyrchol.

Nod y Gronfa oedd helpu swyddfeydd post i ehangu'r gwasanaethau a gynigir gan swyddfeydd post neu i arallgyfeirio a darparu cynhyrchion a gwasanaethau eraill. Y bwriad oedd cynyddu incwm y swyddfa bost neu'r elfennau manwerthu o'r busnes, gan wneud iawn am incwm a gollwyd drwy ACT. Felly roedd menter y Gronfa yn enghraifft dda o nodi problem bosibl yn gynnar a chymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r canlyniadau.

Rhodddwyd tystiolaeth dda o'r elfennau eraill o'r rhesymeg dros y Gronfa ar y pryd. Mae'r datganiad ROAME yn nodi'r gostyngiad yn nifer y swyddfeydd post yng Nghymru ers 1995, gyda "a greater absolute and proportionate loss of post offices than anywhere else in the UK,

between 1995 and 2001.” Noda gynlluniau Swyddfa'r Post Cyf i ailstrwythuro ei rhwydwaith trefol. Cyfeiria at ymchwil gan ERM a MORI ar ran Postcomm a amlygodd y rhan bwysig yr oedd swyddfeydd post yn ei chwarae mewn ardaloedd difreintiedig gwledig a threfol yng Nghymru, yn enwedig i'r rhai mwyaf diamddiffyn mewn cymdeithas a'r rhai sy'n cael eu hallgáu'n gymdeithasol (Postcomm Rhagfyr 2001). Daeth y Datganiad i'r casgliad bod y dystiolaeth yn dangos “community cohesion and services to vulnerable and marginalised groups have the potential to be seriously damaged by the continuing attrition of the traditional post office network”.

Âr datganiad yn ei flaen i ddadansoddi'r rhesymau dros gau swyddfeydd post. Prin yw'r dystiolaeth, gan nad yw Swyddfa'r Post Cyf yn casglu rhesymau gan Is-bostfeistri dros ymddiswyddo mwyach, oherwydd cyfraddau ymateb isel. Fodd bynnag, yn ôl rhesymau Is-bostfeistri dros ymddiswyddo yn 2000/01, ynghyd ag asesiad Rheolwyr Rhwydwaith Masnachol Swyddfa'r Post Cyf o'r rheswm dros gau swyddfeydd post yn 2001/02 y prif resymau dros gau, ac eithrio oedran ac afiechyd, oedd: dichonoldeb ariannol, troi eiddo yn ddefnydd preswyl; a ffactorau mewnol (gan gynnwys perfformiad a materion cytundebol). Mae'r rhesymau hyn yn awgrymu'r anawsterau a wynebai Is-bostfeistri ac yn ategu'r farn mai'r cymorth mwyaf priodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ei gynnig oedd helpu Is-bostfeistri i wella dichonoldeb eu busnesau.

Amcan y Gronfa yn ôl y datganiad ROAME oedd helpu i gadw a datblygu swyddfeydd post mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru. Mae'r prif amcan hwn yn weddol glir a realistig, gyda'r Gronfa yn

rhoi cefnogaeth yn unig. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn fuddiol pe bai ychydig o ganlyniadau mesuradwy wedi'u cynnwys, er enghraifft o ran cynyddu incwm neu elw.

Mae'r amcanion yn y papurau briffio cefndirol eraill yn fanylach, gan nodi bod y Gronfa yn anelu at y canlynol:

- Helpu i gynnal rhwydwaith dichonadwy o swyddfeydd post ledled Cymru
- Sicrhau bod cangen o Swyddfa'r Post a chyfleusterau cymunedol eraill ar gael i gymunedau difreintiedig a/neu ynysig yng Nghymru
- Gwneud swyddfeydd post yn fwy dichonadwy a chynaliadwy drwy gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cymunedau lleol a chefnogi cysylltiadau â busnesau a chyfleusterau cymunedol eraill (Llywodraeth Cynulliad Cymru Tachwedd 2002).

O dan yr amcanion manylach hyn mae'r ddarpariaeth o wasanaethau cymunedol ychwanegol yn ddiben ynddo'i hun bellach, ac eglurir mai ystyr bod o dan anfantais yw difreintiedig a/neu ynysig yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, mae'r amcanion manylach braidd yn uchelgeisiol, o gofio nad yw rhwydwaith y swyddfeydd post wedi bod yn fasnachol ddichonadwy ers peth amser ac nad oes cangen o Swyddfa'r Post ym mhob un o'r cymunedau o'r fath ar hyn o bryd. Ni ddadansoddwyd a oedd swyddfeydd post yn fasnachol ddichonadwy cyn ACT, ac nid oedd gwybodaeth ar gael am effaith debygol y gostyngiad yn nifer y defnyddwyr oherwydd ACT ar fusnesau manwerthu cysylltiedig. Gellid bod wedi pennu'r amcanion yn gywirach fel amcanu at gynyddu incwm yn y busnesau a gafodd gyllid.

Er mwyn cael eu hystyried am grant, bu'n rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod

yn Is-bostfeistri/bostfeistresi annibynnol, heb fuddiant mewn swyddfeydd post lluosog, ac y byddai eu swyddfeydd post yn gynaliadwy pe caent arian ond y byddent fel arall yn debygol o gau, a'u bod yn darparu gwasanaeth unigryw o werth cymdeithasol mawr i'r gymuned. Fe'u hanogwyd i ddangos sut y byddai'r prosiect yn helpu grwpiau wedi'u hymyleiddio. Roedd y broses ymgeisio yn eu hannog i geisio cyngor busnes annibynnol, ond nid oedd hynny'n ofynnol, er mwyn sicrhau bod y cynigion o safon dda.

Yn y datganiad ROAME nid oedd fawr sôn am fonitro na gwerthuso'r gronfa, ac eithrio'r ffaith y câi hynny ei wneud. Fel y digwyddodd, roedd gwaith monitro yn erbyn yr hyn y cytunwyd i'w gyflawni (hy cwblhau gwaith i safonau gofynnol) yn drwyadl ac yn gadarn, gofynnwyd am anfonebau am bob elfen o'r gwaith ac archwiliwyd y prosiect terfynol a chytunwyd arno gan Swyddfa'r Post Cyf. Fodd bynnag, nid oedd gwerthuso yn rhan annatod o'r cynllun ar y cychwyn ac ni nodwyd unrhyw ddangosyddion ar gyfer y tymor hwy i werthuso ei lwyddiant ai peidio, ac ni chymerwyd mesuriadau sylfaenol.

Un broblem fawr wrth ddatblygu'r Gronfa oedd sicrhau nad oedd arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn swyddfeydd post na allai byth fod yn rhan o fusnes masnachol-ddichonadwy yn yr hirdymor, neu a allai gael eu cau gan Swyddfa'r Post Cyf yn ddiweddarach. Cymerwyd camau i atal buddsoddi mewn swyddfeydd post a oedd yn debygol o gau yn y dyfodol agos:

- anogwyd swyddfeydd post i geisio cyngor busnes a gofynnwyd iddynt nodi pa gyngor busnes yr oeddent wedi'i gael;

- gofynnwyd i Swyddfa'r Post Cyf gadarnhau nad oedd yn bwriadu cau'r swyddfa bost o dan y Rhaglen Ail-lunio'r Rhwydwaith Trefol nac o dan unrhyw gynlluniau ad-drefnu eraill ac i gymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig i gyfleusterau neu wasanaethau swyddfa bost;
- Daethpwyd i gytundeb â Swyddfa'r Post Cyf na fyddai'n cymryd camau i gau unrhyw swyddfa bost a oedd wedi cael cyllid o dan y Gronfa tan o leiaf 31 Mawrth 2008 (ddwy flynedd yn hwy na'r polisi o beidio â chau swyddfa bost lle y gellir osgoi gwneud hynny);
- roedd yn rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cyfrifon a rhagamcanion o lif arian.

Wrth ddatblygu'r Gronfa ystyriwyd hefyd faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, a nodwyd bod 'several post offices supported under PODF are located in isolated, rural and urban deprived communities which also have high proportions of Welsh speakers. In helping to retain postal services within these communities PODF is thereby helping to arrest the decline in the number of communities where Welsh is spoken by over 70% of the population'. Fodd bynnag, nid oedd cynorthwyo swyddfeydd post mewn ardaloedd Cymraeg yn un o amcanion penodol y Gronfa, ac nid ystyriwyd materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg wrth asesu cynigion neu ddyfarnu grantiau.

Mae Swyddfa'r Post Cyf yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir mewn swyddfeydd post, ac mae ganddi ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun i sicrhau bod yr ieithoedd yn cael triniaeth gyfartal. Roedd y Gronfa'n cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau gan swyddfeydd post i gymunedau, ac mewn sawl achos roedd y gwasanaethau hynny eisoes ar gael

drwy'r Gymraeg. Ni wnaeth dargedu na ffafrio ardaloedd na swyddfeydd post ar sail ieithyddol.

2.4 Cymorth grant arall i swyddfeydd post

Ym mis Rhagfyr 2002 lansiodd Uned Adfywio Cymdogaeth Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ei Chronfa ar gyfer Swyddfeydd Post mewn Ardaloedd Trefol Difreintiedig yn Lloegr (DUPOF) gwerth £15m er mwyn atal swyddfeydd post rhag cael eu cau yn yr ardaloedd trefol mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Roedd grantiau cyfalaf o hyd at £50,000 ar gael am gyfleusterau manwerthu newydd, addasu siopau neu wella diogelwch. Anelwyd cyllid ar y cychwyn at swyddfeydd post yn y 10% o wardiau trefol mwyaf difreintiedig a oedd dros hanner milltir o daith o gangen arall, wedyn y rhai yn yr un wardiau ond o fewn hanner milltir o daith i gangen arall. Cymeradwywyd 339 o grantiau, gwerth £14.6m i gyd (hy grant cyfartalog o tua £43,000).

Yn ôl y gwerthusiad diweddar o DUPOF (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog Rhagfyr 2005) roedd DUPOF yn y rhan fwyaf o achosion wedi cael effaith gadarnhaol o ran proffidioldeb a chadw a chreu swyddi. Nododd bron dau o bob tri Is-bostfeistr fod DUPOF wedi arbed tua mil o swyddi ac wedi creu dros 300 o swyddi ychwanegol mewn canghennau o Swyddfa'r Post mewn ardaloedd trefol difreintiedig. Cafwyd tystiolaeth fanwl o fanteision i'r economi leol a'r gymuned leol yn yr astudiaeth hefyd. Fodd bynnag, canfu arolwg dilynol dystiolaeth bod yr effaith yn lleihau a daeth i'r casgliad bod y gostyngiad parhaus yn nhrosiant gwerthiannau swyddfeydd post yn parhau'n fygythiad i'w proffidioldeb a'u dichonoldeb yn y tymor hwy. Yn ôl y gwerthusiad cafwyd amrywiadau

mawr yn effaith astudiaethau achos, ac esboniwyd hynny'n fras drwy gyfeirio at natur y gwelliannau a wnaed a'r cyddestun lleol y mae'r swyddfeydd post yn gorfod cystadlu am gwsmeriaid ynddo. Mae'r ymchwilyr a gomisiynwyd hefyd wedi paratoi canllaw ar arferion da sy'n defnyddio profiad DUPOF i nodi ffactorau llwyddiant o ran arallgyfeirio.

Ar y cyd â DUPOF sefydlwyd Cronfa Phoenix gwerth £750,000 sydd wedi'i rheoli gan Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri (NFSP) ac sy'n cynnig cyngor busnes am ddim i ganghennau mewn ardaloedd difreintiedig yn Lloegr cyn iddynt wneud cais am gyllid o dan DUPOF. Mae rhaglen Cronfa Phoenix yn dirwyn i ben.

Mae bron i 110 o geisiadau wedi dod i law mewn perthynas â Chronfa £2m Gweithrediaeth yr Alban i Ddatblygu Swyddfeydd Post mewn Ardaloedd Trefol Difreintiedig. Mae'r Gronfa bellach wedi cau i geisiadau newydd ac mae 48 o ddyfarniadau wedi cael eu gwneud i is-bostfeistri ar draws yr Alban ers mis Mawrth 2003. Caiff y Gronfa ei gwerthuso yn ystod 2006 a chaiff y canfyddiadau eu rhannu'n eang gyda rhanddeiliaid. Mae tystiolaeth anecdotaidd eisoes yn dangos buddiannau, yn enwedig o ran diogelwch cymunedol lle rydym wedi gweld canfyddiadau gwell o ran diogelwch drwy'r defnydd o gamerâu teledu cylch cyfyng a chaeadau diogelwch. Mae tystiolaeth o'r Gronfa hefyd yn amlygu prinder sgiliau busnes arbenigol yn y sector ac er mwyn mynd i'r afael â hyn mae Gweinidogion wedi dyrannu £250,000 i ddarparu hyfforddiant arbenigol ar wella busnes i is-bostfeistri mewn ardaloedd trefol a gwledig sy'n ddifreintiedig. Nod y dyraniad hwn yw helpu is-bostfeistri i weithredu eu busnesau yn fwy effeithiol, a thrwy hynny,

gyfrannu at amcanion Cronfa Swyddfa'r Post. Caiff yr hyfforddiant hwn ei roi mewn partneriaeth â Scottish Enterprise yn ystod haf 2006.

Lansiwyd cynllun tebyg gwerth £750,000 dros dair blynedd i swyddfeydd post mewn ardaloedd trefol difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2004 a bydd yn parhau tan fis Mawrth 2007.

Ymhlith y cymorth grant arall i swyddfeydd post yn y DU mae:

- Cynllun Grant Buddsoddi Ail-lunio'r Rhwydwaith Trefol gwerth £30m - sydd ar gael i swyddfeydd post trefol tan fis Mawrth 2006. Ei nod yw helpu swyddfeydd post i ymdopi â galw ychwanegol pan fydd swyddfa gyfagos yn cau. Rhoddir grantiau gwerth hyd at £10,000 ac mae angen arian cyfatebol. Cymeradwywyd 3,515 o grantiau, gwerth £21.4m, y mae £4.4m o'r swm hwnnw wedi cael ei wario.
- Cronfa Ddigolledu Ail-lunio'r Rhwydwaith Trefol gwerth £180m - i ddigolledu Is-bostfeistri y mae eu swyddfeydd post wedi cau o dan y rhaglen ail-lunio.
- Cronfa Cymorth Buddsoddi Ail-lunio'r Rhwydwaith Trefol gwerth £3m sydd wedi'i rheoli gan Swyddfa'r Post Cyf a NFSP ac sy'n cyd-redeg â chynllun buddsoddi uchod yr Adran Masnach a Diwydiant.
- Cronfa Hygyrchedd Swyddfa'r Post Cyf gwerth £3m sy'n helpu swyddfeydd post i fodloni eu rhwymedigaethau

o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Rhoddir grantiau o hyd at £10,000 ac mae angen arian cyfatebol fel arfer. Daeth 1,200 o geisiadau i law, gwerth tua £4m i gyd.

- Cynllun Cyfalaf Cychwynnol i Is-swyddfeydd Post gwerth £2m, a gynhelir gan Swyddfa'r Post Cyf ar ran yr Adran Masnach a Diwydiant sy'n cynnig grantiau o hyd at £20,000 lle mae swyddfa bost wledig wedi cau'n ddiweddar neu sydd ar fin cau a lle y byddai'r gymuned fel arall yn colli ei swyddfa bost am byth.

Ym mis Ionawr 2005, lansiodd Swyddfa'r Post Cyf ddau gynllun newydd ar gyfer swyddfeydd post gwledig:

- Cronfa Her Buddsoddi Gwledig (mae £1 filiwn ar gael - i wneud yr elfen o fusnesau gwledig sy'n ymwneud â swyddfa bost yn fwy effeithlon. Cafwyd 356 o geisiadau erbyn mis Hydref 2005);
- Cynllun Ailgychwyn Gwledig (mae £1 filiwn ar gael - i atgyfnerthu cangen wledig neu is-swyddfa. Roedd 39 o geisiadau wedi dod i law erbyn Hydref 2005).

Yn y naill achos a'r llall, mae cynghorwr datblygu yn ymweld â changhennau cyn y cytunir ar grant. Nid oes gwybodaeth ar gael eto am faint o swyddfeydd post sydd wedi derbyn cyllid o dan y cynlluniau newydd hyn.

3. Canfyddiadau astudiaethau blaenorol

3.1 Dichonoldeb swyddfeydd post

Mewn astudiaeth ymchwil gan ERM ar Swyddfeydd Post ac Anghenion Cymunedol mewn Ardaloedd Difreintiedig Gwledig a Threfol (ERM 2001) ystyriwyd dichonoldeb swyddfeydd post o'r fath a'r ffactorau sy'n fygythiad iddynt. Credai'r rhan fwyaf o Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi fod eu swyddfa bost yn cyfrannu at fwy na 50% o'r gwerthiannau yn y siop gysylltiedig, ond nad oedd gwerthiannau manwerthu yn cyfrannu at drafodion eu swyddfa bost. Roedd angen y cyfuniad o siop a swyddfa bost ar y rhan fwyaf ohonynt i wneud bywoliaeth weddol dda ac ni allent wneud hynny o'r naill elfen na'r llall yn unig. Roedd tua un o bob tri o Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi yn ystyried gadael eu swyddfa bost. Nodwyd yn yr adroddiad fod y penderfyniad i gyflwyno Taliadau Uniongyrchol yn fygythiad mawr i ddichonoldeb. Cynigiodd yr astudiaeth system o gymhorthdal uniongyrchol cynyddol er mwyn cydnabod y rolau penodol yn y gymuned ac o ran gwybodaeth. Mewn gwaith arall gan ERM (2000 - adroddiad ar Arwyddocâd Economaidd) daethpwyd i'r casgliad fod siopau sy'n rhan o swyddfeydd post yn cael tua £19,000 o incwm y flwyddyn o ganlyniad i fusnes a gynhelir yn y swyddfa bost.

Dengys yr astudiaethau hyn ei bod yn ddoeth i'r Gronfa ystyried y busnes yn ei gyfanrwydd yn hytrach na cheisio mynd i'r afael â mynediad at wasanaethau swyddfeydd post ar ei ben ei hun.

3.2 Gwerth cymdeithasol swyddfeydd post

Postcomm, sef y Comisiwn Gwasanaethau Post, yw rheoleiddiwr annibynnol y farchnad bost ac mae'n cynghori'r

Llywodraeth ar rwydwaith y swyddfeydd post. Mae wedi cyhoeddi ymchwil helaeth ar y rhwydwaith presennol o swyddfeydd post, y gwasanaethau a ddarperir ganddo a'r cwsmeriaid a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mewn cyfres bwysig o adroddiadau o'r enw *Serving the Community* (Postcomm 2001-2), yn seiliedig ar gyfweiliadau ag Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi, cwsmeriaid swyddfeydd post a phobl mewn ardaloedd lle mae swyddfeydd post wedi cau'n ddiweddar, nodir tystiolaeth o werth cymunedol swyddfeydd post ac effaith cau swyddfeydd post, yn enwedig ar grwpiau diamddiffyn.

Yn *Serving the Community* I ystyriwyd y dystiolaeth ynglŷn â gwerth cymunedol swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig. Canfuwyd bod swyddfeydd post yn hygyrch ac yn gyfleus iawn i drigolion gwledig, yr oedd eu hanner yn mynd i'r swyddfa bost ar droed, ac yr oedd dros eu hanner yn defnyddio'r swyddfa bost unwaith neu fwy yr wythnos. Un o'r gwasanaethau allweddol oedd y gallu i godi arian. Roedd pobl hŷn, pobl anabl, pobl heb gar, gofalwyr a rhieni unigol yn gwneud mwy o ddefnydd o swyddfeydd post ac yn rhoi mwy o bwys arnynt. Teimlai llawer (dros 90% o drigolion a chwsmeriaid) fod y swyddfa bost yn cyflawni rôl gymunedol bwysig, gydag un o bob tri chwsmer yn gwerthfawrogi'r cyngor sydd ar gael ac yn defnyddio gwasanaethau cymunedol am ddim, ac ystyriai 44% ei bod yn fan cyfarfod. Ceid peth tystiolaeth bod swyddfeydd post yn cyflawni rôl answyddogol o roi gofal, gyda 66% o Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi yn dweud eu bod yn 'cadw llygad' ar hyd at 30 o gwsmeriaid diamddiffyn, gan eu

helpu gyda ffurflenni a gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i ddod i mewn i'r swyddfa bost yn rheolaidd. Rhoddwyd mwy o bwys ar werth cymunedol a'r defnydd o wasanaethau cymunedol am ddim lle nad oedd gwasanaethau lleol eraill (ee banciau a siopau). Roedd y defnydd cymunedol o swyddfeydd post yn llai ymhlith oedolion ifanc. Roedd llawer o swyddfeydd post ond yn denu niferoedd bach iawn o gwsmeriaid, gyda symiau bach iawn yn cael eu gwario yn y siop gysylltiedig. Yn ôl canfyddiadau'r astudiaeth roedd pobl yn gallu ymaddasu ar ôl i swyddfa bost gau, er y byddai hynny'n anghyfleus iawn i un o bob tri o bobl sy'n byw mewn ardal wledig, yn enwedig y rhai diamddiffyn.

Ystyriodd Serving the Community II y dystiolaeth ynglyn â gwerth cymunedol mewn ardaloedd difreintiedig trefol ac unwaith eto y canfyddiad oedd bod swyddfeydd post yn hygyrch iawn, gyda thros 70% o drigolion yn mynd i'w swyddfa bost ar droed a bron 60% yn ei defnyddio unwaith neu fwy yr wythnos. Swyddfeydd post oedd y brif ffynhonnell o arian mewn cymunedau difreintiedig trefol, ond gwneid llai o ddefnydd o'r siop gysylltiedig nag mewn ardaloedd gwledig. Roedd tystiolaeth ynglyn â rôl gymunedol y swyddfa bost fel man cyfarfod a lle i gael gwybodaeth a gwasanaethau cymunedol am ddim yn debyg i'r hyn a geid mewn ardaloedd gwledig. Roedd pobl hŷn, pobl anabl, pobl heb gar a'r bobl hynny nad oedd yn hwylus iddynt ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn rhoi mwy o werth ar y swyddfa bost.

Dadansoddodd Serving the Community III y gwahaniaethau rhwng ardaloedd difreintiedig gwledig a threfol lle nad oedd unrhyw siopau na gwasanaethau eraill ac ardaloedd cyffredin. Yn achos ardaloedd gwledig lle nad oedd unrhyw siopau na gwasanaethau eraill, canfuwyd, er syndod

efallai, fod arwyddion bod defnyddwyr yn gwneud llai o ddefnydd o'r swyddfa bost ac yn ei gwerthfawrogi'n llai na'r cyffredin, gyda llai o ddefnydd o'r swyddfa bost at ddibenion cymdeithasol neu wybodaeth gymunedol. Awgryma hyn, os mai'r swyddfa bost yw'r unig wasanaeth sydd ar ôl mewn cymuned, fod llai yn dibynnu arni, gyda'r rhan fwyaf yn cyfuno'r defnydd o swyddfa bost â theithio i siopau mewn mannau eraill. Y darlun o ardaloedd difreintiedig trefol lle nad oes unrhyw wasanaethau eraill yw y gwneir mwy o ddefnydd o'r swyddfa bost sy'n weddill na'r cyffredin a'i bod yn cael ei gwerthfawrogi'n fwy. Fodd bynnag, canfuwyd y byddai pobl yn yr ardaloedd hyn yn gallu addasu drwy ddefnyddio swyddfa bost yn agos at y siopau lle maent yn siopa.

Yn Serving the Community VI ystyriwyd yn fanylach grwpiau diamddiffyn sy'n defnyddio swyddfeydd post mewn ardaloedd difreintiedig gwledig neu drefol. Yn ôl y canfyddiadau pobl hŷn, pobl anabl, pobl heb gar a gofalgwyr sy'n gwneud y defnydd mwyaf o swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig ac ar y bobl hynny y byddai unrhyw benderfyniad i gau swyddfa bost yn effeithio fwyaf. Ni fyddai grwpiau eraill megis rhieni unigol neu bobl ddi-waith yn waeth eu byd na'r boblogaeth gyffredinol. Mewn ardaloedd difreintiedig trefol, ar bobl hŷn, rhieni unigol, pobl anabl a gofalgwyr y byddai penderfyniad i gau swyddfa bost yn effeithio fwyaf.

Roedd y data a gasglwyd ar gyfer yr astudiaethau Serving the Community yn cynnwys Cymru. Dangosai fod 82% o gwsmeriaid swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru yn cytuno'n gryf bod swyddfeydd post yn darparu gwasanaethau pwysig. Ymhlith pobl dros 65 oed, pobl heb gar, pobl ag anabledd, teulu rhiant unigol

a gofalmwyd y cafwyd y ganran fwyaf yn cytuno'n gryf. Hwylt-hwy hefyd a wnâi'r defnydd mwyaf o'r swyddfa bost i godi arian. Defnyddir y swyddfa bost unwaith yr wythnos gan 63% o'r cwsmeriaid a gymerodd ran yn yr arolwg ac roedd 80% o bobl dros 65 oed yn ei hystyried yn fan cyfarfod. Defnyddid siopau a oedd yn gysylltiedig â swyddfeydd post gan 54% o gwsmeriaid gwledig. Mewn ardaloedd difreintiedig trefol o Gymru roedd swyddfeydd post yn gwasanaethu'r un math o grwpiau diamddiffyn a grwpiau wedi'u hallgáu'n gymdeithasol â swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig. Mewn ardaloedd difreintiedig trefol roedd 55% o gwsmeriaid yn cael arian drwy fudd-daliadau neu bensiynau yn y swyddfa bost. Roedd cyfle i ddefnyddio gwasanaethau cymunedol am ddim, gan gynnwys cwrdd â ffrindiau, cael cyngor anffurfiol gan Is-bostfeistri, darllen hysbysiadau cymunedol a chael gwybodaeth y llywodraeth yn bwysig i 61% o gwsmeriaid mewn ardaloedd difreintiedig trefol yng Nghymru.

Yn ôl arolygon o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth yn 1995 roedd swyddfeydd post yn chwarae rhan bwysig i helpu cwsmeriaid CAB, y mae llawer ohonynt yn cael budd-daliadau ac sydd ag incwm isel (NACAB 1995).

Mae'r cysyniad o'r swyddfa bost fel man cyfarfod yn y gymuned yn un sy'n codi dro ar ôl tro yn y deunydd, ac er ei bod yn anodd ei ddiffinio'n fanwl, mae'n amlwg ei fod yn taro tant â llawer o grwpiau. Mae Cymdeithas Gwasanaethau Manwerthu Pentrefi yn adleisio canfyddiadau Serving the Community pan noda 'the post office has always been a key focal point in the village'. (ViRSA 1998). Mae'r ymgynghorwyr Triangle/HI Europe yn dyfynnu geiriau pobl sy'n cymryd rhan mewn arolygon sy'n

meddwl bod y swyddfa bost yn 'gwneud pentref'. Yn fwy cyffredinol, sonnir yn aml fod i swyddfeydd post werth cymdeithasol a honnir eu bod yn fuddsoddiad gwerthfawr yn y gwead cymunedol a chymdeithasol. Ceisiodd adroddiad ar ran Swyddfa'r Post Cyf gan AXON Solutions (2003) nodi gwerth cymdeithasol ac economaidd swyddfeydd post mewn cymunedau gwledig, yn ychwanegol at y trafodion masnachol, a chan roi o'r neilltu ymlyniad emosiynol pobl at swyddfeydd post. Sefydlwyd methodoleg ar gyfer rhoi gwerth ariannol ar gyfraniad y swyddfa bost mewn chwe maes:

- Gwerth cymdeithasol (gofal cymdeithasol a phreswyl a chynhwysiant cymdeithasol);
- Canolbwynt cymdeithasol a man gwybodaeth;
- Gwerth economaidd a gwerth o ran cyflogaeth;
- Gwerth o ran trethiant;
- Gwerth o ran cludiant ac amser teithio;
- Gwerth ased sylfaenol.

Yn gyffredinol yn ôl yr adroddiad gellid priodoli gwerth dros £590m y flwyddyn i rwydwaith y swyddfeydd post gwledig, sy'n gyfwerth ag ennill £4 am bob £1 o'r Taliad Rhwydwaith Cymdeithasol a fuddsoddiwyd. Gan dybio bod y darlun yn gyson ledled y DU, byddai hyn yn awgrymu ennill £69.6m ar y Taliad Rhwydwaith Cymdeithasol a wariwyd yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y gyfres Serving the Community ac mewn adroddiadau eraill yn dangos y gwerth mawr y mae pobl mewn ardaloedd difreintiedig gwledig a threfol yn ei roi ar swyddfeydd post a'r gwasanaethau ariannol a gynigir ganddynt. Mae'n tanlinellu pa mor bwysig yw'r gwasanaethau hyn i grwpiau

diamddiffyn, yn enwedig pobl hŷn a'r rhai â phroblemau o ran symudedd a chludiant. Mae hefyd yn amlygu'r gred gref ond mwy haniaethol bod gwerth cymdeithasol a chymunedol i swyddfeydd post fel canolfan gymdeithasol. Er mwyn cydnabod y safbwyntiau hyn ynglŷn â rôl a gwerth swyddfeydd post a oedd wedi'u mynegi'n gryf y sefydlwyd y Gronfa. Yn wahanol i'r cronfeydd yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon, roedd y Gronfa ar gael mewn ardaloedd gwledig ynysig yn ogystal ag ardaloedd difreintiedig trefol, ac felly roedd yn mynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd yn y gyfres hon o adroddiadau.

3.3 Cau swyddfeydd post

Yn Serving the Community V aseswyd effaith penderfyniadau i gau swyddfeydd post, a ddigwyddodd yn fwy aml mewn ardaloedd a oedd eisoes yn cael eu gwasanaethu'n wael, oherwydd dwysedd poblogaeth isel o bosibl. Canfuwyd bod pobl yn gyffredinol yn gallu addasu ar ôl i swyddfa bost gau ond bod hynny'n llawer mwy anghyfleus i grwpiau diamddiffyn. Daeth Postcomm i'r casgliad mai'r rhai heb gar sydd fwyaf dibynnol ar y gangen leol o Swyddfa'r Post, gyda 60% yn teimlo y byddai'n anghyfleus iawn pe bai'n cau (Postcomm 2002).

Yn 2002 comisiynwyd ymchwil i effaith cau swyddfeydd post mewn cymunedau gwledig ar draws y DU gan Golwg ar Bost Cymru, sef y corff gwarchod ar gyfer gwasanaethau post. Anelodd at sefydlu fframwaith ar gyfer gwahaniaethu rhwng faint o effaith a gafwyd ar gwsmeriaid mewn gwahanol fathau o ardaloedd. Canfuwyd mai tafarn neu neuadd y pentref oedd yr unig gyfleuster cymunedol a oedd yn weddill fel arfer ar ôl i swyddfa bost gau. Yn achos 76% o swyddfeydd post a oedd wedi cau roeddent hefyd wedi cynnwys siop, ac roedd 82% o'r siopau hynny wedi cau hefyd ar yr un pryd â'r

swyddfa bost, er bod pobl yn dweud bod colli'r swyddfa bost yn bwysicach iddynt na cholli'r siop. Teimlai dros hanner y trigolion fod y swyddfa bost yn hanfodol i'w ffordd o fyw, gyda ffigurau uwch ymhlith rhai grwpiau megis pobl hŷn a phobl anabl. Roedd hanner y trigolion wedi defnyddio'r swyddfa bost i ddarllen hysbysiadau cymunedol a chwrdd â ffrindiau, 30% i gael gwybodaeth y llywodraeth a chynghor anffurfiol. Yn ôl adroddiad gan HI/Triangle (2002) roedd i benderfyniadau i gau swyddfeydd post mewn cymunedau gwledig oblygiadau o ran byw'n annibynnol i grwpiau diamddiffyn, yn enwedig pobl hŷn a phobl anabl.

Dangosai'r ymchwil nad oedd pobl o reidrwydd yn defnyddio'r swyddfa bost nesaf un ar ôl i swyddfa bost gau a bod tuedd i deithio ymhellach a chyfuno'r defnydd o swyddfa bost â thaith i fynd i siopa, sy'n awgrymu nad yw'r pellter i'r swyddfa bost agosaf na'r cysyniad o "mynediad rhesymol" yn ffactorau defnyddiol wrth ganfod effaith cau swyddfeydd post. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai yn yr ardaloedd hynny a chanddynt y canrannau mwyaf o "elderly residents and residents of a lower social class" y cafwyd yr effaith fwyaf pan gollwyd swyddfa bost, a nodwyd hefyd fod effaith fawr ar bobl heb gludiant a phobl anabl. Fodd bynnag canfuwyd nad oedd modd rhoi rhagfynegydd dibynadwy o effaith yn seiliedig ar fesurau ystadegol o natur ddiamddiffyn pobl mewn ardal oherwydd y cyfuniadau o ffactorau dan sylw.

Mae i'r gwaith ymchwil hwn oblygiadau o ran cynllun y Gronfa. Defnyddiodd y Gronfa bellter i'r swyddfa bost agosaf fel ffactor wrth benderfynu pa gynigion i'w hariannu. Fodd bynnag dengys yr ymchwil fod ymatebion i golli swyddfa bost a'r patrymau mynediad i swyddfa bost a

gwasanaethau eraill o ganlyniad i hynny yn fwy cymhleth nag y caniatâ'r mesur hwn.

3.4 Cryfderau, gwendidau, bygythiadau a chyfleoedd

Er gwaethaf y swyddfeydd post sydd wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae i rwydwaith y swyddfeydd post nifer o gryfderau. Yn ôl adroddiad ar ran Postcomm yn 2001 (ERM 2001), "although the network is declining it remains one of the densest in Western Europe and there are far more post offices than, for example, all bank or building society outlets put together." Y rhwydwaith o ganghennau Swyddfa'r Post yn y DU yw'r rhwydwaith manwerthu mwyaf yn y wlad (Post Brenhinol 2004), ac mae'n trafod mwy o arian nag unrhyw fusnes arall (gwefan Swyddfa'r Post Cyf). Mae rhwydwaith y swyddfeydd post (heb gynnwys busnesau manwerthu cysylltiedig na busnesau eraill) yn gwerthu tua 170 o gynhyrchion a gwasanaethau. O'r 2.7 biliwn o drafodion a wneir bob blwyddyn, mae'r rhan fwyaf yn ymwneud â chael arian, bancio, hamdden a gwasanaethau post. Swyddfeydd post hefyd yw'r darparwr mwyaf o arian cyfred ym Mhrydain. Mae dros 94% o boblogaeth y DU yn byw o fewn milltir

i swyddfa bost, ac mae 99% yn byw o fewn 3 milltir, ac mae Swyddfa'r Post Cyf yn amcangyfrif bod dros 41 miliwn o gwsmeriaid yn mynd i swyddfeydd post bob wythnos. Mae Swyddfa'r Post yn frand y mae pobl yn ei hoffi ac yn ymddiried ynddo. Mewn arolwg gan NPI yn 1997 (y dyfynnwyd ohono yn Counter Revolution) roedd gan bobl fwy o feddwl o Swyddfa'r Post na'r manwerthwr gorau a'r banc gorau o ran gwneud tasgau pwysig, dibynadwyedd a bod yn rhan o'r gymuned. Fel y nodwyd uchod, ceir cryn dipyn o dystiolaeth hefyd o ganfyddiadau cryf y cyhoedd ynglŷn â'i rôl, gan gynnwys ei rôl gymdeithasol a'i phwysigrwydd i grwpiau diamddiffyn yn arbennig.

Mae cwmpas y swyddfeydd post yn cynnig cyfleoedd am ddefnyddiau newydd. Mae Swyddfa'r Post Cyf wedi bod yn cyflwyno cynhyrchion newydd, gan gynnwys amrywiaeth ehangach o wasanaethau ariannol (benthyciadau, bancio, yswiriant). Mae cyfle hefyd i ddarparu mwy o wasanaethau a gwybodaeth y llywodraeth drwy rwydwaith y swyddfeydd post ac mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n datblygu syniadau yn y maes hwn.

Enghraifft o arfer da:

Partneriaeth Swyddfa Bost Pontnedd Fechan â Heddlu Dyfed-Powys

Mae Swyddfa Bost Pontnedd Fechan, a ariennir o dan y Gronfa, yn un o ddeg swyddfa bost wledig sydd wedi agor Man Gwybodaeth yr Heddlu o dan fenter partneriaeth arloesol rhwng Swyddfa'r Post Cyf a Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r swyddfeydd post dan sylw yn arddangos lamp las draddodiadol yr heddlu ac yn cynnig ffôn allanol i gysylltu â'r heddlu y tu allan i oriau. Cafodd staff y swyddfeydd post eu hyfforddi i ymgymryd â'u tasgau newydd ac maent yn cael cyfarfodydd rheolaidd â swyddogion heddlu lleol. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys paratoi adroddiadau cychwynnol ar fân achosion o ladrata neu golli eiddo, ymdrin ag eiddo coll a rhoi gwybodaeth. Y nod yw rhoi sicrwydd i gymunedau gwledig drwy fwy o amlygrwydd a chynnig nifer o opsiynau ar gyfer cysylltu â'r heddlu.

Dywedodd y Prif Uwch-arolygydd Gwyn Thomas, y Rheolwr Rhanbarthol dros Bowys: 'mae'r berthynas yn helpu i ... wneud y ddau bartner yn fwy dichonadwy... Roedd ein rhesymau dros ddewis Swyddfa'r Post Cyf fel partneriaid yn cynnwys ystyriaethau o ran eu lle yn y gymuned, yr ymddiriedaeth yn eu brand, [a] lleoliadau eu canghennau'. Mae'r adborth cychwynnol o'r cymunedau dan sylw yn gadarnhaol iawn. Mae Swyddfa'r Post Cyf yn gwerthuso'r cynllun peilot fel rhan o'i hystyriaeth ehangach o ddulliau newydd o ddarpariaeth gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

Dewiswyd Pontnedd Fechan ar gyfer diwrnod agored y fenter, ffaith a briodolodd Mrs Merele Roberts, yr Is-bostfeistres, i ymddangosiad ei swyddfa bost ar ôl bod yn un o'r prosiectau a ariannwyd o dan y Gronfa. Wrth ddewis swyddfeydd post ar gyfer y bartneriaeth hon, un o feini prawf Heddlu Dyfed Powys oedd ymddangosiad modern. Nododd Mrs Roberts 'Fyddwn i ddim wedi gallu darparu'r holl wasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd oni bai am y grant.'

Yn ôl gwaith gan ERM roedd y swyddfeydd post yn bwysig i fusnesau gwledig, gyda 73% yn dweud bod y swyddfa bost leol yn bwysig iawn neu'n hanfodol iddynt (arwyddocâd economaidd 2000 ERM).

Ystyriai Serving the Community IV fusnes swyddfeydd post mewn ardaloedd difreintiedig gwledig a threfol yn y dyfodol, gan ganfod mai'r gwasanaethau allweddol a gynigid gan swyddfeydd post oedd gwasanaethau post (llythyrau a pharseli), gwasanaethau ariannol (pensiynau, budd-daliadau a thalu biliau) a gwasanaethau'r llywodraeth (ee treth car), ac mai'r gwasanaethau allweddol mewn siopau cysylltiedig oedd cardiau a deunyddiau ysgrifennu, papurau newydd, melysion a bwydydd (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig). Dylid nodi ers cyhoeddi'r adroddiad, bod y rhan fwyaf o bensiynau a budd-daliadau wedi dechrau cael eu talu i mewn i gyfrifon banc yn 2003, ond dengys astudiaethau eraill fod y gallu i godi arian yn parhau'n bwysig. Nododd yr astudiaeth ffactorau o ran cyfleustra megis oriau agor hwy, llai o bobl yn aros i gael gwasanaeth a lle i barcio fel y gwelliannau a fyddai'n annog pobl, yn enwedig pobl ifanc, i wneud mwy o ddefnydd o swyddfeydd post. Nodwyd cyfleoedd busnes i

swyddfeydd post megis casglu parseli nas dosbarthwyd, gwybodaeth teithio a gwerthu tocynnau a gwybodaeth arall am wasanaethau, hyfforddiant neu gyflogaeth, peiriannau arian a thalu'r dreth gyngor neu rent. Daeth i'r casgliad fod angen hyrwyddo gwasanaethau bancio Swyddfa'r Post yn well.

Ystyriai adroddiad y Future Foundation ar ddyfodol rhwydwaith y swyddfeydd post gwledig (Postcomm 2003) y gwasanaethau a'r cynhyrchion sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan swyddfeydd post gwledig a'r galw am y rhain yn y dyfodol (hyd at 2011), gan edrych ar sut y gellid eu darparu yn y dyfodol. Asesodd effaith tueddiadau demograffig a chymdeithasol, gan gynnwys datblygiadau mewn technoleg, ar yr angen am wasanaethau gan ganghennau gwledig o Swyddfa'r Post. Ei ganfyddiad oedd mai rôl cangen o Swyddfa'r Post fel canolbwynt yn y gymuned oedd 'gwasanaeth' pwysicaf swyddfeydd post gwledig o hyd ac y byddai hynny'n parhau. Bydd y gallu i godi arian a gwasanaethau bancio sylfaenol yn dod yn rhannau cynyddol bwysig o'r rôl, a lleiafrif sylweddol o bensiynwyr a phobl ddi-waith yn parhau i ddibynnu ar Gyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post yn ystod cyfnod

yr astudiaeth. Rhagwelir y bydd y galw cynyddol am siopa mwy cyfleus o ran oriau a lleoliad, ac am ansawdd da a dewis da i ddefnyddwyr yn parhau.

Unwaith eto nododd yr adroddiad fod y swyddfa bost leol yn bwysicach i grwpiau diamddiffyn, ond rhybuddiodd fod angen astudiaethau lleol manwl i ystyried demograffeg unrhyw ardal wledig benodol. Nododd fod ardaloedd gwledig yn heterogenaidd ac yn wahanol i ardaloedd trefol lle y gallai grwpiau incwm fod mewn clwstwr dwysach yn ddaearyddol. Mae'r rhybudd yn yr adroddiad yn codi cwestiynau ynglŷn â pha mor addas ydyw i'r Gronfa ganolbwyntio ar ardaloedd gwledig a nodwyd drwy'r Mynegai Amddifadedd Lluosog, a pharth 'mynediad at wasanaethau' er nad yw'n rhoi unrhyw ffordd syml, ymarferol o nodi patrymau o angen yn well.

Efallai y bydd Mynegai Amddifadedd Lluosog newydd Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2005, yn rhoi rhai o'r atebion i'r broblem hon. Mae'n olynu'r Mynegai cyntaf a gyhoeddwyd yn 2000, ac mae'n defnyddio llawer ar yr un fethodoleg, ond mae uned ddaearyddol lai yn sylfaen iddo. Yn 2000, defnyddiwyd adrannau etholiadol awdurdodau unedol. Nid yw'r rhain yn sefydlog nac yn gyson yn ddaearyddol, gan eu bod yn cael eu hadolygu gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ac y mae eu poblogaethau yn amrywio o 1,000 i 20,000. Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yw'r unedau daearyddol newydd, sef ardaloedd cynnyrch y cyfrifiad wedi'u cyfuno. Mae i'r rhain boblogaethau tebyg iawn o 1,500 ar gyfartaledd (890 yw'r lleiaf a 4,000 yw'r fwyaf). Mae'r unedau hyn fel arfer yn rhannu'r un ffiniau ag adrannau etholiadol. Mae'r wybodaeth ofodol fanylach yn yr adrannau etholiadol mwy yn amlygu amrywiaethau rhwng yr unedau hyn

o fewn adrannau etholiadol nas nodwyd o dan yr hen Fynegai, ac mae'n helpu i nodi pocedi o amddifadedd.

Dylid nodi nad ystyriodd ymchwil y Future Foundation Gymru ar wahân, ac ni chanfu ddata ar Gymru am rai elfennau o'r gwaith. Hefyd penderfynwyd canolbwyntio ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir gan ganghennau o Swyddfa'r Post ar hyn o bryd ac nid ystyriwyd y posibiladau o arallgyfeirio nac arloesi, na dyfodol y cynhyrchion a'r gwasanaethau manwerthu neu gymunedol a ddarperir fel arfer ochr yn ochr â'r swyddfa bost ac sy'n gyd-ddibynnol yn fasnachol â hwy. Gweithredodd y Gronfa yn ôl y dybiaeth y byddai dichonoldeb masnachol swyddfeydd post mewn llawer ardal yn y dyfodol yn dibynnu ar arallgyfeirio, arloesi a gwerth cymdeithasol ychwanegol.

Dengys gwaith gan y Sefydliad Economeg Newydd fod gwasanaethau lleol mewn rhannau gwledig o'r DU yn prysur ddiflannu (NEF Ghost Town Britain 2002). Yn gyffredinol mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod 20% o wasanaethau lleol (gan gynnwys siopau, tafarndai a banciau yn ogystal â swyddfeydd post) mewn ardaloedd gwledig wedi cael eu colli ers 1995, ac mae'n rhagweld y bydd y duedd yn parhau.

Yn ôl Post Offices, Customers and Communities (Postcomm 2001) teimlir bod mynediad at wasanaethau swyddfeydd post i'r rhai sydd eu hangen yn bwysicach na nifer wirioneddol swyddfeydd post. Mae Swyddfa'r Post Cyf dros y misoedd diwethaf wedi bod yn treialu modelau amgen o ddarparu gwasanaethau swyddfeydd post mewn cymunedau gwledig na allant gynnal swyddfa bost sy'n fasnachol ddichonadwy. Mae'r rhaglen beilot yn cael ei gwerthuso a bydd yn rhoi tystiolaeth werthfawr ac yn cynnig syniadau a fydd yn sail i'r penderfyniadau

a wneir yn y dyfodol ynglŷn â'r ddarpariaeth o wasanaethau swyddfeydd post mewn ardaloedd o'r fath.

3.5 Cymariaethau rhyngwladol

Mae llywodraethau a rhwydweithiau swyddfeydd post dramor yn mynd i'r afael â'r un ffactorau â'r DU. Mewn ymchwil gan Postcomm (Rhagfyr 2003) ystyriwyd Awstralia, Canada, Japan, Seland Newydd, UDA a 12 gwlad Ewropeaidd gan gynnwys y DU. Canfuwyd bod pob rhwydwaith yn wynebu'r un pwysau yn sgîl y tueddiad tuag at ddefnydd cynyddol o TG gan lywodraethau ac unigolion, a chyflwyno cystadleuaeth. Mae pob llywodraeth wedi wynebu'r her o gydbwysu problem diffyg dichonoldeb masnachol mewn rhai rhannau o'r rhwydwaith yn erbyn yr angen i ddarparu mynediad rhesymol at wasanaethau pwysig, a phoblogrwydd y rhwydwaith. Parodd hyn i sawl gwlad ailstrwythuro neu leihau eu rhwydweithiau, ac ar yr un pryd cyflwyno rhaglenni moderneiddio adeiladau a moderneiddio'r gwasanaethau a'r cynhyrchion a gynigid o ran amrywiaeth, arddull a dulliau darparu. Mae rhai llywodraethau wedi gwneud cryn ymdrech i roi cymorth i'r rhwydwaith (Ffrainc, Japan), a bu eraill yn "vigorous in their closure programmes" (Seland Newydd, Canada, yr Almaen, Awstralia).

Mewn 12 o'r gwledydd, mae staff dosbarthu post yn cynnig gwasanaethau swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys gwasanaethau ariannol ac

arian parod mewn 7 achos. Er enghraifft yn Awstralia mae postmyn yn ymdrin â thaliadau i mewn i gyfrifon cynilo, ac yng Ngwlad Belg maent yn talu budd-daliadau yn y cartref i bobl sy'n ei chael yn anodd cyrraedd swyddfa bost. Defnyddir gwasanaethau symudol yn UDA, Denmarc, Sbaen a Phortiwgal ond mae'r rhain yn llai cyffredin ar y cyfan, ac maent yn cael eu tynnu'n ôl yn raddol yn y Ffindir a Ffrainc ac fe'u gwrthodwyd am fod yn rhy gostus yn Iwerddon.

Ni nododd yr arolwg unrhyw atebion syml nac unrhyw gynnyrch na gwasanaeth a oedd yn cynnig yr allwedd i ddichonoldeb, er iddo awgrymu mai gwasanaethau ariannol oedd y maes allweddol ar gyfer twf yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o rhwydweithiau swyddfeydd post, ond nid pob un, yn darparu gwasanaethau ariannol megis bancio, talu biliau, yswiriant, arian parod a bureau de change.

Canfu Postcomm fod rhai llywodraethau yn cydnabod yn benodol rôl gymdeithasol swyddfeydd post, gan roi cymorth ariannol uniongyrchol neu ryddhad rhag treth, neu drwy osod gofynion cyfreithiol neu gytundebol am fathau a lefelau penodol o ddarpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r gwledydd yn ailstrwythuro eu rhwydweithiau. Mae rhaglenni ailfodelu wedi arwain at gryn brotest ymhlith y cyhoedd, gyda llywodraethau yn amrywio cryn dipyn o ran eu hymateb i hyn.

4. Gweinyddu'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post

4.1 Adolygiad mewnol 2003-4

Cynhaliodd swyddogion o Gyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth y Cynulliad adolygiad gweinyddol mewnol a gwerthusiad o gylchoedd 1 a 2 o'r Gronfa, a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Ionawr 2004. Bu oedi cyn asesu ceisiadau o dan gylchoedd 3 a 4 o'r Gronfa nes cyhoeddi adroddiad yr adolygiad, er mwyn ystyried ei argymhellion ar gyfer gweinyddu'r Gronfa yn y dyfodol.

Mae canfyddiadau'r adolygiad fel a ganlyn:

- bu cynnal pedwar cylch ymgeisio mewn un flwyddyn yn feichus, gan dynnu sylw oddi ar y gwaith o fonitro a chynorthwyo prosiectau sy'n bodoli eisoes. Cynigiwyd y dylid cynnal dau gylch y flwyddyn, a'r ddau wedi'u cynnal yn ddigon cynnar i ganiatáu gwario a hawlio symiau'n llawn yn ystod y flwyddyn. Argymhellwyd terfyn amser o chwe mis i bob prosiect, er mwyn atal prosiectau rhag mynd dros amser a'i gwneud yn haws i ragamcanu cyllidebau.
- arweiniodd y trothwy o 35 pwynt ar gyfer cymeradwyo cynnig (ar y matrices sgorio) at gymeradwyo mwy o geisiadau nag yr oedd cyllid ar gael ar eu cyfer. Argymhellwyd neilltuo adnoddau ar gyfer y prosiectau a gafodd y sgôr uchaf, a chynnal cronfa wrth gefn, ar lefel prosiectau unigol neu'n ganolog, i dalu costau rhesymol annisgwyl.
- gallai elfennau o'r broses ymgeisio ac asesu fod yn fwy trwyadl, gan gryfhau'r gofyniad ar ymgeiswyr i geisio cyngor busnes wrth ddatblygu eu cynigion, cyflwyno gofyniad i geisio cyngor ar atal troseddau o ran mesurau diogelwch

arfaethedig, a datblygu system ar gyfer sicrhau dadansoddiad ariannol arbenigol o'r cynigion a'u heffaith ar ddichonoldeb y swyddfa bost.

- dylid gwella prosesau monitro, gan gynnwys lluniau o'r swyddfa bost cyn y prosiect, gwaith archwilio ffurfiol ar ddiwedd y prosiect, ac archwiliadau gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad (yn ychwanegol at y rhai a gynhelir gan Swyddfa'r Post Cyf).
- dylai fod trefniadau ar gyfer gwerthuso effaith y grant a datblygu nodiadau o arferion da ynglŷn ag arallgyfeirio busnesau swyddfeydd post.
- dylai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gydgyssylltu'n rheolaidd drwy fforwm ffurfiol â Rheolwyr Llinell Manwerthu Swyddfa'r Post Cyf, sy'n cynorthwyo ac yn cynghori Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi ac sy'n chwarae rhan allweddol i fonitro a chymeradwyo prosiectau yn derfynol. Byddai'r fforwm arfaethedig yn sicrhau bod pawb yn deall yn glir ddiben, meini prawf a threfniadau rheoli'r Gronfa ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r amod yn y Memorandwm Cydddealltwriaeth rhwng Swyddfa'r Post Cyf a Llywodraeth y Cynulliad na fyddai swyddfeydd a ariennid yn cael eu cau.
- gellid gwella dogfennau allweddol y grant, gan gynnwys telerau ac amodau, y ffurflen gais a'r matrices sgorio. Dylai'r telerau a'r amodau gynnwys manylion llawnach am y rheolau ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol ac adfachu grantiau.

Gwnaeth yr adolygiad argymhellion manylach ynglŷn â'r broses ymgeisio ac asesu. Dyma'r prif argymhellion:

- dylid defnyddio pellter teithio yn hytrach na phellter unionsyth ar draws y wlad i asesu pa mor agos yw'r swyddfa bost agosaf, o gofio'r pwysoliad mawr a roddir i'r ffactor hwn yn yr asesiad;
- dylid rhoi mwy o ganllawiau ar ddisgrifio'r prosiect a gellid rhannu hyn yn elfennau allweddol, a phob un gyda dangosyddion cynnyrch, a fydd yn eu tro, yn cael eu hadlewyrchu yn y llythyr dyfarnu;
- dylid gofyn i swyddfeydd post a ydynt wedi'u cofrestru am TAW gan y bydd hyn yn effeithio ar faint o grant sydd ei angen;
- dylid llunio rhestr wirio o'r ddogfennaeth sydd ei hangen i ategu ceisiadau er mwyn lleihau'r angen i gysylltu ag ymgeiswyr dro ar ôl dro;
- dylai fod yn fwy clir faint o amcangyfrifon sydd eu hangen am bob darn o waith;
- dylid addasu'r matrices sgorio, er mwyn iddo adlewyrchu diogelwch a sefyllfa ariannol y swyddfa bost.

Efallai fod canfyddiad mwyaf arwyddocaol yr adolygiad mewnol yn ymwneud â natur y prosiectau a ariannwyd. Roedd yr adolygwyr yn siomedig bod y rhan fwyaf o brosiectau yn pwysleisio gwelliannau adeileddol neu esthetig, yn hytrach na gwasanaethau newydd, yn enwedig gwasanaethau er budd y gymuned.

4.2 Adolygiad allanol

Cynhaliwyd adolygiad arall o'r ffordd y gweinyddwyd y Gronfa fel rhan o'r gwerthusiad cyfredol. Roedd hyn yn cynnwys archwilio pob ffeil prosiect yn fanwl ac ymgyswrtu â chefnid pob prosiect, a chael trafodaethau gyda rheolwyr a gweinyddwyr cynlluniau, a Swyddfa'r Post Cyf.

Nid oedd dull ffurfiol o gasglu adborth ar y ffordd y gweinyddir y gronfa naill ai gan

Lywodraeth y Cynulliad na Swyddfa'r Post Cyf. Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd gan Swyddfa'r Post Cyf teimlid bod y gronfa yn cael ei gweinyddu'n dda. Swyddfa'r Post Cyf fu'n bennaf cyfrifol am godi ymwybyddiaeth o'r gronfa a'i meini prawf cymhwyster drwy ei rhwydwaith o Gynghorwyr Trosoglwyddo Gwledig a Rheolwyr Llinell Manwerthu ar gyfer y rhwydwaith gwledig.

Cyfyngedig fu'r adnoddau staffio a neilltuwyd ar gyfer cynllunio, rheoli a gweinyddu'r Gronfa o'r cychwyn cyntaf, a bu peth trosiant ymhlith y staff gweinyddol, gyda saith swyddog gwahanol yn gweithredu fel man cyswllt cyntaf i'r rhai y dyfarnwyd grant iddynt yn ystod y tair blynedd a hanner y bu'r Gronfa yn weithredol. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae archwiliad o ffeiliau prosiectau wedi amlygu safon dda o weinyddu a chadw cofnodion. Ymdriniwyd â gohebiaeth gan y rhai y dyfarnwyd grant iddynt yn ddi-oed yn y rhan fwyaf o achosion, gwelwyd tystiolaeth gref o foddhad cwsmeriaid gyda'r cymorth a'r cyngor a roddwyd gan swyddogion. Roedd rheolaeth ariannol yn gadarn, roedd anfonebau yn cael eu gwirio yn drwyadl ac roedd taliadau grant wedi'u holrhain yn foddhaol (er bod un achos o daliad anghywir). Monitrwyd hynt y gwaith yn erbyn yr hyn y cytunwyd i'w gyflawni, a chysylltwyd â swyddfeydd post yn ôl yr angen pan ymddangosai nad oedd y prosiect yn mynd yn ei flaen yn dda - gan gynnwys rhybuddion mynych yn ysgrifenedig a thros y ffôn am y terfyn amser ar gyfer hawlio taliadau sef 31 Ionawr 2006. Roedd y gronfa ddata wedi'i chynnal yn dda ac roedd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.

Bu oedi o dros chwe mis cyn i ymgeiswyr o dan gylchoedd 3 a 4 y Gronfa gael gwybod a oedd eu cais wedi'i gymeradwyo ai peidio oherwydd yr adolygiad mewnol

a'r penderfyniad i osod arwystl cyfreithiol ar eiddo, ond dengys y ffeiliau fod ymgeiswyr wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ddiwygiedig a'r rhesymau drosti.

Un newid sylweddol a gyflwynwyd rhwng cylch 2 a chylch 3 oedd cyflwyno Arwystl o blaid Llywodraeth y Cynulliad, i'w osod ar swyddfeydd post a gafodd gyllid lle roedd y rhai y dyfarnwyd grant iddynt yn berchen ar yr eiddo, rhag ofn eu bod yn gwerthu'r eiddo neu'n peidio â gweithredu fel swyddfa bost o fewn 5 mlynedd i dderbyn eu taliad terfynol. Roedd y gofyniad newydd hwn yn caniatáu adennill swm y grant yn llawn, a'r nod oedd diogelu rhag colli arian cyhoeddus neu'r posibilrwydd y gallai'r rhai y dyfarnwyd y grant iddynt gael budd personol o welliannau i eiddo preifat. Er bod Swyddfa'r Post Cyf eisoes wedi cytuno i beidio â chymryd camau i gau unrhyw swyddfa a gafodd gyllid cyn mis Ebrill 2008, roedd yr Arwystl yn cryfhau'r sicrwydd y câi buddsoddiad cyhoeddus ei ddiogelu.

Bu'r gofyniad yn achos pryder i ymgeiswyr. Bu'n ffactor ym mhenderfyniad saith unigolyn a benderfynodd wrthod y grant a gynigir yn y pen draw. Er y bydd hyn o bosibl yn arwain at beidio â gwario'r grant yn llawn, nid yw hynny o reidrwydd yn feirniadaeth ar y polisi o osod Arwystl, a gellid ei ystyried yn gyfiawnhad dros y polisi hwn. Os nad oedd y sawl a oedd yn derbyn grantiau yn ffyddiog y byddai'r swyddfa bost yn parhau i fod yn weithredol am o leiaf bum mlynedd, efallai na ellid bod wedi cyfiawnhau'r buddsoddiad o arian cyhoeddus ar ffurf grant. Ymddengys bod y gofyniad yn rheolaeth gadarn a phwysig a oedd yn diogelu arian cyhoeddus ac yn sicrhau y câi ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd ac felly'n welliant pwysig i gynllun y Gronfa.

Beirniadaeth bwysicach o'r polisi i osod Arwystl yw'r oedi mawr cyn cychwyn sawl prosiect o'r herwydd. Ni ellid bob

amser ddatrys problemau cyfreithiol yn gyflym, er enghraifft amodau prydlesau, yr angen i estyn cyfnodau prydlesau, benthyciadau banc ac arwystlon a osodwyd eisoes. Dengys profiad y Gronfa fod angen ychwanegu cyfnod o dri mis o leiaf at unrhyw gylch ymgeisio er mwyn datrys y problemau cyfreithiol. Mae'r ffaith nad oedd hyn yn hysbys yn achos y Gronfa wedi cyfrannu at yr anhawster a wynebaisawl un a oedd yn derbyn grant i gwblhau prosiectau ar amser.

Ymddengys bod y broses o hawlio taliadau wedi gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth anecdotaidd bod yr anogaeth wreiddiol o dan gylchoedd 1 a 2 i gyflwyno un cais am y grant cyfan wedi achosi caledi, gyda rhai y dyfarnwyd grant iddynt hyd yn oed yn trefnu benthyciadau pontio, ynghyd â rhai pryderon ymhlith darpar gontractwyr a chontractwyr gwirioneddol. Noda gweinyddwyr fod caniatáu ceisiadau bob yn dipyn fel y gwnaed o dan gylch 3 a chylch 4 wedi helpu'r rhai y dyfarnwyd grant iddynt, nad oedd wedi achosi llawer o waith ychwanegol, a'i fod yn fodd i fonitro a rhagamcanu cyllidebau yn fwy cywir.

Mewn unrhyw gynllun grant, bydd rhai prosiectau yn codi mwy o broblemau nag eraill, ac roedd y Gronfa wedi cynnwys nifer o brosiectau nad oeddent yn hollol ddidrafferth. Ar wahân i'r materion ynglŷn â'r Arwystl ar eiddo, gellir nodi tair thema fel ffactorau achosol: y dymuniad i adleoli swyddfa bost fel rhan o'r prosiect, yr Is-bostfeistr neu'r Is-bostfeistres yn newid yn ystod y prosiect a'r angen i newid prosiectau am resymau na ellid bod wedi'u rhagweld. Nid oedd telerau'r Gronfa yn ddigon clir p'un a oedd unrhyw ran o ymarfer adleoli yn gymwys i gael arian.

O gofio natur y prosiectau, yr oedd llawer ohonynt yn golygu newidiadau mawr i adeiledd eiddo, roedd yn anochel y byddai

achosion yn codi lle roedd yn rhaid newid cynlluniau. Nid oedd cynllun y gronfa yn caniatáu ar gyfer hyn, ac nid oedd unrhyw drefniadau wrth gefn yn ganolog nac ar lefel prosiectau. Roedd y ffaith nad oedd gan staff awdurdod dirprwyedig i newid manyleb na symiau grantiau (o fewn cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd) yn golygu bod yn rhaid i bob newid (weithiau am symiau bach iawn o arian) gael ei gymeradwyo gan Weinidog, gan arwain at faich gweinyddol diangen sylweddol a galwadau ar amser y Gweinidog.

Roedd y meysydd allweddol ar gyfer gwella a nodwyd gan yr adolygiad allanol o weinyddiaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- Ansawdd y ceisiadau a'r wybodaeth ategol;
- Cynllun y matrices sgorio;
- Y trefniadau ar gyfer gwerthuso prosiectau.

Roedd llawer o'r ceisiadau o safon wael o ran manylder ac eglurder, yn enwedig mewn perthynas â'r canlyniadau a ragwelwyd a manteision y prosiect arfaethedig. Yn y ffurflen gais gofynnwyd am fanylion am unrhyw swyddi i'w diogelu neu i'w creu, ac am ragamcanion o lifau arian a fyddai'n dangos effaith y prosiect. Roedd llawer o ymgeiswyr yn ansicr ynglŷn â'r ddau faes hollbwysig hyn o ran effaith y prosiect. Methodd sawl ymgeisydd â gwahaniaethu rhwng diogelu swyddi a chreu swyddi, neu rhwng swyddi llawn amser a swyddi rhan amser. Nid oes unrhyw dystiolaeth yn y ffeiliau i eglurhad gael ei geisio am y pwyntiau hyn, er bod y wybodaeth a ddarparwyd wedi cael ei defnyddio i asesu cynigion. Roedd y rhagamcanion ariannol yr un mor anghyflawn. Dim ond cyfriflenni banc a ddarparwyd gan rai Is-bostfeistri, yn enwedig yng nghylchoedd 1 a 2, i ddangos patrymau incwm a gwariant blaenorol, heb unrhyw ragamcanion manwl na dadansoddiad o effaith ddisgwyliedig

y prosiect i'w ariannu ar incwm. Ar gyfer cylch 3 a chylch 4 ceir dystiolaeth yn y ffeiliau i eglurhad gael ei geisio am y llif arian a ragwelwyd, gydag arian a heb arian, er nad yw hyn ar gael ym mhob achos, ac mewn sawl nid yw'n glir.

Byddai gofyniad i geisio cyngor busnes ffurfiol a chyflwyno cynlluniau busnes wedi sicrhau bod gwybodaeth lawn ar gael i aseswyr cynigion, a'r tebyg yw y byddai hyn wedi gwella safon a realaeth y cynigion yn gyffredinol.

Ymddengys i'r matrices sgorio gael ei gymhwyso'n gyson at brosiectau a'i fod yn sail gymharol dryloyw ar gyfer asesu nifer fawr o gynigion tebyg. Pwysleisiodd amddifadedd a natur ynysig, pellter o swyddfa bost arall, creu swyddi, denu rhagor o gyllid, a darparu gwasanaethau neu gynhyrchion newydd, yn enwedig y rhai er budd y gymuned. Bu i swyddogion wirio'r wybodaeth am amddifadedd, natur ynysig a'r pellter i'r swyddfa bost agosaf yn erbyn gwybodaeth a ddelid yn ganolog. Aseswyd y meini prawf eraill ar sail y ffurflen gais. Aseswyd pob cais yn annibynnol gan ddau swyddog.

Fodd bynnag, nid oedd y matrices yn ystyried dichonoldeb y swyddfa bost ar y pryd nac yn y dyfodol. O ystyried safon y wybodaeth ariannol a ddarparwyd byddai hyn wedi bod yn anodd ei asesu. Gellid bod wedi ystyried hynny o bosibl wrth asesu cynigion pe gofynnid yn fwy taer i ymgeiswyr am wybodaeth ariannol o safon dda a ddangosai'n glir effaith ariannol y prosiect drwy gymharu rhagamcanion gydag arian a heb arian. Nid oedd y broses o asesu cynigion yn cynnwys Swyddfa'r Post Cyf, a allai fod wedi cynghori ar welliannau arfaethedig i gownteri swyddfeydd post a darparu gwasanaethau, addasrwydd y ceisiadau unigol, a'u gwerth cymharol o ran cyrraedd cwsmeriaid. Er bod angen cytundeb

Swyddfa'r Post Cyf cyn y gallai unrhyw brosiect fynd rhagddo, ymddengys mai mater o ffurf oedd hynny yn hytrach na ffordd effeithiol o ddewis a dethol prosiectau neu sicrhau ansawdd.

O ran yr hyn y cytunodd i'w gyflawni gyda phrosiectau dim ond cwblhau gwaith adeiladu penodol, a phrynu a gosod cyfarpar a nodwyd. Ardystiodd Swyddfa'r Post Cyf yn derfynol fod gwaith wedi'i gwblhau cyn i'r 5% olaf o'r grant gael ei ryddhau. Roedd y mesurau o ran yr hyn i'w gyflawni yn ddigonol at ddibenion rheoli prosiect a monitro, ac roedd y system wedi'i gweinyddu'n drwyadl. Fodd bynnag, ni phennwyd canlyniadau mwy cyffredinol na thymor hwy ar lefel prosiectau, ac nid oedd trefniadau ar gyfer gwerthuso prosiectau a'r rhaglen gyffredinol yn rhan annatod o'r Gronfa o'r cychwyn cyntaf. Byddai hyn wedi golygu sefydlu llinellau sylfaen cliriach o ran incwm a gwariant, cyflogaeth, cynhyrchion a gwasanaethau a ddarperir a nifer ymweliadau cwsmeriaid os oedd yn bosibl.

4.3 Canfyddiadau arolygon, astudiaethau achos ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid

Arolygon

Yn yr arolygon o swyddfeydd post holwyd am brofiadau o'r ffordd y gweinyddwyd y grant oddi wrth y rhai y dyfarnwyd grant iddynt o dan y Gronfa.

Ymatebodd 55 o swyddfeydd post y dyfarnwyd grant iddynt o dan y Gronfa i'r cwestiynau ar y ffordd y gweinyddwyd y Gronfa, ac roedd bron bob un ohonynt yn fodlon yn gyffredinol. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt iddynt ddod i wybod am y grant o fewn da bryd i wneud cais, eu bod wedi cael digon o gyngor gan swyddogion, bod y taliadau yn brydlon a bod y trefniadau monitro yn glir. Ym marn mwyafrif llai, ond mwyafrif clir, roedd y trefniadau ar gyfer hawlio arian yn weddol glir a hawdd. Roedd y broses o wneud cais yn weddol glir a hawdd ym marn y mwyafrif ond dyma'r maes lle cafwyd yr anghytuno mwyafrif. Roedd pedwar ymatebydd yr oedd eu ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus ond a benderfynodd wrthod y cynnig o arian yn ddiweddarach yn anfodlon ar sawl agwedd ar y gweinyddu.

Y rhai y dyfarnwyd grant iddynt o dan y Gronfa (prosiectau wedi'u cwblhau a heb eu cwblhau - 59 i gyd)	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn siŵr	Dim ateb
Cefais wybod am y grant mewn da bryd i wneud cais	53	4	1	1
Roedd y broses o wneud cais yn weddol glir a hawdd	39	15	4	1
Cefais ddigon o gymorth a chynghor gan swyddogion y Cynulliad	49	2	7	1
Roedd y trefniadau ar gyfer hawlio taliadau grant yn weddol glir a hawdd	42	6	5	6
Talwyd y grant yn brydlon	45	2	2	10
Roedd y trefniadau monitro yn glir i mi	46	4	4	5
Yn gyffredinol, roeddwn yn fodlon ar y ffordd y gweinyddwyd y cynllun	50	4	2	3

Roedd sylwadau ymatebwyr ar weinyddu'r Gronfa yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, ee:

'yn hawdd gwneud cais amdano'; 'roedd y ffordd y proseswyd y grant a'r cymorth a roddwyd gan staff y Cynulliad yn ardderchog'; 'yn fodlon iawn ar y ffordd yr ymdriniwyd â'r cyfan - hoffwn ddiolch i bawb am yr holl gymorth a roddwyd i mi'; 'roedd y cymorth gweinyddol o'r radd flaenaf'; 'roedd y staff bob amser yn barod iawn eu cymwynas. Roedd y terfynau amser a roddwyd gan y rhai a atebai ymholiadau bob amser yn gywir, gyda gwaith papur yn cyrraedd yn brydlon ac yn hawdd ei ddeall'.

Fodd bynnag, cododd nifer fawr o ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r 'oedi mawr ar y dechrau cyn i'r cais gael ei gymeradwyo' yn ystod yr adolygiad mewnol o'r Gronfa, ac un ymholiad ynglŷn â gwerthuso ceisiadau:

- 'bu i ni bron â rhoi'r gorau iddi oherwydd bu'n rhaid aros 9 mis cyn cael ateb ac ni chawsom wybodaeth yn ystod y broses';
- 'gweinyddwyd y gronfa mewn ffordd hollol aneffeithlon, cyflwynwyd fy nghais yn Hydref 2003 ond ni chafodd ei asesu tan fis Mehefin 2005';
- 'Yn fy marn i, nid oedd y rhai a oedd yn gwerthuso ceisiadau yn meddu ar ddigon o arbenigedd mewn cymharu dyfynbrisiau - roeddent yn tueddu i ddewis y rhataf yn unig'.

Y brif feirniadaeth ar y ffordd y gweinyddwyd y Gronfa oedd y penderfyniad i osod arwystl ar eiddo. Nododd un ymatebydd: 'dylid dileu'r Arwystl ar eiddo Is-bostfeistr ar unwaith

- gall achosi anawsterau os bydd angen gwerthu'r busnes'. Gwnaeth tri unigolyn y cynigiwyd grant iddynt o dan y Gronfa ei wrthod yn y pen draw am y rhesymau hyn gan nodi fel a ganlyn:

- 'Pan wneuthum gais ni ddywedodd neb na fyddai hawlrym ar rydd-ddaliad eiddo. Nid oedd y baich hwn yn cael ei osod ar eiddo o dan brydles. O ystyried fy oedran, fe'm cynghorwyd gan fy nghyfreithiwr i beidio â bwrw ymlaen â hyn felly ni dderbyniais y grant a gynigiwyd';
- 'Ni dderbyniais y grant a gynigiwyd - roedd y risg yn rhy fawr - ad-dalu'r grant os methodd y busnes o fewn 5 mlynedd - Swyddfa'r Post Cyf ond yn barod i roi sicrwydd tan 2008 - byddem wedi gorfod cau pe baem wedi colli'r swyddfa bost ac yna byddem yn agored i ad-dalu hyd at £30,000';
- 'Cynigiwyd £48k ond er mwyn ei dderbyn byddwn wedi gorfod cynnig fy nghartref teuluol fel gwarant. Ni theimlwn fod y risg yn ddiogel yn yr hirdymor'.

Yn yr arolwg o swyddfeydd post nas dyfarnwyd grant iddynt o dan y Gronfa gofynnwyd i Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi p'un a oeddent wedi gwneud cais o dan y Gronfa. Roedd 11 wedi gwneud cais, ac nid yw'n syndod eu bod yn fwy beirniadol o'r ffordd y gweinyddwyd y Gronfa na'r rhai a gafodd grantiau, gyda'r brif feirniadaeth yn ymwneud â'r cymorth a'r cyngor a gafwyd a'r ffaith na roddwyd adborth boddhaol am geisiadau aflwyddiannus a'r ffaith nad oedd y broses asesu yn dryloyw:

Ymgeiswyr aflwyddiannus o dan y Gronfa (11 i gyd)	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn siŵr	Dim ateb
Cefais wybod am y grant mewn da bryd i wneud cais	8	2	0	1
Roedd y broses o wneud cais yn weddol glir a hawdd	5	4	0	2
Cefais ddigon o gymorth a chynghor gan swyddogion y Cynulliad	1	5	2	3
Deallaf pam roedd y cais yn aflwyddiannus	0	7	0	4
Yn gyffredinol, roeddwn yn fodlon ar y ffordd y gweinyddwyd y cais	2	4	2	3

O'r 45 a ddywedodd nad oeddent wedi gwneud cais, rhoddodd 39 y rhesymau a ganlyn:

- roedd 20 heb glywed am y Gronfa;
- roedd 6 yn gwybod nad oeddent yn gymwys;
- nid oedd 3 am gael arian;
- rhoddodd 10 resymau eraill, mewn rhai achosion y gred bod y Gronfa yn cynnig benthyciadau yn hytrach na grantiau, neu fod angen arian cyfatebol.

O'r 20 nad oeddent wedi gwneud cais am nad oeddent wedi clywed am y Gronfa, byddai tri wedi bod yn gymwys yn rhinwedd y ffaith eu bod yn y 125 o ardaloedd mwyaf difreintiedig. Nid yw'n hysbys a oedd perchenogion y swyddfeydd post wedi newid ers codi ymwybyddiaeth o'r Gronfa yn wreiddiol.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar y system ymgeisio ac asesu. Er enghraifft:

- Mae'n naïf gofyn am gostiadau cyn cymeradwyo'r grant. Gwrthododd sawl cwmni gynnig dyfynbris am ei fod yn gwastraffu amser. Gwastraff o waith wythnos yn casglu papur gwaith ac wedyn cael eich gwrthod';

- 'Cefais nifer o lythyrau yn gofyn am ddyfynbrisiau ac incwm a ragwelwyd ac ati - sut y gallwch ragweld hyn?';
- 'Cefais anhawster i gael ffurflenni, yna roedd yr hyn a gynigiwyd yn sôn yn bennaf am welliannau adeileddol, dim byd addas i swyddfa fach';
- 'Roeddwn yn siomedig na chysylltodd neb â mi ar ôl y cais cychwynnol i drafod cais mwy dichonadwy'.

Astudiaethau achos

Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaethau achos, fel y nodwyd uchod, yn fwy tebygol o wneud sylwadau ffafriol am y Gronfa na'r cyffredin. Felly y bu o ran y profiadau a nodwyd ganddynt o'r ffordd y gweinyddwyd y Gronfa. Ceir manylion llawn am eu safbwyntiau yn Atodiad 5, ond yn gryno, ym marn y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth achos:

- Roedd y broses ymgeisio yn 'hawdd';
- Nid oedd y penderfyniad i ddyfarnu grant wedi cymryd amser hir;
- Gwnaed taliadau'n brydlon;
- Roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn barod eu cymwynas ac yn gefnogol.

Cyfeiriodd dau at newidiadau mynych ymhlith staff y Cynulliad, a achosodd rwystredigaeth o orfod 'ailadrodd popeth eto'.

Y beirniadaethau eraill a godwyd oedd:

nad oedd yn amlwg o'r cychwyn i un Is-bostfeistr na fyddai Llywodraeth y Cynulliad yn talu TAW ar y gwaith;

er i Swyddfa'r Post Cyf archwilio'r prosiect a'i gymeradwyo'n derfynol, roedd un o'r astudiaethau achos (yn debyg i'r rhan fwyaf o brosiectau'r Gronfa) heb gael ymweliad gan swyddogion y Cynulliad.

Ymgynghoriadau â rhanddeiliaid

Cafwyd ychydig o adborth ar y ffordd y gweinyddwyd y gronfa gan rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy. Cyfeiriodd Golwg

ar Bost Cymru at 'anecdotal evidence' bod 'the process takes too long and that on some occasions a change of staff in the relevant department dealing with applications has led to delay and some confusion in so much that a different interpretation might be placed on a specific issue'.

Nododd Llygad Busnes yn sir Benfro iddo siarad â thua 10 o swyddfeydd post am y cymorth grant a oedd ar gael, a bod pob un ohonynt wedi cael eu cyfeirio at y gronfa. Roedd y sefydliad hefyd wedi siarad â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â'r gronfa mewn perthynas â'r achosion unigol, a nodwyd 'mae'r swyddogion hyn bob amser wedi bod yn barod eu cymwynas ac yn gefnogol'.

5. Proffil gwariant y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post

Cyflwyniad

Roedd y cam hwn ar yr ymchwil yn golygu datblygu proffil a dadansoddiad o'r cyllid a ddyfarnwyd ac a wariwyd o dan y Gronfa. Roedd yn seiliedig ar ddata gweinyddol a ddelid ar ffeiliau ac ar gronfa ddata gan reolwyr cynllun y grant yng Nghyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth y Cynulliad.

Roedd y Gyfarwyddiaeth Gymunedau wedi cadw cronfa ddata o wybodaeth am grantiau'r Gronfa er mwyn olrhain grantiau a ddyfarnwyd, taliadau a wnaed a hynt prosiectau. Dangosai'r gronfa ddata ar gyfer pob swyddfa bost a ariannwyd:

- enw'r swyddfa bost;
- swm y grant a ddyfarnwyd;
- disgrifiad o'r gwaith i'w wneud o dan y prosiect;
- y dyddiad yr ardystiodd Swyddfa'r Post Cyf fod y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol
- a oedd y prosiect wedi dechrau neu wedi'i gwblhau.

Yr offeryn gweinyddol hwn oedd y sail i'r gronfa ddata newydd at ddibenion gwerthuso, yr oedd ei ddatblygu yn golygu archwilio'n fanwl bob ffeil prosiect ac ymgyfarwyddo â chefnidir pob prosiect. Mae'r gronfa ddata estynedig yn cynnwys y wybodaeth a restrir uchod, ac yn ychwanegu'r wybodaeth a ganlyn:

- enw cyswllt a chyfeiriad yr Is-bostfeistr/yr Is-bostfeistres;
- swm yr arian a dalwyd o dan y Gronfa hyd yma;
- categorïau o waith a oedd wedi'u cynnwys yn y prosiect -

- adeileddol/esthetig;
- mesurau diogelwch;
- gwell mynediad neu gyfleusterau i bobl anabl;
- cynhyrchion neu wasanaethau newydd;
- ai ardal wledig ynteu ardal drefol ydyw o safbwynt y Gronfa;
- unrhyw arian arall a roddwyd i'r swyddfa bost neu a ddarparwyd gan yr Is-bostfeistr/Is-bostfeistres eu hunain;
- rhagamcan o nifer y swyddi i'w creu neu i'w diogelu drwy'r prosiect;
- pa effaith a ragwelwyd y câi'r prosiect ar incwm neu elw;
- gwybodaeth yn ffeiliau prosiectau am y math o ardal, anghenion penodol neu gefnogaeth y gymuned.

5.1 Ansawdd gwybodaeth

Mae'r broses o ddatblygu'r gronfa ddata estynedig wedi amlygu rhai anghysonderau, gwendidau a bylchau yn y wybodaeth a roddwyd gan yr ymgeiswyr grant, yn enwedig o ran yr effaith a ragwelwyd ar ddiogelu neu greu swyddi, ac am effaith ariannol. Trafodir yr agwedd rheoli a gweinyddu ar y materion hyn yn fanylach ym Mhennod 4. Ystyrir y goblygiadau iddynt o ran dadansoddiad gwariant a gwerthuso effaith yma.

Yn yr adran o'r ffurflen gais sy'n ymwneud â diogelu a chreu swyddi, roedd rhai ymgeiswyr wedi cynnwys swyddi'r postfeistr/postfeistres ei hun ond nid oedd eraill wedi gwneud hynny. Methodd llawer â gwahaniaethu rhwng diogelu a chreu swyddi, neu rhwng swyddi rhan amser a llawn amser. Mae'r gronfa ddata a'r

dadansoddiad yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd wrth wneud cais. Er mwyn sicrhau bod y gronfa ddata mor gadarn â phosibl, mae'r ffigurau a ddarparwyd gan ymgeiswyr wedi cael eu haddasu i gynnwys swyddi postfeistri/postfeistresi yn ôl yr angen. Os na nodwyd y patrwm gwaith tybir bod hanner y swyddi yn llawn amser a hanner yn rhan amser, sy'n adlewyrchu'n fras batrwm y boblogaeth gyfan. Os nad yw'n amlwg ar y ffurflen ai diogelu ynteu creu swyddi sydd dan sylw, tybir bod swyddi yn cael eu diogelu, sef y dehongliad mwyaf tebygol o'r ffurflen gais.

Yn yr adran sy'n ymwneud â'r effaith ariannol, darniog oedd y wybodaeth, ac yn anghyflawn weithiau. Mewn sawl achos, ni nodwyd effaith y prosiect yn glir, er enghraifft, am na roddwyd unrhyw amcan o lif ariannol tebygol heb y prosiect arfaethedig. Os nodwyd effaith, fe'i mynegwyd mewn amryw ffyrdd, megis cynnydd canrannol mewn incwm, cynnydd absoliwt mewn elw neu newidiadau mewn llif arian. Ni fu modd gwneud tybiaethau a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i gyfuno'r wybodaeth yn un canlyniad a ragwelwyd, felly ceir disgrifiad o'r gwahanol ddisgwyliadau ar gyfer pob Cylch.

Gwella a wnaeth y wybodaeth ariannol dros amser, a dechreuodd swyddogion bennu gofynion cliriach a mwy cyson yn hyn o beth. Felly, ar gyfer cylch 1, nid oedd unrhyw wybodaeth foddhaol am yr effaith ariannol a ragwelwyd ar gyfer unrhyw brosiect, ar gyfer Cylch 2 roedd gwybodaeth ddigonol o ran hanner y prosiectau, ac ar gyfer cylch 3 a chylch 4 cafwyd hynny yn achos dau o bob tri phrosiect.

Yn gyffredinol bu amrywiad mawr yn ansawdd a phroffesiynoldeb y ceisiadau. Roedd y rhan fwyaf o geisiadau yn glir ac yn ystyriol, gyda chryn dipyn o fanylion am y swyddfa bost, ei sylfaen o gwsmeriaid

a'r ardal a wasanaethid, esboniad clir o'r rhesymeg dros y prosiect arfaethedig a'r effaith a ragwelwyd ar ddichonoldeb, cyflogaeth a'r gymuned ar unwaith ac yn y tymor hwy. Roedd eraill yn llai clir a manwl o lawer, ac roedd rhai wedi'u llunio'n wael.

5.2 Mathau o weithgareddau a ariannwyd

Roedd y gweithgareddau a ariannwyd o dan y Gronfa wedi'u rhannu'n bedwar categori fel a ganlyn: adeileddol/esthetig; mesurau diogelwch; gwell mynediad neu gyfleusterau i bobl anabl; a chynhyrchion a gwasanaethau newydd.

Roedd gwelliannau adeileddol ac esthetig yn cynnwys gwaith i roi mwy o le manwerthu, creu mannau ar gyfer gwasanaethau newydd, uwchraddio diwyg y swyddfa bost neu'r siop, cyflwyno toiledau i gwsmeriaid, neu wella tu allan yr adeilad, gan gynnwys lleoedd parcio.

Roedd mesurau diogelwch fel arfer yn ymwneud â gosod larymau newydd, coffrau, cyfarpar teledu cylch cyfyng neu gaeadau.

Mae'r categori ynglŷn â mynediad a chyfleusterau i bobl anabl yn cynnwys mynediad corfforol i'r adeilad ac o'i gwmpas, yn aml er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn unol â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, darparu cownteri swyddfeydd post a oedd yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, neu osod dolenni anwytho i helpu pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw.

Mae'r categori ynglŷn â chynhyrchion a gwasanaethau newydd yn cwmpasu nifer fawr o weithgareddau, megis:

- estyn oriau agor y swyddfa bost neu bob gwasanaeth;
- ehangu'r amrywiaeth o fwydydd mewn stoc ar ochr fanwerthu'r busnes, yn aml er mwyn cynnwys mwy o gynnyrch

ffres neu gynnyrch lleol, mwy o nwyddau wedi'u rhewi, brechdanau a diodydd poeth, neu ddechrau gwerthu alcohol;

- ehangu gwasanaethau'r swyddfa bost a gynigiwyd;
- darparu gwasanaethau bancio neu wasanaethau ariannol newydd, gan gynnwys y gallu i godi arian;
- darparu cyfleusterau cymunedol megis hysbysfyrddau, ystafelloedd cyfarfod, neu gysylltiadau ag undebau credyd;
- cyflwyno gwasanaethau a chyfleusterau newydd megis poptai, llyfrgelloedd fideos/DVD, y rhyngwyrdd a TG, gwybodaeth i ymwelwyr, asiantaethau gwyliau, gwasanaethau busnes, llungopïo ac argraffu ac anfon negeseuon ffacs, datblygu lluniau, sychlanhau a chaffis/siopau hufen iâ.

Roedd bron bob prosiect yn cynnwys dau neu fwy o'r pedwar categori o weithgarwch, gyda llawer yn cynnwys elfennau o bob categori. Roedd y prosiectau a gynhwysai'r categori ynglŷn â chynhyrchion a gwasanaethau fel arfer yn cynnwys sawl elfen ohono, er enghraifft mwy o le ac oriau agor hwy. Felly nid oedd yn bosibl nodi teipoleg o brosiectau a wahaniaethodd rhwng prosiectau yn ôl categori. Yn benodol, roedd cyswllt anorfod fel arfer rhwng y gwelliannau adeileddol a wnaed ac un o'r categorïau eraill o weithgarwch. Felly dengys y dadansoddiad o weithgareddau a ariannwyd yr holl categorïau a gwmpaswyd, ond ni all briodoli lefel y cyllid i bob categori.

5.3 Proffil gwariant

Gwahoddwyd ceisiadau am gyllid o dan y Gronfa o dan bedwar cylch gwahanol, a ddaeth i ben ar 31 Ionawr, 30 Ebrill, 31 Gorffennaf a 31 Hydref 2003 yn y drefn

honno. Dyfarnwyd grantiau ym mis Ebrill a mis Awst 2003 ac ym mis Mai a mis Gorffennaf 2004. Ar y cychwyn roedd yn ofynnol i'r rhai y dyfarnwyd grant iddynt wario'r grant cyfan a hawlio'r arian gan Lywodraeth y Cynulliad erbyn 31 Rhagfyr 2005. Ym mis Ebrill 2005 cyhoeddwyd bod y terfyn amser yn cael ei estyn tan 31 Ionawr 2006, er mwyn cydnabod bod rhai swyddfeydd post yn cael anhawster i hawlio a gwario eu grant erbyn y terfyn amser cyntaf.

Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer y prosiectau y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan bob cylch, nifer y prosiectau a gwblhawyd a swm y grant a wariwyd. Dyfarnwyd cyfanswm o £4.17m i 106 o swyddfeydd post (64 mewn ardaloedd trefol, 42 mewn ardaloedd gwledig yn ôl diffiniad y Gronfa), yr oedd £3.86m o'r swm hwnnw wedi cael ei hawlio a'i wario erbyn 1 Chwefror 2006. Dim ond 6 phrosiect a oedd yn annhebygol o gael eu cwblhau erbyn diwedd cyfnod gweithredu'r Gronfa yn ôl pob golwg, er bod 7 arall wedi gwrthod y grant a gynigiwyd. Rhoddwyd grantiau o £40,000-£50,000, gyda dim ond pedwar grant o dan £10,000 a thri rhwng £10,000 a £20,000. Cafwyd cydbwysedd ar y cyfan rhwng prosiectau trefol a gwledig yn y tri chylch cyntaf, ond roedd dros ddwywaith cymaint o brosiectau trefol â phrosiectau gwledig yng nghylch 4.

Dros y pedwar cylch i gyd, dim ond llond dwrn o brosiectau a ddenodd gyllid o ffynonellau cyhoeddus neu elusennol eraill. O'r grantiau eraill hyn, roedd y rhan fwyaf ohonynt ond yn gyfraniadau bach iawn gan y cyngor lleol neu'r cyngor gwirfoddol sirol lleol, a rhoddwyd un gan elusen. Cafwyd dau grant mawr, un gan gyngor ac un gan y WDA. Yn yr un modd, ni welwyd fawr ddim tystiolaeth o blith y prosiectau a wrthodwyd bod cyllid arall ar gael i brosiectau. O ystyried bod ymgeiswyr

yn cael eu hannog drwy'r canllawiau i godi arian arall, dengys y dystiolaeth hon nad oedd y Gronfa yn dyblygu cymorth cyhoeddus arall ac yn wir y Gronfa ym mhob achos bron oedd yr unig ffynhonnell fawr o gyllid a oedd ar gael ar gyfer y gwaith.

Roedd hanner y prosiectau yn cynnwys cyfraniadau gan yr Is-bostfeistri/Is-bostfeistresi eu hunain, naill ai o gynilion personol neu drwy fenthyciadau. Cyfanswm y cyfraniadau hyn oedd dros

£520,000, na fyddai llawer ohono wedi cael ei fuddsoddi fel arall yn seilwaith y swyddfeydd post. Roedd y cyfraniad yn aml wedi'i roi ar gyfer yr elfen o'r prosiect dros derfyn uchaf y grant sef £50,000, gan awgrymu bod terfyn uchaf y grant wedi cael effaith gadarnhaol ar fuddsoddiad preifat ac nad oedd wedi atal ymgeiswyr rhag ymgymryd â phrosiectau mwy o faint. Efallai ei bod yn awgrymu bod pennu canran o gyllid wedi denu rhagor o fuddsoddiad preifat, o ran prosiectau llai o faint.


Proffil cyffredinol	Cylch 1	Cylch 2	Cylch 3	Cylch 4	Cyfanswm
Nifer y prosiectau	7	21	30	48	106
Trefol	2	13	15	34	64
Gwledig	5	8	15	14	42
Prosiectau a gwblhawyd	7	19	25	29	80
Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd	259,813	889,408	1,260,339	1,757,931	4,167,491
Cyfanswm arian grant a wariwyd	257,819	812,046	1,231,326	1,545,082	3,855,273
Cynigion aflwyddiannus	20	29	18	45	112

Nodweddion swyddfeydd post a ariannwyd

Dengys data o ddata gweinyddol a'r arolygon o swyddfeydd post fod pob swyddfa bost a ariannwyd o dan y Gronfa yn cynnwys busnes cysylltiedig, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn fusnesau manwerthu, gan gynnwys melysion, papurau newydd a thybaco, bwydydd cyffredinol a nwyddau i'r cartref, ac mewn rhai achosion nwyddau arbenigol megis teganau, dillad, llestri a nwyddau crefft. Roedd ychydig o fusnesau yn cynnwys caffi


hefyd. O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg o'r swyddfeydd post nad oeddent wedi cael cyllid o dan y Gronfa, dywedodd un o bob pump nad oedd ganddynt fusnes manwerthu cysylltiedig neu fusnes arall.

Llwyddodd y Gronfa i dargedu swyddfeydd post a gynhwysai'r siop olaf yn yr anheddiad: nododd ychydig dros ddau o bob tri ymatebydd i'r arolwg y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa nad oedd unrhyw siop arall yn yr anheddiad. Yn yr arolwg rheoli roedd ychydig dros hanner.

Canran y Swyddfeydd Post mewn anheddiad heb siop arall

Busnesau bach gyda phump neu lai o gyflogeion (gan gynnwys yr Is-bostfeistr neu'r Is-bostfeistres ei hun) oedd y rhan fwyaf o'r swyddfeydd post yn yr arolwg. Roedd 86% o'r swyddfeydd post y dyfarnwyd cyllid iddynt yn cyflogi pump neu lai o bobl, ychydig yn uwch na'r 81% yn yr arolwg rheoli. Dim ond un enghraifft o blith y 59 o ymatebwyr o swyddfeydd post y dyfarnwyd cyllid iddynt a gyflogai fwy na 10 o bobl, o'i chymharu â thri o blith y 48 o ymatebwyr i'r arolwg rheoli.

Fodd bynnag, dyfarnwyd llai o grantiau i fusnesau bach iawn (Is-bostfeistr neu Is-bostfeistres yn unig neu gydag un cyflogai). Er nad oedd yr amrywiadau yn fawr ac nad yw'r ffigurau'n derfynol, ymddengys mai'r swyddfeydd post a oedd fwyaf tebygol o wneud cais am gyllid o dan y Gronfa a chael y cyllid hwnnw oedd y rhai canolig eu maint, a bod y swyddfeydd post bach iawn a'r swyddfeydd post mawr iawn yn llai tebygol o wneud cais am gyllid o dan y Gronfa a chael y cyllid hwnnw.


Canran y Swyddfeydd Post gydag un cyflogai neu ddim cyflogai

Dosbarthiad daearyddol y Gronfa

Dengys y map isod leoliad y swyddfeydd post y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa (gan gynnwys y rhai a wrthododd y cynnig yn y pen draw), a'r ardaloedd cymwys. Dengys fod 19 o ardaloedd awdurdodau lleol wedi cael o leiaf un cynnig o gyllid, gyda 32 o grantiau wedi'u

dyfarnu yn awdurdodau'r Cymoedd, 16 ym Mhowys a 13 yn sir Gaerfyrddin, 12 yn ardaloedd awdurdod y Gogledd, a chyfanswm o 18 yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd. Mae pedair swyddfa bost wedi'u lleoli y tu allan i'r ardaloedd cymwys ond maent yn gwasanaethu ardaloedd cymwys.

Cyllid Datblygu Swyddfeydd Post yn yr 125 o Ardaloedd Mwyaf Difreintiecig a'r 125 o Ardaloedd Mwyaf Ynysig



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda charniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2004. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif trwydded 100017916.

Cartograffeg, Cyfarwyddwr Petalegol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
10/06/07

artographics
artograffeg

Cyllid Datblygu Swyddfeydd Post yn yr 125 o Ardaloedd Mwyafrif Difreintiedig a'r 125 o Ardaloedd Mwyaf Ynysig

CYLCH 1

1/1	Abertyswg, Rhymni	Trefol	Caerffili
1/2	Bargod	Trefol	Caerffili
1/3	Graiglwyd	Trefol	Abertawe
1/4	Gwyddelwern, Corwen	Gwledig	Sir Ddinbych
1/5	Llangeitho, Tregaron	Gwledig	Ceredigion
1/6	Llangurig, Llanidloes	Gwledig	Powys
1/7	Llanhilledd, Abertyleri	Trefol	Tor-faen

CYLCH 2

2/8	Amroth Road	Trefol	Caerdydd
2/9	Boncath	Gwledig	Sir Gaerfyrddin
2/10	Botwnnog, Pwllheli	Gwledig	Gwynedd
2/11	Broughton Avenue	Trefol	Abertawe
2/12	Caerau Road	Trefol	Caerdydd
2/13	Carno, Caersws	Gwledig	Powys
2/14	Conway Road	Trefol	Abertawe
2/15	Doldowlad, Llandrindod	Gwledig	Powys
2/16	Dyffryn	Trefol	Casnewydd
2/17	Grand Avenue	Trefol	Caerdydd
2/18	Doc Llanelli, Llanelli	Trefol	Sir Gaerfyrddin
2/19	Llanrhymni	Trefol	Caerdydd
2/20	Marloes, Hwlfordd	Gwledig	Sir Benfro
2/21	McDonell Road, Bargod	Trefol	Caerffili
2/22	Pontnedd Fechan, Castell-nedd	Gwledig	Castell-nedd Port Talbot
2/23	Senghennydd	Trefol	Caerffili
2/24	Splott Road	Trefol	Caerdydd
2/25	Tal-y-bont ar Wysg, Aberhonddu	Gwledig	Powys
2/26	Victoria Road	Trefol	Castell-nedd Port Talbot
2/27	West End, Pwllheli	Trefol	Gwynedd
2/28	Ynysymaerdy, Castell-nedd	Trefol	Castell-nedd Port Talbot

CYLCH 3

3/29	Abercwmboui, Aberdâr	Trefol	Rhondda Cynon Taf
3/30	Abertridwr	Trefol	Caerffili
3/31	Adamsdown	Trefol	Caerdydd
3/32	Beddgelert	Gwledig	Gwynedd
3/33	Betws	Trefol	Pont-y-bont ar Ogwr
3/34	Blaencelyn, Llandysul	Gwledig	Sir Gaerfyrddin
3/35	Bute Docks	Trefol	Caerdydd
3/36	Caeharris	Trefol	Merthyr Tudful
3/37	Cefn Gulay, Tredegar	Trefol	Blaenau Gwent
3/38	Church Terrace, Caergybi	Trefol	Ynys Môn
3/39	Colwyn Avenue	Trefol	Abertawe
3/40	Darrenlas, Aberpennar	Trefol	Rhondda Cynon Taf
3/41	Dyffryn	Gwledig	Gwynedd
3/42	Glynebwy	Trefol	Blaenau Gwent
3/43	Llandinam	Gwledig	Powys
3/44	Llanymddyfri	Gwledig	Sir Gaerfyrddin
3/45	Llandysul, Trefaldwyn	Gwledig	Powys
3/46	Llangammarch	Gwledig	Powys
3/47	Llwynhendy, Llanelli	Trefol	Sir Gaerfyrddin
3/48	Maenorbŷr	Gwledig	Sir Benfro
3/49	Morawelon, Caergybi	Trefol	Ynys Môn
3/50	Penrhiwtyn, Castell-nedd	Trefol	Castell-nedd Port Talbot
3/51	Reynoldston	Trefol	Abertawe
3/52	Sanquahar Street	Trefol	Caerdydd
3/53	Tyddewi, Hwlfordd	Gwledig	Sir Benfro
3/54	Llaneirwg, Caerdydd	Trefol	Caerdydd
3/55	Staylittle, Powys	Gwledig	Powys
3/56	Troedyrhiw	Trefol	Merthyr Tudful
3/57	Winchestown, Brynmawr	Trefol	Blaenau Gwent
3/58	Y Caban, Aberystwyth	Gwledig	Ceredigion

CYLCH 4

4/59	Amlwch	Trefol	Ynys Môn
4/60	Ann Street	Trefol	Sir Gaerfyrddin
4/61	Aberriw	Gwledig	Powys
4/62	Betws	Trefol	Casnewydd
4/63	Caersws	Gwledig	Powys
4/64	Coelbren	Trefol	Castell-nedd Port Talbot
4/65	Cwm	Trefol	Blaenau Gwent
4/66	Cwmaman	Trefol	Rhondda Cynon Taf
4/67	Dowlais	Trefol	Merthyr Tudful
4/68	Fairway	Trefol	Castell-nedd Port Talbot
4/69	Felinfach	Gwledig	Ceredigion
4/70	Felinfoel	Trefol	Sir Gaerfyrddin
4/71	Ffostrasol	Gwledig	Ceredigion
4/72	Fochriw	Trefol	Caerffili
4/73	Garden Village	Trefol	Rhondda Cynon Taf
4/74	Gelligaer	Trefol	Caerffili
4/75	Llanfair Llythfynwg	Gwledig	Powys
4/76	Glanaman	Gwledig	Sir Gaerfyrddin
4/77	Holmesdale Street	Trefol	Caerdydd
4/78	Cydweli	Trefol	Sir Gaerfyrddin
4/79	Llanbister	Gwledig	Powys
4/80	Llanboidy	Gwledig	Sir Gaerfyrddin
4/81	Llandrinio	Gwledig	Powys
4/82	Llanfachraeth	Gwledig	Ynys Môn
4/83	Llangadog	Gwledig	Sir Gaerfyrddin
4/84	Llanon	Gwledig	Ceredigion
4/85	Llanfihangel Crucornau	Gwledig	Sir Fynwy
4/86	Markham	Trefol	Caerffili
4/87	Morrison Road	Trefol	Castell-nedd Port Talbot
4/88	Tredegar Newydd	Trefol	Caerffili
4/89	Y Bontnewydd ar Wy	Gwledig	Powys

CYLCH 4 (parhad)

4/90	Croesffordd Panteg	Gwledig	Ceredigion
4/91	Pantysgallog	Trefol	Merthyr Tudful
4/92	Pendwyn	Gwledig	Sir Gaerfyrddin
4/93	Penrhiwceiber	Trefol	Rhondda Cynon Taf
4/94	Pen-twyn	Trefol	Caerdydd
4/95	Plas Madog	Trefol	Wrecsam
4/96	Porth y Felin	Trefol	Ynys Môn
4/97	Rhydfelen	Trefol	Rhondda Cynon Taf
4/98	Pontsenni	Gwledig	Powys
4/99	Blaendulais	Trefol	Castell-nedd Port Talbot
4/100	Sain Helen	Trefol	Abertawe
4/101	y Bryn	Gwledig	Sir Fynwy
4/102	Trawsfynydd	Gwledig	Gwynedd
4/103	Trebanog	Trefol	Rhondda Cynon Taf
4/104	Ffordd Tyisha	Trefol	Sir Gaerfyrddin
4/105	Wynnstay	Gwledig	Powys

Cylch 1

Dengys proffil o gylch 1 y Gronfa fod pob un o'r saith prosiect a gymeradwywyd wedi'u cwblhau, o fewn 7 mis ar gyfartaledd. Cyflwynodd prosiectau trefol gynigion am symiau ychydig yn fwy na phrosiectau gwledig, a dyfarnwyd y grantiau hynny iddynt, gan adlewyrchu'n fwy na thebyg eu bod yn fwy o faint. Bu gwariant yn erbyn ymrwymiad grant yn uchel iawn, gan awgrymu gwaith cynllunio da, bod cynigion wedi cael eu hasesu'n dda, ac mai ychydig iawn o broblemau a gafwyd o ran rheoli prosiect. Roedd pob prosiect yn cynnwys elfennau adeileddol ac esthetig. Roedd y rhan fwyaf o brosiectau hefyd yn cynnwys darparu cynhyrchion neu wasanaethau newydd, roedd tri yn cynnwys darparu mynediad neu gyfleusterau i bobl anabl ac roedd pedwar yn cynnwys mesurau diogelwch.

Dim ond un prosiect a sicrhodd gyllid cyhoeddus o ffynhonnell arall, ond ymrwymodd pedwar i gyfrannu o'u harian eu hunain yn ôl yr angen (heb nodi'r union symiau fel arfer).

O ran Cylch 1, nid oes tystiolaeth yn y ffeiliau o effaith y prosiect a ragwelwyd ar incwm na phroffidioldeb, o ran cymharu rhagamcanion ariannol gyda chyllid a heb gyllid. Nid oes fawr o wybodaeth ychwaith am nifer y swyddi y rhagwelwyd y câi eu diogelu o dan y prosiectau, ond mae rhai amcanion o'r nifer a gâi eu creu.

Cylch 2

O'r 21 o brosiectau a gymeradwywyd yng Nghylch 2, roedd 19 wedi'u cwblhau erbyn 1 Chwefror 2006, o fewn llai na 6 mis ar gyfartaledd. Roedd un prosiect ar fin cael ei gwblhau, ac roedd un arall newydd sicrhau'r Arwystl. Cafwyd mwy o brosiectau trefol na phrosiectau gwledig, ac unwaith eto dyfarnwyd grant tipyn yn uwch i'r rhain nag i'r prosiectau gwledig. Roedd 91% o'r grantiau a ddyrannwyd wedi'u gwario erbyn 1 Chwefror 2006. Dangosai'r amrywiaeth o weithgareddau fwy o bwyslais ar fesurau diogelwch yn yr ardaloedd gwledig.

Ni chafwyd unrhyw gyllid o ffynonellau eraill yn y cylch hwn, ond roedd lefel

y cyfraniadau o arian gan yr ymgeiswyr eu hunain, yn amrywio o £2,000 i £24,000, gan wneud cyfanswm o fwy na £50,000. Nid oes tystiolaeth yn y ffeiliau o'r effaith ariannol a ragwelwyd mewn perthynas â 12 o brosiectau. O'r naw prosiect arall, rhagwelodd un y byddai elw yn cynyddu'n sylweddol, rhagwelodd tri y byddent yn symud o golled i elw ym mlwyddyn 2 ar ôl cael y cyllid, rhagwelodd pedwar na fyddai fawr ddim effaith ar elw, ond y byddai trosiant yn cynyddu'n sylweddol, a rhagwelodd un na fyddai dim effaith ariannol fawr.

Un o nodweddion Cylch 2 oedd nifer y prosiectau nad oeddent wedi cynnwys datblygu unrhyw wasanaethau newydd na darparu cynhyrchion newydd (12 o brosiectau). Er nad oedd hwn yn ofyniad i fod yn gymwys i gael arian grant, ymddengys y byddai arallgyfeirio yn hanfodol i ddichonoldeb yn y dyfodol swyddfeydd post sydd mewn trafferthion, ac roedd darparu gwasanaethau er budd y gymuned leol yn un o amcanion y Gronfa. Byddai'n achos pryder pe na bai'r Gronfa wedi ychwanegu gwerth yn yr achosion hyn.

Cylch 3

Roedd cylch 3 yn llawer mwy, gyda 30 o brosiectau (15 gwledig a 15 trefol) yn cael cyllid. Unwaith eto roedd y prosiectau trefol yn fwy na'r prosiectau gwledig. Cymerodd prosiectau o dan y cylch hwn fwy o amser i'w cwblhau, 10 mis ar gyfartaledd. Priodolwyd y gwahaniaeth hwnnw'n bennaf i'r gofyniad newydd i osod Arwystl ar eiddo. Roedd 25 o brosiectau wedi'u cwblhau erbyn 1 Chwefror 2006, roedd tri ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau, ymddangosai fod un yn annhebygol o gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth a gwrthodwyd un grant a gynigiwyd. Yn y cylch hwn,

mewn ardaloedd gwledig y cafwyd mwy o bwyslais ar fesurau diogelwch.

Ychydig iawn o gyllid a gafwyd oddi wrth ffynonellau eraill. O blith y rhai a gyfrannodd o'u harian eu hunain, gan gynnwys benthyciadau banc, roedd cyfraniadau yn llai mewn ardaloedd gwledig (rhwng £1,000 a £17,000, £7,000 ar gyfartaledd), na'r cyfraniadau mewn ardaloedd trefol (rhwng £2,000 a £125,000, £28,000 ar gyfartaledd). Yn y cylch hwn cyfrannwyd dros £300,000 i gyd gan Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi.

O ran chwe phrosiect, roedd gwybodaeth annigonol am effaith ariannol debygol y gwaith. O ran y gweddill, rhagwelodd 11 y byddai eu hincwm yn cynyddu o feintiau gwahanol, ond heb arwain at fwy o elw o reidrwydd. Rhagwelodd chwech y byddai eu gwarged yn cynyddu'n sylweddol ym mlwyddyn 2 ar ôl cael cyllid, a rhagwelodd saith y byddant yn symud o ddiffyg i warged yn yr un cyfnod, gan wneud y busnes yn gynaliadwy.

Cylch 4

O'r 48 o brosiectau o dan Gylch 4, roedd 34 yn rhai trefol ac roedd 13 yn rhai gwledig. Roedd 19 heb eu cwblhau ar 1 Chwefror 2006, er bod 9 ohonynt yn debygol o gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Roedd 6 wedi gwrthod y grant a gynigiwyd, roedd 2 yn aros am Arwystl, ac roedd 2 ar ôl ei hôl hi o ran yr amserlen. Roedd y 29 o brosiectau a gwblhawyd wedi cymryd 12 mis ar gyfartaledd, er y bydd y ffigur hwn yn uwch pan fydd y prosiectau sy'n weddill wedi'u cwblhau.

Roedd pedwar prosiect wedi sicrhau cyllid gan ffynonellau cyhoeddus eraill, ond symiau bach iawn oedd y rhain (tua £1,000 yr un). Fodd bynnag, bwriadodd 20 o ymgeiswyr gyfrannu o'u

hadnoddau eu hunain, weithiau symiau mawr (gan amrywio o £1,000 i £22,000). Y cyfraniad cyfartalog oedd £7,000 a chyfrannwyd tua £150,000 i gyd.

Rhoddwyd gwybodaeth am effaith economaidd y prosiect a ragwelwyd yn hanner y ceisiadau, gyda phob un yn rhagweld effaith gadarnhaol: y rhan fwyaf yn rhagweld cynnydd mewn incwm a/neu warged, a thri yn rhagweld symud o wneud colled i wneud elw erbyn blwyddyn 2.

5.4 Ceisiadau aflwyddiannus

Roedd 112 o geisiadau am gyllid o dan y Gronfa yn aflwyddiannus. Roedd rhai ohonynt yn anghymwys, am nad oeddent wedi'u lleoli yn y 125 o ardaloedd mwyaf difreintiedig neu'r 125 o ardaloedd mwyaf ynysig nac yn eu gwasanaethau. Fodd bynnag gwrthodwyd y mwyafrif llethol am eu bod wedi sgorio'n is ar fatrics sgorio'r Gronfa a drafodwyd ym Mhennod 4.

Gwnaeth y matrices sgorio adio pwyntiau a sgoriwyd yn erbyn nifer o ffactorau megis safle yn y mynegeion amddifadedd a natur ynysig, agosrwydd at swyddfeydd post eraill, gwasanaethau a manteision eraill i'r gymuned, cyfraniadau o gyllid arall, a'r effaith a ragwelwyd ar swyddi. Felly nid oedd modd yn y rhan fwyaf

o achosion nodi un rheswm dros wrthod cais. Fodd bynnag, dengys y ffeiliau i'r rhan fwyaf o geisiadau cymwys ond aflwyddiannus sgorio'n is yn bennaf am eu bod yn canolbwyntio ar gadw rôl neu faint presennol y swyddfa bost ar y cyfan, er mewn safle wedi'i adnewyddu. Methodd llawer o'r cynigion aflwyddiannus â dangos sut y byddai'r prosiect yn arwain at wasanaethau ychwanegol, cyfleusterau newydd i'r gymuned, manteision eraill i'r gymuned megis mwy o gynhyrchion neu oriau agor hwy. Felly ni allent ddadlau y byddent yn gwneud y swyddfa bost yn fwy dichonadwy nag yr oedd cyn y prosiect nac ychwaith y byddent yn ychwanegu unrhyw werth economaidd neu gymdeithasol. Nid oedd safle isel yn y mynegai amddifadedd neu natur ynysig ynddo'i hun yn ffactor hollbwysig a barodd i geisiadau fod yn aflwyddiannus, os oedd y cynnig yn un cadarn mewn ffyrdd eraill.

Dengys proffil y ceisiadau aflwyddiannus fod y broses asesu yn weddol effeithiol o ran didoli cynigion nad oeddent wedi'u hanelu at gyflawni amcanion y gronfa o ran bod yn fwy dichonadwy ac ychwanegu gwerth cymdeithasol, er nad oedd yr asesiad yn seiliedig ar ragamcanion ariannol gwirioneddol.

6. Effaith y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post

6.1 Canfyddiadau arolygon

Yn yr adran hon, cyfrifir cyfrannau a chanrannau drwy ddefnyddio cyfanswm yr ymatebwyr i'r cwestiwn unigol o dan sylw yn yr arolwg yn hytrach na nifer yr ymatebion i'r arolygon yn eu cyfanrwydd.

Ychwanegedd

O'r 57 o ymatebwyr y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa a ymatebodd i'r cwestiwn, dywedodd 45 na fyddent wedi ymgymryd ag unrhyw ran o'r gwaith a wnaed gyda'r cyllid pe na baent wedi cael y grant. Byddai saith wedi ymgymryd â phrosiect llai o faint, a byddai un wedi ymgymryd â phrosiect llai o faint yn ddiweddarach. Nid yw'r pedwar ymatebydd i'r arolwg a wrthododd y grant a gynigiwyd wedi gwneud y gwaith yn eu cynnig. Felly awgryma canlyniadau'r arolygon hyn fod y grant yn llwyddiannus o ran gwerth ychwanegol, ariannu gwaith na fyddai wedi'i wneud fel arall heb fuddsoddiad cyhoeddus. O allosod canlyniadau'r arolwg, ni fyddai 83 o brosiectau a ariannwyd o dan y Gronfa ledled Cymru wedi mynd rhagddynt o gwbl heb y grant a ddyfarnwyd.

Fodd bynnag, mae'r canfyddiad hwn wedi'i oleddfu gan ymatebion y rhai na ddyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa, yr oedd y mwyafrif ohonynt (40 allan o 55) wedi gwneud rhai gwelliannau mewn o leiaf un o'r gweithgareddau cymwys, hy mesurau diogelwch, gwelliannau adeileddol neu esthetig sylweddol, mynediad neu gyfleusterau i bobl anabl, neu gynhyrchion a gwasanaethau newydd yn ystod y cyfnod y bu'r Gronfa yn weithredol. Roedd y pedwar categori o weithgarwch wedi cael tua'r un nifer o ymatebion cadarnhaol yr un. Ni wyddys

pa mor fawr oedd y gwelliannau hyn nas ariannwyd nac i ba safon y'u gwnaed, felly nid oes modd barnu a oeddent yn debyg i'r gwaith adnewyddu mawr a phrosiectau mawr eraill a gynhaliwyd o dan y Gronfa.

Effaith gyffredinol

Dywedodd pedwar ymatebydd i'r arolwg y byddent wedi cau eu busnes erbyn hyn pe na baent wedi cael cyllid o dan y Gronfa, ac roedd 14 yn ansicr p'un a fyddent yn parhau i weithredu. O'r pedwar a fyddai wedi cau, nododd tri nad oedd unrhyw siop arall yn yr anheddiad, er mai mewn lleoliad trefol yr oedd pob un ohonynt. O'r 14 nad oeddent yn siŵr a fyddent yn parhau i fod ar agor, 'y siop olaf yn y pentref' oedd naw ohonynt, gyda chymysgedd o leoliadau trefol a gwledig. Felly ceir o leiaf 12 enghraifft lle roedd y Gronfa wedi llwyddo i gefnogi swyddfeydd post a busnesau manwerthu ymylol mewn cymunedau a fyddent wedi colli'r cyfleuster hwn erbyn hyn neu a allent fod wedi colli'r cyfleuster hwn erbyn hyn.

O allosod canlyniadau arolygon awgryma'r data ei bod yn debygol bod wyth swyddfa bost a'u busnesau cysylltiedig ar agor heddiw oherwydd y Gronfa, gyda 28 o achosion ffiniol eraill.

Fodd bynnag, dywedodd dau o bob tri ymatebydd y byddai eu busnesau wedi parhau hyd yn oed heb gyllid y Gronfa. Dylid nodi i'r Gronfa weithredu yng nghydestun rhaglen Ail-lunio'r Rhwydwaith Trefol yn achos swyddfeydd post trefol ac nad oedd yn ariannu swyddfeydd post y bwriadwyd eu cau o dan y rhaglen honno. O ran swyddfeydd post gwledig yn ystod cyfnod y Gronfa, diogelwyd llawer ohonynt rhag y posibilrwydd o

gael eu cau o dan y polisi cenedlaethol o beidio â chau swyddfa bost os gellir osgoi gwneud hynny. Felly nid yw'n syndod mai ychydig iawn o swyddfeydd post a gafodd gyllid a deimlai eu bod mewn perygl enbyd o gau'n gyfan gwbl. Y gobaith oedd y byddai'r Gronfa yn eu gwneud yn fwy dichonadwy, yn barod at adeg pan fyddai'r rhwyd ddiogelwch artiffisial yn cael ei thynnu ymaith - ni roddwyd prawf ar hyn eto.

Cytunodd bron bob un o'r ymatebwyr fod y cyllid, yn gyffredinol, wedi gwneud eu busnesau yn fwy dichonadwy yn fasnachol (50/53), a'i fod wedi'i gwneud yn haws i gael gwasanaethau swyddfa bost yn yr ardal (48/52). Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y prosiect a ariannwyd wedi gwneud eu busnes yn fwy buddiol i'r gymuned leol.

O'r pedair swyddfa bost y dyfarnwyd grantiau bach iddynt (llai na £10,000), dim ond dau a ymatebodd i'r arolwg. Nododd y ddau ychydig o gynnydd yn nifer ymweliadau cwsmeriaid â'r swyddfa bost, ond dim newid mewn incwm manwerthu na nifer yr ymwelwyr.


Awgryma'r ymatebion bod y rhai y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa yn ei hystyried yn llwyddiant o ran cyflawni ei hamcanion o **helpu** i gadw a datblygu swyddfeydd post mewn cymunedau difreintiedig, a **helpu** i gynnal rhwydwaith dichonadwy o swyddfeydd post ledled Cymru.


Oriau agor

O'r swyddfeydd post hynny y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa, roedd un o bob tair (17 o swyddfeydd post) wedi estyn oriau agor y swyddfa bost, ac roedd 20 wedi estyn oriau agor eu siop gysylltiedig. Roedd eraill wedi cadw at yr un oriau, gydag un eithriad. Roedd oriau agor hwy yn fwy cyffredin mewn prosiectau a gwblhawyd eisoes nag mewn prosiectau a oedd yn parhau i gael eu rhoi ar waith.

O'r swyddfeydd post hynny a gymerodd ran yn yr arolwg na ddyfarnwyd cyllid iddynt, dim ond un o bob pump oedd wedi estyn eu horiau agor yn y swyddfa bost, ac roedd chwarter y swyddfeydd post a chanddynt siopau wedi estyn oriau agor

Newidiadau yn oriau agor Swyddfeydd Post Ebrill 2003-Medi 2005



Newidiadau yn oriau agor manwerthu Ebrill 2003-Medi 2005

y siop. Roedd chwe swyddfa bost a thair siop wedi cwtfogi ar eu horiau agor.

Awgryma'r ymatebion hyn fod y swyddfeydd post y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa, yn enwedig y rhai lle mae'r prosiect wedi'i gwblhau, ac mae'r busnes wedi'r prosiect wedi cael ei sefydlu, yn fwy tebygol o ddarparu gwell gwasanaeth i'w cymuned o ran oriau hwy y swyddfa bost ac oriau hwy manwerthu.

Ymweliadau cwsmeriaid ac incwm

Nododd 77% o swyddfeydd post a oedd wedi cwblhau prosiectau o dan y Gronfa fod nifer ymweliadau cwsmeriaid wedi cynyddu. O ran swyddfeydd post a oedd wrthi'n rhoi prosiect ar waith o dan y Gronfa, y ffigur oedd 52% o ran cynnydd yn nifer ymweliadau cwsmeriaid. Ar y llaw arall o ran swyddfeydd post nad oeddent wedi cael cyllid roedd 59% wedi nodi **gostyngiad** mewn niferoedd.

Newid yn nifer ymweliadau cwsmeriaid â swyddfeydd post ers Ebrill 2003	Wedi cynyddu'n sylweddol	Wedi cynyddu ychydig	Wedi aros yr un peth	Wedi gostwng ychydig	Wedi gostwng yn sylweddol	Cyfanswm
Prosiect y Gronfa wedi'i gwblhau	9	15	2	3	2	31
Prosiect y Gronfa heb ei gwblhau	5	7	3	5	3	23
Dim cyllid o dan y Gronfa	3	11	9	18	15	56*

(* yn cynnwys y rhai a wrthododd y grant)

Ar yr ochr fanwerthu, roedd 72% o swyddfeydd post a oedd wedi cwblhau eu prosiectau wedi cynyddu nifer y cwsmeriaid, a dywedodd bron hanner yr ymatebwyr fod y cynnydd yn un sylweddol. O ganlyniad i hynny nododd 81% o swyddfeydd post fod eu hincwm manwerthu wedi cynyddu. Dim ond 3 a welodd ostyngiad bach naill ai o ran nifer y cwsmeriaid neu incwm manwerthu.

O ran y 23 o ymatebwyr nad oeddent wedi cwblhau eu prosiectau eto, roedd dros ddau o bob tri wedi cynyddu nifer

y cwsmeriaid, ac roedd yr un gyfran wedi cynyddu eu hincwm manwerthu.

Dros yr un cyfnod, gwelodd llai na chwarter y swyddfeydd post â busnes manwerthu cysylltiedig na chawsant gyllid gynnydd yn nifer y cwsmeriaid neu eu hincwm manwerthu. Roedd dros hanner y swyddfeydd post na chawsant gyllid wedi gweld gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid, gyda 15 o'r 47 yn nodi gostyngiad sylweddol. O ganlyniad i hynny nododd 56% fod eu hincwm manwerthu wedi gostwng.

Newid yn nifer ymweliadau cwsmeriaid at ddiben manwerthu ers Ebrill 2003	Wedi cynyddu'n sylweddol	Wedi cynyddu ychydig	Wedi aros yr un peth	Wedi gostwng ychydig	Wedi gostwng yn sylweddol	Cyfanswm
Prosiect y Gronfa wedi'i gwblhau	14	9	4	3	0	30
Prosiect y Gronfa heb ei gwblhau	3	12	4	3	1	23
Dim cyllid o dan y Gronfa	3	8	10	11	15	47*

Newid mewn incwm manwerthu ers Ebrill 2003	Wedi cynyddu'n sylweddol	Wedi cynyddu ychydig	Wedi aros yr un peth	Wedi gostwng ychydig	Wedi gostwng yn sylweddol	Cyfanswm
Prosiect y Gronfa wedi'i gwblhau	11	14	3	3	0	31
Prosiect y Gronfa heb ei gwblhau	4	10	6	1	2	23
Dim cyllid o dan y Gronfa	2	9	10	13	13	47*

Dengys y ffigurau berthynas gref rhwng cwblhau prosiect o dan y Gronfa a chynyddu busnes manwerthu, a pherthynas rhwng rhoi prosiect ar waith o dan y Gronfa a chynyddu busnes manwerthu.

Gofynnwyd i swyddfeydd post a oedd wedi cwblhau eu prosiectau nodi pa mor fuddiol oedd pob elfen o'r prosiect, yn eu tyb hwy, o ran cynyddu eu busnesau. Roedd dosbarthiad yr ymatebion yn weddol gyfartal, gyda 'gwasanaethau cymunedol

newydd' ychydig yn llai buddiol nag elfennau eraill, a chyda mesurau diogelwch a gwelliannau adeileddol neu esthetig yn cael eu hystyried yn 'hynod fuddiol' yn amlach na dim. O'r swyddfeydd post a nododd gynnydd sylweddol neu ychydig o gynnydd yn eu hincwm manwerthu ar ôl cwblhau eu prosiect o dan y Gronfa, gwelliannau adeileddol ac esthetig, a mesurau diogelwch, sy'n syndod efallai, a nodwyd fel yr elfennau hynod fuddiol o ran cynyddu eu busnesau.

Elfennau y dywedwyd eu bod yn 'hynod fuddiol' mewn prosiectau a gwblhawyd yn nodi cynnydd mewn incwm manwerthu ar ôl cwblhau'r prosiect

	Cynnydd sylweddol mewn incwm	Ychydig o gynnydd mewn incwm manwerthu	Cyfanswm
Mynediad a chyfleusterau i bobl anabl	3	4	7
Gwasanaethau cymunedol newydd	0	4	4
Gwasanaethau swyddfa bost newydd	3	4	7
Cynhyrchion/gwasanaethau manwerthu newydd nad ydynt yn ymwneud â'r swyddfa bost	5	5	10
Mesurau diogelwch	7	8	15
Gwelliannau adeileddol/esthetig	8	8	16

Swyddi

Cynyddodd nifer y swyddi llawn amser mewn swyddfeydd post yn gyffredinol dros gyfnod yr astudiaeth, o tua 15-16% yn yr holl swyddfeydd post p'un a gawsant gyllid o dan y Gronfa ai peidio.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y swyddi rhan amser hefyd ar gyfer swyddfeydd post a gafodd gyllid: cynnydd o 47% yn nifer y swyddi rhan amser mewn swyddfeydd post a oedd wedi cwblhau eu prosiectau, cynnydd o 36% mewn swyddfeydd post a oedd wrthi'n rhoi eu prosiectau ar

waith. Bu gostyngiad net mewn swyddi rhan amser mewn swyddfeydd post na chawsant gyllid ac a gymerodd ran yn yr arolwg. Er mai brasamcan yn unig yw'r mesur gan nad yw ond yn cyfeirio at nifer y swyddi ac nad yw'n mesur cyfanswm oriau gwaith, ymddengys i'r Gronfa helpu i greu nifer sylweddol o swyddi rhan amser na fyddent wedi'u creu fel arall. O allosod canlyniadau'r arolygon, gellir amcangyfrif bod y Gronfa wedi creu tua 80 o swyddi rhan amser newydd mewn ardaloedd difreintiedig neu ynysig yng Nghymru.

Nifer y swyddi rhan amser	Swyddfeydd post a gafodd gyllid o dan y Gronfa (55 o ymatebion i'r cwestiwn)	Swyddfeydd post na chawsant gyllid o dan y Gronfa (52 o ymatebion i'r cwestiwn)
Swyddi rhan amser Ebrill 2003	102	114
Swyddi rhan amser erbyn hyn	145	113

Yr effaith ar y gymuned

Yn yr arolwg gofynnwyd i Is-bostfeistri ac Is-bostfeistresi p'un a oeddent wedi cyflwyno gwahanol gyfleusterau cymunedol fel rhan o'u prosiectau o dan

y Gronfa. Gofynnwyd i swyddfeydd post na chawsant gyllid pa rai o'r cyfleusterau a gyflwynwyd ganddynt yn ystod yr un cyfnod.

Cyfleusterau neu fanteision a gyflwynwyd i'r gymuned	% y swyddfeydd post a gafodd gyllid o dan y Gronfa (o 50 o ymatebwyr)	% y swyddfeydd post na chawsant gyllid o dan y Gronfa (o 59 o ymatebwyr)
Ystafell gymunedol	4	2
Hysbysfwrdd cymunedol	54	25
Cynnal undeb credyd/rhoi cyngor ar ddyled	10	0
Rhoi mwy o gyngor ar wasanaethau cyhoeddus	38	22
Rhoi mwy o gymorth i helpu cwsmeriaid i lenwi ffurflenni	60	58
Stocio mwy o gynhyrchion o ffynonellau lleol	46	14
Darparu mynediad i'r Rhynggrwyd neu TG	20	0
Cysylltiadau newydd â busnesau neu gyfleusterau lleol eraill	30	5
Gwell mynediad neu gyfleusterau i bobl anabl	96	34
Rôl gryfach i'r swyddfa bost fel canolbwynt cymdeithasol i'r ardal	94	32

Ar gyfer pob cyfleuster neu wasanaeth sydd wedi cael ei wella, mae'r ganran yn uwch ar gyfer swyddfeydd post a gafodd gyllid o dan y Gronfa. Ceir gwahaniaethau trawiadol o ran gwell mynediad neu gyfleusterau i bobl anabl, a rôl gryfach i'r swyddfa bost fel canolbwynt cymdeithasol i'r ardal. Nid oedd yr un swyddfa bost heb brosiect o dan y Gronfa wedi cyflwyno'r Rhynggrwyd/TG na chynnig cynnal undeb credyd neu wasanaeth cynghori ar ddyled, sy'n awgrymu o bosibl bod cyflwyno'r gwasanaethau hyn yn gofyn am rywfaent o fuddsoddiad cyhoeddus i'w rhoi ar waith. Ymddengys hefyd fod perthynas rhwng cyllid y Gronfa a darparu mwy o gynhyrchion o ffynonellau lleol a meithrin cysylltiadau newydd â busnesau

a chyfleusterau lleol eraill, gan awgrymu effaith ar y rhwydwaith economaidd lleol sydd y tu hwnt i'r effaith uniongyrchol ar y busnesau a gafodd gyllid.

O allosod canlyniadau'r arolygon i bob un o'r 106 o brosiectau o dan y Gronfa yng Nghymru, ac o ystyried y datblygiadau sy'n debygol o fod wedi digwydd sut bynnag heb gyllid y Gronfa, gellir amcangyfrif bod y Gronfa wedi 'prynu' dwy ystafell gymunedol, 30 o hysbysfyrddau cymunedol, wedi cynnal 10 o undebau credyd neu wasanaethau cynghori ar ddyled, gwell mynediad neu gyfleusterau i bobl anabl mewn 62 o swyddfeydd post a darparu TG neu'r Rhynggrwyd mewn 20 o safleoedd newydd.

Enghraifft o arfer da:**Undeb Credyd SAVEeasy Llanelli a'r Cylch yn gweithio gyda swyddfeydd post**

Mae dwy swyddfa bost a gafodd gyllid o dan y Gronfa, fel rhan o'r prosiectau a ariannwyd, wedi cytuno i gynnal Undeb Credyd Llanelli a'r Cylch. Mae'r swyddfeydd post yn Stryd Ann a Ffordd Tyisha yn Llanelli yn darparu gwasanaeth casglu lle mae unigolion yn gallu cynilo cyn lleied neu cymaint ag y dymunant. Nid yw'r swyddfeydd post yn cael ffi am y gwasanaeth, ond y nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n galw heibio drwy gynnig i gwsmeriaid ffordd gyfleus o godi arian a chynilo mewn un ymweliad.

Mae'r undeb credyd yn ceisio 'annog cynildeb a chynilo', a chredant fod cynnig cyfle i bobl gynilo peth arian yn union ar ôl casglu eu budd-daliadau neu eu pensiynau yn ei gwneud yn haws i gynilo ac yn fwy cyfleus i bobl ag incwm isel. Yn ôl SAVEeasy mae'r gwasanaeth yn y swyddfeydd post yn un cyfyngedig ond llwyddiannus a noda gynnydd sylweddol mewn aelodaeth yn un o'r safleoedd.

Dywedodd Jeff Hopkins, Rheolwr SAVEeasy: 'rydym yn falch iawn o'n cysylltiad â'r swyddfa bost ac yn gweld manteision aelodaeth fwy sy'n ei gwneud yn bosibl i ni fod yn gryfach o ran hylifedd cyfalaf a rhoi mwy o fenthyciadau.'

Mae'r undeb credyd yn amcangyfrif bod 20-30 o swyddfeydd post eraill yn yr ardal wedi cysylltu â hwy i ofyn am gael ymuno â'r cynllun. Mae'r undeb wrthi'n ystyried ffynonellau o arian i gyflogi rhywun i gasglu o'r safleoedd hyn, gyda'r nod o estyn cyrraedd y cynllun a bod yn gynllun peilot i Gymru.

Gofynnwyd i swyddfeydd post a oedd wedi cwblhau eu prosiectau pa mor fuddiol oedd pob elfen o'r prosiect, yn eu tyb hwy, i'r gymuned leol. Roedd dosbarthiad yr ymateb yn weddol gyfartal, ond yn amlach na dim nodwyd bod mesurau diogelwch a gwelliannau adeileddol ac esthetig yn 'hynod fuddiol'.

Sylwadau o ymatebion i arolygon ar effaith

Roedd mwyafrif llethol y sylwadau (28 allan o 35) gan y rhai y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa yn diolch am y grant ac yn nodi'r manteision a ddaeth yn ei sgîl. Disgrifiodd rhai y manteision ffisegol, ee:

- Bu'n hynod fuddiol o ran ariannu ffrynt newydd i'r siop, mynediad i bobl anabl a moderneiddio popeth, na allwn byth fod wedi ei fforddio heb y grant;
- Roedd y swyddfa bost yn hen ac mewn cyflwr ofnadwy, nawr mae'n edrych yn ddymunol ac yn lân iawn;

- Mae fy swyddfa bost yn fwy golau, yn fwy diogel, yn haws i bobl anabl ei defnyddio ac yn bleser i'w hagor bob dydd i wasanaethu'r gymuned.

Nododd eraill effaith fasnachol y grant, ee:

- Heb gyllid y Gronfa, byddwn wedi cau'r swyddfa bost ... heb y swyddfa bost byddai'r busnes wedi mynd i'r wal erbyn hyn;
- Mae'r grant wedi sicrhau dichonoldeb y swyddfa bost a'r siop yn yr hirdymor;
- Mae wedi rhoi hwb i'n busnes ac wedi ychwanegu gwasanaethau i'n cymuned leol, yn ogystal â chyflogaeth. Gallwn nawr adeiladu ar y sylfeini cadarn a roddwyd gan y grant;
- Ar ôl 30 mlynedd o fasnachu, mae hwn wedi rhoi cyfle i ni i sicrhau dyfodol y siop yn ein cymuned, gobeithio.

- Mae cyllid y Gronfa wedi ei gwneud yn bosibl i'r busnes barhau'n ddichonadwy gyda mwy o sicrwydd.
- Mae'r gronfa wedi achub fy musnes... helpodd i gadw fy musnes yn mynd o dan amgylchiadau anodd iawn.. Erbyn hyn gallaf edrych tuag at y dyfodol.

Mae'n werth nodi i lawer o ymatebwyr gyfeirio at yr hyder a enynnwyd yn eu cymuned drwy'r buddsoddiad cyhoeddus, yn ogystal â'r effaith ffisegol, masnachol ac economaidd a'r cyfleusterau gwirioneddol a osodwyd. Nodir enghreifftiau o'r sylwadau hyn isod.

Sylwadau ar yr effaith ar y gymuned:

'Cododd galon y gymuned leol, sef y canlyniad gorau oll. I bobl leol dangosai eu bod hwy fel defnyddwyr y swyddfa bost yn cael eu gwerthfawrogi'.

'Mae'r prosiect wedi rhoi hwb i hyder a delwedd Ystad Tai Cyngor sy'n gymdeithasol ddifreintiedig. Erbyn hyn mae ganddi gyfleuster y gall ymfalchïo ynddo ac mae'r boblogaeth wedi mynegi eu gwerthfawrogiad yn groch dro ar ôl tro.'

'Ar wahân i'r cynnydd mewn busnes ar yr ochr fanwerthu y newid amlycaf yw hyder newydd fy nghwsmeriaid yn y swyddfa bost. Y teimlad cyffredinol yw bod dyfodol y swyddfa bost yn fwy sicr erbyn hyn ar ôl gwneud yr holl waith.'

'Roedd y canlyniadau yn braf iawn a ddwy flynedd yn ddiweddarach mae ymwelwyr a thrigolion lleol yn dal i ganmol y swyddfa. Rwyf bob amser wedi ymfalchïo mewn gwneud gwaith da, a nawr teimlaf fod hyn wedi'i adlewyrchu yn y man lle rwyf yn gweithio'.

'Mae'r grant wedi gwella delwedd yr ardal - mae'r swyddfa ar y brif ffordd sy'n mynd drwy'r pentref felly mae wedi gwella golwg y pentref cryn dipyn i ymwelwyr sy'n dod yma am y tro cyntaf'.

'Fyddwn i ddim wedi gallu darparu'r holl wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd heb y grant'.

'Mae'r cwsmeriaid yr un mor falch â ninnau - mae'r Gronfa wedi troi rhyw hen adeilad salw ac oer yn ganolfan fodern a dymunol. Mae'r Gronfa wedi helpu i wella'r gymuned gyfan, nid dim ond yr adeilad. Mae pob un o'n cwsmeriaid yn fodlon ar y newidiadau yn enwedig y mynediad gwell'.

Dywedodd dau ymatebydd fod angen rhagor o gylchoedd o'r Gronfa i'r swyddfeydd post hynny nad oeddent wedi bod yn rhan o'r pedwar cylch cyntaf - awgrymodd un y dylid defnyddio swyddfeydd post llwyddiannus y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa i gynghori ymgeiswyr yn y dyfodol.

Ategwyd y galw am fwy o gylchoedd o gymorth grant, gan sawl un yn yr arolwg rheoli, a fynegodd ddiddordeb mewn ymgeisio am unrhyw gylchoedd yn y dyfodol ac a bwysleisiodd yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu heb gymorth. Awgrymodd un y dylid ariannu 50% o gostau cymeradwy i swyddfeydd post mewn ardaloedd llai anghenus.

Enghraifft o arfer da: Swyddfa Bost Llangadog a'r Gymuned:

Ail-agorwyd y swyddfa bost yn Llangadog yn sir Gaerfyrddin yn swyddogol ar 2^{il} Rhagfyr 2005, ar ôl gwaith adnewyddu mawr ar yr adeilad a ariannwyd o dan y Gronfa. Roedd y prosiect yn cynnwys darparu technoleg at ddefnydd y gymuned leol. Mae'r Is-bostfeistr Richard Morgan wedi sefydlu grŵp cymunedol yn y pentref, gyda'r nod o gynnal canolfan dysgu TG i unigolion yn y siop - yn enwedig i'r henoed a phobl anabl. Mae'r swyddfa bost wedi lansio gwefan gymunedol mewn partneriaeth â Balchder Bro.

Ym mis Medi 2005 enillodd y swyddfa wobwr Swyddfa'r Post Cyf i Gymru a'r Gororau am y Swyddfa Bost Gymunedol Orau, gan gael clod arbennig ar lefel y DU am y rôl bwysig y mae'r swyddfa yn ei chwarae mewn mentrau cymunedol lleol gyda phlant ysgol a phobl ag anableddau dysgu.

Enillodd y swyddfa bost wobwr hefyd yng nghystadleuaeth 'The Post Office House Doctor' am weddnewid ymddangosiad y gangen ar gyllideb gyfyngedig.

Dywedodd Mr Morgan 'Mae'r Swyddfa Bost wedi cael ei hadnewyddu i greu mwy o le gyda chyfleusterau gwell sy'n cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Yn yr adran manwerthu papurau newydd cynigir nifer fawr o roddion traddodiadol, teganau, cardiau a deunyddiau ysgrifennu. Yn y swyddfa ar ei newydd wedd ceir cownter gwasanaethu cyfunol awtomataidd newydd, sy'n gwneud gwasanaethau'r swyddfa bost yn gyflymach ac yn haws eu defnyddio'.

'Mae'r gwahaniaeth yn wych - mae'r gymuned wrth ei bodd - hoffwn ddiolch o galon i Lywodraeth y Cynulliad - ar ôl 30 mlynedd o fasnachu rydym wedi cael cyfle i sicrhau dyfodol y siop yn ein cymuned'.

Amrywiaeth

Nid oedd dim data ar gael o Swyddfa'r Post Cyf nac o unrhyw ffynhonnell arall yn rhoi proffil o'r holl Is-bostfeistri/Is-bostfeistresi yng Nghymru. Felly cymharwyd y wybodaeth yn y taflenni monitro amrywiaeth ar gyfer y rhai y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa â'r darlun o ymatebion yn ei gyfarwydd. Dangosai'r dadansoddiad hwn y canlynol:

- Roedd y gwahaniaeth rhwng dynion a merched ar gyfer ceisiadau aflwyddiannus yn gyson â'r gwahaniaeth yn yr ymatebion i gyd.
- Ni welwyd dim tystiolaeth o duedd o blaid neu yn erbyn grŵp penodol wrth

ddosbarthu cyllid y Gronfa, nac o ran ymgeiswyr aflwyddiannus ar sail oedran, cenedligrwydd neu ethnigrwydd.

- Cafwyd canran ychydig yn uwch o brosiectau wedi'u cwblhau o dan y Gronfa lle roedd yr Is-bostfeistr/Is-bostfeistres yn dod o grŵp ethnig Asiaidd.
- Roedd nifer yr unigolion a nododd fod ganddynt anabledd yn rhy fach i ddod i gasgliadau pendant.

6.2 Canfyddiadau ymgynghoriadau â rhanddeiliaid

Bach iawn oedd yr ymateb i'r ymgynghoriad ehangach â rhanddeiliaid. Dim ond pwysleisio gwerth swyddfeydd

post i gymunedau, yn enwedig grwpiau diamddiffyn, a mynegi dymuniad i gadw a datblygu swyddfeydd post a wnaeth rhai o'r 11 o ymatebion.

Yn yr ymatebion hynny a ganolbwyntiodd ar effaith y Gronfa cafwyd sylwadau cyffredinol gadarnhaol:

- 'Nid oes amheuaeth ... fod y gronfa wedi bod yn llwyddiant mawr yn ein barn ni, a'i bod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gadw rhwydwaith dichonadwy o swyddfeydd post' (Golwg ar Bost Cymru).
- 'Fel ffodd o hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig, mae'r gronfa ddatblygu yn gyfrwng gwych' (y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol).
- 'Mae'n amlwg bod y Gronfa wedi bod o fudd mawr i rwydwaith Swyddfa'r Post yng Nghymru ac rydym yn falch iawn bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd y cam hwn ac wedi cynnig pedwar cylch o gyllid sylweddol i ganghennau mewn ardaloedd difreintiedig ac ynysig. Cafwyd llawer o enghreifftiau ... lle mae'r Gronfa wedi gwneud cryn wahaniaeth i ddichonoldeb cangen yn y dyfodol a lle mae'r arian wedi cael ei wario'n dda' (Grŵp y Post Brenhinol).
- 'Mae cronfa o'r fath yn sicr yn bwysig iawn i ddyfodol cymunedau gwledig. Mae llawer o wasanaethau, busnesau a lleoliadau eraill lle mae pobl yn cyfarfod â'i gilydd, gan gynnwys ysgolion, tafarndai, siopau a bysiau, yn prysur ddiflannu mewn ardaloedd anghysbell; a heb ganolbwynt megis swyddfa bost, dirywio a wna unrhyw gymuned Nid wyf wedi clywed dim byd ond canmoliaeth am y cynllun' (Merched y Wawr).

- 'Roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn, gan ei gwneud yn bosibl i wasanaeth gwerthfawr iawn barhau a fyddai fel arall wedi bod mewn perygl o gael ei golli i'r gymuned' (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot).
- 'Mae'r Gronfa wedi cyfrannu tuag at barhad y pum cangen o Swyddfa'r Post mewn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru' (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent).

Ym marn Golwg ar Bost Cymru, y gwelliannau mewn cyfleusterau i bobl anabl oedd yr effaith gymdeithasol neu gymunedol fwyaf a gafwyd, wedyn gwelliannau mewn cyfleusterau i gwsmeriaid eraill: 'The latter would include improvements to the ambience/ environment contributing, no doubt, in a small but significant way towards community well being and, of course, towards ensuring the continuation of post office services within the community'. Fodd bynnag, cododd bryder ar sail y dystiolaeth anecdotaidd ynglŷn â'r effaith bosibl ar fusnesau lleol eraill: 'Comments have been made to some of my members ... to the effect that other small retail businesses in the locality have suffered through what is perceived as unfair competition in so much that any improvements that they wish to carry out have to be fully funded by them ... this information is supplied for information only and I would not wish to make any comment about its validity or otherwise'. Er yn reddfodol y tybid bod effeithiau ar fusnesau lleol eraill yn anochel, ni chafwyd unrhyw ymatebion eraill i'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid i awgrymu bod hyn wedi bod yn broblem, er bod barn nifer o sefydliadau masnach a busnes wedi cael ei geisio (gweler atodiad 3). Yn wir, awgryma'r dystiolaeth

o'r astudiaethau achos yn gryf mai effaith fuddiol a gafwyd ar fusnesau lleol eraill, os cafwyd effaith o gwbl, drwy gynyddu nifer y cwsmeriaid yn yr ardal yn gyffredinol. Mae'r dystiolaeth hon o effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol eraill yn gyson â chanfyddiadau'r gwerthusiad o Gronfa Swyddfeydd Post mewn Ardaloedd Trefol Difreintiedig yn Lloegr.

Er bod y safbwyntiau a fynegwyd am effaith y Gronfa yn gadarnhaol yn gyffredinol, gwnaeth yr ymatebwyr sawl sylw ar gynllun y Gronfa ac awgrymiadau ar gyfer ei gwella mewn cylchoedd yn y dyfodol. Roedd Dinas a Sir Abertawe yn poeni nad oedd swyddogion yn gweithio mewn cymunedau wedi cael profiad o'r Gronfa: 'If one of the aims of the Fund was to improve the sustainability of post offices in deprived or isolated areas then perhaps more could have been done to raise awareness with community based officers.'

Cydnabu grŵp y Post Brenhinol i drafodaethau gael eu cynnal gyda Swyddfa'r Post Cyf yn genedlaethol cyn lansio'r cynllun, ond haerodd ar y pryd nad oedd fawr ddim trafodaeth â thîm Materion Cymreig a Chysylltiadau Allanol y Post Brenhinol, a bod cyfle wedi'i golli. Dywedodd y Post Brenhinol: 'The consequences arising from this lack of consultation included:

- Grants made that were unrelated to the levels of actual public usage of branches;
- Money awarded without knowledge of what training and capacity building might have been necessary to make optimum use of it;
- Initially (until a step check was later introduced) PODF administrators were unaware of any future plans by POL to close applicant branches'.

Dylid nodi bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gwadu'n gryf yr haerriad hwn. Nid yw cofnodion o gyfarfodydd a galwadau ffôn yn y ffeiliau a thrafodaethau â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a oedd yn ymwneud â datblygu'r Gronfa yn ategu'r awgrym nad oedd digon o ddeialog. Yn hytrach maent yn awgrymu bod yr ymgynghori mawr â phartneriaid, gan gynnwys Consignia a Swyddfa'r Post Cyf, wedi chwarae rhan sylweddol i ddatblygu'r gronfa. Ymddengys bod trydydd pryder y Post Brenhinol yn anghywir, gan fod ffurflenni cais am bob cylch o'r Gronfa wedi cynnwys yr angen i gadarnhau bwriadau Swyddfa'r Post Cyf ynglŷn â chau canghennau, a chan ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr drafod eu cynlluniau gyda Swyddfa'r Post Cyf a rhoi datganiad gan Swyddfa'r Post Cyf yn cymeradwyo'r prosiect.

Eto i gyd, mae dau bwynt cyntaf y Post Brenhinol yn codi pryderon dilys am gynllun y Gronfa. Cafodd y pwynt ynglŷn â chysylltu'r grant â hyfforddiant busnes, meithrin gallu a chyngor ei godi gan Lygad Busnes Sir Benfro hefyd:

'It would seem appropriate to tie in such support with business development functions available through the General Business Advisory Service (GBAS) available through the WDA sub contractors in order to lever up the degree of business knowledge and skill in the post office sector.... Integration, rationalisation and co-ordination with the existing business support functions would probably lead to considerable savings and the development of business acumen in the sector.'

Gofynnodd Golwg ar Bost Cymru p'un a oedd yr 'original parameters extending to rural isolated and urban deprived offices' yn rhy fympwyol ac yn rhy gul, gan anwybyddu pocedi o amddifadedd mewn ardaloedd gweddol ffyniannus fel arall.

Awgrymodd y sefydliad y dylai pob is-swyddfa bost fod yn gymwys i wneud cais mewn unrhyw gylchoedd yn y dyfodol, ond y dylid blaenoriaethu cyllid yn rhannol ar sail angen cymdeithasol.

Bu cefnogaeth gyffredinol i ragor o gylchoedd yn y dyfodol a nododd Llygad Busnes Sir Benfro fod y gronfa wedi denu mwy o geisiadau nag y gallai ddyfarnu

cyllid iddynt a bod pum swyddfa bost wedi gwneud ymholiadau ers cau cylch 4. Cydnabu Cyngor Gwynedd ei bod yn rhesymegol canolbwyntio adnoddau ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ond cododd y posibilrwydd o estyn cymorth i ardaloedd llai difreintiedig, gan nodi bod pum swyddfa bost mewn ardaloedd anghymwys wedi mynegi diddordeb.

Enghraifft o Arfer Da: Swyddfa Bost Gwyddelwern

Mae Swyddfa Bost a Siop Gwyddelwern yn gwasanaethu pentref o 500 o bobl mewn ardal wledig yn sir Ddinbych. Dyma'r unig siop am 10 milltir ar hyd darn o ffordd yr A494. Dyfarnwyd grant iddi o dan y Gronfa i wneud gwaith adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys prynu cyfarpar newydd a gwella diogelwch. Roedd y prosiect yn cynnwys darparu cynhyrchion newydd gan gynnwys diodydd poeth a thoesenni ffres yn bennaf i ymwelwyr, a gosod canolfan TGCh er budd y gymuned leol. Nodir bod y prosiect a ariannwyd wedi rhoi 'delwedd fwy proffesiynol', wedi gwneud y busnes yn fwy dichonadwy yn fasnachol, wedi estyn oriau agor y siop, wedi arwain at gynnydd bach mewn incwm a nifer y cwsmeriaid ac wedi creu swydd ran amser newydd.

Yn ôl Hugh Evans, Cyngorydd Lleol, mae'r swyddfa bost yn 'hanfodol' a dywedodd mai gwanhau a wnâi'r gymuned hebddi, ac y byddai llai o gysylltiadau cymdeithasol, a gâi effaith fawr ar allgáu cymdeithasol ymhlith grwpiau diamddiffyn megis pobl hŷn.

Pwysleisiodd Geraint Jones, rheolwr Swyddfa Bost Gwyddelwern, y problemau sy'n deillio o natur ynysig ardaloedd gwledig a'r ffaith bod llawer o bobl hŷn heb gludiant ac na fyddent yn gallu codi eu pensiynau a defnyddio gwasanaethau hanfodol eraill heb y swyddfa bost. Nododd y byddai llawer o bobl hŷn yn gorfod dibynnu ar 'ewyllys da' pobl eraill i fynd â hwy i'r swyddfa bost agosaf, gan arwain at golli annibyniaeth ac effaith ariannol pe na bai swyddfa bost.

Cytunodd Sandra Carroll, Swyddog Datblygu'r Strategaeth Pobl Hŷn i Sir Ddinbych fod y swyddfa bost yn hanfodol i alluogi grwpiau diamddiffyn megis pobl hŷn i barhau'n annibynnol a chymryd rhan mewn cymdeithas.

6.3 Canfyddiadau astudiaethau achos

Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaethau achos, fel y nodwyd uchod, yn fwy tebygol o fod yn gadarnhaol ynglŷn â'r Gronfa na'r cyffredin. Roedd yr hyn a ddywedwyd am yr effaith ar fusnes y prosiectau a ariannwyd yn ffafriol iawn. Nodir eu sylwadau yn llawn yn Atodiad 5, ond yn gryno:

- Dywedodd Is-bostfeistr Swyddfa Bost Bargod y byddai'r swyddfa bost wedi cau oni bai am gyllid y Gronfa, ond ei bod yn ddichonadwy bellach oherwydd y prosiect a ariannwyd. Mae'r prosiect wedi cynyddu incwm y busnes, nifer y cwsmeriaid, oriau agor y swyddfa bost a nifer y swyddi a gynhelir gan y busnes. Cyfeiriodd yr Is-bostfeistr ac eraill at rôl economaidd a chymdeithasol y swyddfa bost yn y gymuned, a'i phwysigrwydd yng nghyd-destun y cynlluniau i ailddatblygu Bargod.
- Roedd yr Is-bostfeistr yn Grand Avenue, Trelái o'r fan y byddai'r swyddfa bost wedi cau oni bai am gyllid y Gronfa, a fyddai wedi cael effaith sylweddol ar weddill y siopau ar Grand Avenue. O ganlyniad i'r prosiect cafwyd cynnydd bach ond cyson ym musnes y swyddfa bost a'r siop, oriau agor hwy i'r siop, a mwy o wasanaethau swyddfa bost ar gael, diogelu'r pum swydd bresennol a bywoliaeth Mr a Mrs Hopkins, a chreu swydd newydd.
- Nododd yr Is-bostfeistres yn Llangurig effaith sylweddol ar incwm yn sgîl y prosiect, ymateb da gan gwsmeriaid i'r dystiolaeth o fuddsoddiad cyhoeddus yn y gymuned, ac estyn oriau gwaith y cynorthwy-ydd rhan amser yn y siop.

7. Casgliadau ac argymhellion

7.1 Casgliadau

Effaith y Gronfa ar fusnesau swyddfeydd post a gafodd gyllid

Dangosodd y gwerthusiad fod y Gronfa wedi cael effaith gadarnhaol, yn gyffredinol, ar ddichonoldeb masnachol y swyddfeydd post a gafodd gyllid. Mae llawer o fusnesau swyddfeydd post yn gweithredu'n llwyddiannus o ddydd i ddydd am fod gorbenion bach ganddynt, ond nid oes llawer o gyfalaf ar gael iddynt ac ni allant ariannu gwaith adnewyddu. Felly mae symiau cyfalaf o bryd i'w gilydd yn gallu cael effaith sylweddol ar barhad swyddfa bost.

Awgryma'r dystiolaeth y canlynol:

- Mae'r Gronfa wedi cadw ar agor wyth swyddfa bost a'u busnesau cysylltiedig a fyddai fel arall wedi cau. Mae 28 o Is-bostfeistri/is-bostfeistresi eraill yn ansicr p'un a fyddent yn parhau i fod yn weithredol oni bai am y Gronfa.
- Ariannwyd 83 o brosiectau eithaf sylweddol gan y Gronfa, prosiectau na fyddent fel arall wedi mynd rhagddynt. Byddai'r gweddill wedi mynd rhagddynt ond mewn ffordd fwy cyfyngedig neu, mewn ambell achos, yn ddiweddarach. Rhaid pwysu a mesur y canfyddiad hwn yng ngoleuni'r ffaith bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud i nifer fawr o swyddfeydd post na chawsant gyllid o dan y Gronfa yn ystod yr un cyfnod.
- Teimlai bron bob un o'r rhai y dyfarnwyd cyllid iddynt fod y Gronfa wedi gwneud eu busnes yn fwy masnachol ddichonadwy.
- Mae swyddfeydd post sydd â phrosiect o dan y Gronfa yn fwy tebygol o weld

cynnydd mewn incwm manwerthu a nifer y cwsmeriaid na'r rhai heb brosiect. Mae'r rhai sydd â phrosiect wedi'i gwblhau yn fwy tebygol o lawer o gynyddu eu busnes manwerthu.

- Yr elfennau o'r prosiect a ystyrir yn 'hynod fuddiol i gynyddu busnes' gan y rhai sydd wedi cynyddu eu hincwm manwerthu, oedd gwelliannau adeileddol ac esthetig a mesurau diogelwch.
- Helpodd y Gronfa i ddenu ymhell dros hanner miliwn o bunnau o fuddsoddiad preifat yn seilwaith rhwydwaith y swyddfeydd post.

Effaith y Gronfa ar y gymuned a'r economi leol

Dangosodd y gwerthusiad fod y Gronfa wedi cael effaith gadarnhaol, yn gyffredinol, ar gymunedau ac economïau lleol y swyddfeydd post a gafodd gyllid.

Awgryma'r dystiolaeth y canlynol:

- Teimlai bron bob un y dyfarnwyd grant iddo fod y Gronfa yn gyffredinol wedi'i gwneud yn haws i ddefnyddio gwasanaethau'r swyddfa bost yn yr ardal.
- Roedd pob un y dyfarnwyd grant iddo o'r farn bod y prosiect a ariannwyd wedi gwneud eu busnes yn fwy buddiol i'r gymuned leol.
- Mae swyddfeydd post y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa, yn enwedig y rhai lle mae'r prosiect wedi'i gwblhau ac mae'r busnes wedi'i sefydlu ar ôl y prosiect, yn fwy tebygol o estyn oriau agor y swyddfa bost a'r siop na'r rhai na ddyfarnwyd cyllid iddynt.

- Arweiniodd y Gronfa at greu tua 80 o swyddi rhan amser newydd mewn ardaloedd difreintiedig neu ynysig yng Nghymru.
- Ar draws ystod o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, cafwyd mwy o welliannau yn y swyddfeydd post y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan y Gronfa na'r rhai na ddyfarnwyd cyllid iddynt. Gwelir y gwahaniaethau trawiadol o ran mynediad neu gyfleusterau gwell i bobl anabl, a rôl gryfach i'r swyddfa bost fel canolbwynt cymdeithasol i'r ardal.
- O blith yr ymatebwyr i'r arolwg, roedd 10 o swyddfeydd post â phrosiectau o dan y Gronfa wedi cyflwyno mynediad i'r Rhynggrwyd/TG, ac roedd 5 wedi cynnal credyd undeb neu wasanaeth cyngori ar ddyled, ond nid oedd yr un swyddfa bost heb brosiect o dan y Gronfa wedi cyflwyno'r naill gyfleuster na'r llall. Awgryma hyn o bosibl fod cyflwyno'r gwasanaethau hyn yn gofyn am arian ysgogi drwy fuddsoddiad cyhoeddus.
- Mae perthynas rhwng cyllid o dan y Gronfa a darparu mwy o gynhyrchion o ffynonellau lleol a meithrin cysylltiadau newydd â busnesau a chyfleusterau lleol eraill, gan awgrymu effaith ar y rhwydwaith economaidd lleol sy'n mynd y tu hwnt i'r effaith uniongyrchol ar y busnesau a gafodd gyllid. Ceir tystiolaeth gryfach o effaith gadarnhaol nag effaith negyddol ar fusnesau lleol eraill.
- Ar draws yr holl brosiectau, gellir amcangyfrif bod y Gronfa wedi 'prynu' dwy ystafell gymunedol, 30 o hysbysfyrdau cymunedol, cynnal 10 undeb credyd neu wasanaeth cyngori ar ddyled, gwell mynediad neu gyfleusterau i bobl anabl mewn 62 o swyddfeydd post a darparu TG

neu'r Rhynggrwyd mewn 20 o safleoedd newydd.

- Yr elfennau o brosiectau a ystyrir yn 'hynod fuddiol' i'r gymuned yn amlach na dim oedd mesurau diogelwch a gwelliannau adeileddol ac esthetig.
- Cafwyd teimlad cryf bod buddsoddiad cyhoeddus grantiau'r Gronfa wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder llawer cymuned.

Gweinyddu'r Gronfa

Cyfyngedig fu'r adnoddau staffio a neilltuwyd ar gyfer cynllunio a gweithredu'r Gronfa o fewn Llywodraeth y Cynulliad, a bu peth trosiant ymhlith y staff.

Gwnaed gweithgareddau megis gweinyddu'r Gronfa, rheoli cofnodion, monitro prosiectau, rheolaeth ariannol, a gohebu â'r rhai y dyfarnwyd grant iddynt a'u cynorthwyo i safon dda.

Ceir tystiolaeth nad oedd nifer fach o Is-bostfeistri/Is-bostfeistresi a oedd yn gymwys i gael cyllid o dan y Gronfa yn ymwybodol o fodolaeth y Gronfa.

Bu'r oedi mawr rhwng cylch 2 a chylch 3 yn broblem i nifer o ymgeiswyr. Roedd cyflwyno Arwystl cyfreithiol ar eiddo a oedd yn cael cyllid yn feichus yn weinyddol, achosodd gryn bryder i nifer fawr o ymgeiswyr a chryn oedi cyn dechrau sawl prosiect. Eto i gyd, roedd yn fesur pwysig i ddiogelu buddsoddiad cyhoeddus ac ymddengys iddo atal grantiau rhag cael eu dyfarnu i nifer o unigolion na allent warantu y byddai eu swyddfa bost yn parhau i fod yn weithredol.

Mae cydgysylltu â Swyddfa'r Post Cyf wedi gwella dros gyfnod y Gronfa, a chynhelir cyfarfodydd cydgysylltu yn rheolaidd erbyn hyn. Ceir tystiolaeth gymysg ynglŷn â digonolrwydd trefniadau ymgynghori a chydgyssylltu tra bod y Gronfa yn cael ei datblygu.

Amrywiol iawn oedd safon y ceisiadau a'r wybodaeth ategol. Dechreuodd swyddogion fynnu cael gwybodaeth foddhaol wrth i'r amser fynd heibio. Nid oedd yn ofynnol i ymgeiswyr geisio cyngor busnes na chyflwyno cynllun busnes llawn. Aseswyd cynigion mewn ffordd gyson ond nid oedd yr asesiad yn cynnwys ffactorau pwysig megis dichonoldeb y swyddfa bost ar y pryd neu yn y dyfodol. Byddai wedi bod yn fuddiol pe bai Swyddfa'r Post Cyf wedi cymryd mwy o ran yn y broses o asesu cynigion a chymeradwyo manylion prosiectau. Dylid bod wedi cymeradwyo cynigion ar sail y ceisiadau gorau, yn hytrach nag ar sail cyrraedd rhyw drothwy o bwyntiau a bennwyd ymlaen llaw, er mwyn sicrhau nad aethpwyd y tu hwnt i derfyn y gyllideb.

Cynllun a rhesymeg y Gronfa

Nod penodol y Gronfa oedd helpu i gadw a datblygu swyddfeydd post a oedd yn bodoli eisoes er mwyn cydnabod eu rôl gymdeithasol a chymunedol. Ni cheisiodd ac nid honnodd ei bod yn mynd ati'n strategol i ad-drefnu rhwydwaith y swyddfeydd post, er enghraifft drwy gefnogi'r swyddfeydd post hynny a fyddai'n fwy tebygol o fod yn fasnachol ddichonadwy, neu'r rhai mewn lleoliadau arbennig o dda. Gweithredai yng nghydestun Ail-lunio'r Rhwydwaith Trefol a dim ond y swyddfeydd trefol yr oedd Swyddfa'r Post Cyf yn bwriadu eu cadw ar agor o dan Ail-lunio'r Rhwydwaith Trefol a gefnogwyd gan y Gronfa, ond ni cheisiodd gynllunio rhwydwaith cynaliadwy na 'chefnogi enillwyr'.

Roedd y ffordd y gweithredai'r Gronfa yn addas ar gyfer y cyd-destun polisi ar y pryd a rôl a buddiannau polisi Llywodraeth y Cynulliad. Cymerwyd mesurau priodol i sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus wedi'i ddiogelu rhag penderfyniadau i gau

swyddfeydd post, drwy sicrhau gwarant gan Swyddfa'r Post Cyf, gan unigolion y dyfarnwyd grant iddynt a thrwy Arwystl ar eiddo. Nid yw'r un swyddfa bost a gafodd gyllid o dan y Gronfa wedi cau hyd yn hyn.

Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â dyfodol rhwydwaith y swyddfeydd post gwledig, ni fyddai'n ddoeth defnyddio arian cyhoeddus yn y fath fodd mwyach o leiaf mewn perthynas â swyddfeydd post gwledig. Byddai'n bwysig cael eglurder ynglŷn â chyfeiriad y rhwydwaith yn yr hirdymor, a threfniadau hirdymor Llywodraeth y DU o ran rhoi cymorth i swyddfeydd post nad ydynt yn fasnachol er mwyn cydnabod eu gwerth cymdeithasol, cyn buddsoddi rhagor o arian Llywodraeth y Cynulliad yn y ddarpariaeth bresennol. Pan fo eglurder o'r fath ynglŷn â'r dyfodol, ac os bydd y rhagolygon ar gyfer y rhwydwaith yn dda, dengys profiad y Gronfa fod dadl gref dros gynlluniau grant o'r fath, er mwyn rhoi cyfalaf i helpu busnesau sy'n brin o gyfalaf at ddibenion penodol. Gallai'r dibenion gynnwys uwchraddio seilwaith y swyddfeydd post, arian ysgogi ar gyfer ehangu busnesau swyddfeydd post i ddiwallu anghenion cymunedol eraill, neu hwyluso cysylltiadau rhwng swyddfeydd post a gwasanaethau neu gyfleusterau'r sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol.

Amcan cyffredinol y Gronfa oedd helpu i gadw a datblygu swyddfeydd post mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru. Roedd hwn yn nod rhesymol, oherwydd dengys tystiolaeth ymchwil fod colli swyddfa bost leol yn cael effaith anghymesur ar gymunedau ynysig a chymunedau difreintiedig fel ei gilydd (adroddiadau ERM a Serving the Community). Fodd bynnag, ni ddylid cymryd yn ganiataol y dylid targedu unrhyw gyllid yn y dyfodol yn ddaearyddol fel y targedwyd y Gronfa hon.

Ystyr 'difreintiedig' yn ôl y diffiniad a roddwyd at ddibenion y Gronfa oedd 'difreintiedig a/neu ynysig', ac roedd ar gael yn y 125 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o dan y Mynegai Amddifadedd Lluosog, a'r 125 o ardaloedd mwyaf ynysig yng Nghymru wledig fel y'u diffiniwyd gan barth y Mynegai Amddifadedd Lluosog sy'n ymwneud â Mynediad at Wasanaethau. Fel y digwyddodd, nid oedd gorgyffwrdd rhwng y ddau grŵp o ardaloedd. Felly roedd swyddfeydd post gwledig yn gymwys i gael grant ar sail natur ynysig eu cymunedau. Nid oes tystiolaeth bod mwy o amddifadedd yn y cymunedau gwledig cymwys nag mewn cymunedau eraill. Dengys cyngor gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth y Cynulliad nad oes crynodiadau uchel o bobl ddifreintiedig yng Nghymru wledig, bod canran y bobl ddifreintiedig yng Nghymru wledig ychydig yn llai yn gyffredinol nag y disgwylid yn ôl cyfran y boblogaeth gyffredinol, a bod Cymru wledig, dros ystod fawr o ddangosyddion economaidd-gymdeithasol, yn tueddu i wneud dipyn yn well na Chymru yn gyffredinol. Mae amddifadedd a chyfoeth yn tueddu i gyd-fodoli'n agosach at ei gilydd, gyda phocedi o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yn llai o faint ac yn fwy cyfartal eu dosbarthiad na phocedi mewn ardaloedd trefol. Felly mae'n anodd targedu adnoddau at grwpiau diamddiffyn yng Nghymru wledig ar sail ddaearyddol. Nid oes dim tystiolaeth bod cymunedau gwledig y dyfarnwyd cyllid i'w swyddfeydd post o dan y Gronfa yn fwy difreintiedig neu ddiamddiffyn na chymunedau gwledig eraill, ac eithrio o ran pellter i gyfleusterau eraill. Ymhlyg yn y Gronfa roedd y nod o fynd i'r afael â phroblemau gwahanol y swyddfeydd post gwledig a'r swyddfeydd post trefol a ariannwyd o dan y Gronfa, ond nid oedd hyn yn rhan o'i chynllun o ran amcanion na meini prawf asesu.

Efallai fod dadl dros sicrhau bod unrhyw gyllid yn y dyfodol ar gael i bob swyddfa bost yng Nghymru, ond bod angen yn cael ei ystyried ar lefel leol iawn wrth asesu cynigion. Pe bai cyllid yn parhau i gael ei ddyfarnu i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig gallai hynny arwain at ariannu'r ardaloedd mwyaf anghenus ac at greu ail haen o ardaloedd na fyddent ond ychydig yn llai anghenus ond heb hawl i gael grant. Pe defnyddid sail ddaearyddol i bennu cymhwyster, efallai y byddai'r Mynegai newydd o Amddifadedd Lluosog yn nodi'n well yr ardaloedd a'r pocedi mwyaf anghenus yn enwedig. Fodd bynnag, yr hen Fynegai Amddifadedd Lluosog a ddefnyddiwyd ar gyfer y Gronfa oedd y dangosydd gorau a oedd ar gael ar y pryd. Roedd ei ddefnydd yn gyson â Cymunedau yn Gyntaf, sef rhaglen adfywio cymunedau Llywodraeth y Cynulliad.

Ystyriai'r Gronfa fusnesau swyddfeydd post yn eu cyfanrwydd, heb fynnu bod gwasanaethau swyddfeydd post, elfennau manwerthu neu elfennau cymunedol yn cael eu hystyried ar wahân. Mae hyn yn ymddangos yn rhesymol o gofio rhyngddibyniaeth yr elfennau hyn o'r busnes.

Byddai'r broses werthuso wedi esgor ar ganfyddiadau mwy pendant pe bai'r Gronfa wedi nodi ac wedi cytuno ar ddangosyddion perfformiad mesuradwy ar y cychwyn a phe bai mesuriad sylfaenol wedi cael ei gymryd.

7.2 Argymhellion

Mae'r gwerthusiad hwn yn argymhell na ddylai Llywodraeth y Cynulliad ddarparu rhagor o gyllid ar gyfer y rhwydwaith gwledig nes bod Llywodraeth y DU a Swyddfa'r Post Cyf wedi dod i gytundeb ynglŷn â'i gyfeiriad a'i gyllid yn y dyfodol, ac oni bai bod modd cadarnhau'n weddol sicr y byddai'r swyddfeydd post sy'n cael cyllid yn parhau ar agor yn y tymor canolig

o leiaf. Yn yr un modd, dim ond lle mae dichonoldeb swyddfeydd post trefol yn y dyfodol yn weddol ddiogel y dylid rhoi rhagor o gyllid iddynt.

Efallai y bydd rhai o ganfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad hwn yn ddefnyddiol i lywio datblygiad cynlluniau grant Llywodraeth y Cynulliad mewn meysydd polisi gwahanol yn y dyfodol, sef:

- Dylai amcanion cyffredinol y cynllun grant fod yn glir, yn gryno, yn gyson ac yn fesuradwy;
- Dylid cynllunio sut y câi'r cynllun ei werthuso a dylai hynny fod yn rhan o'r cynllun o'r cychwyn cyntaf, gydag amcanion mesuradwy yn cael eu pennu, dangosyddion yn cael eu nodi a llinellau sylfaen yn cael eu pennu. Dylai trefniadau gwerthuso fod yn gyson â pholisi diweddaraf Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn ag arfer gorau;
- Dylai amcanion ar lefel y prosiect fod yn glir ac yn fesuradwy, a dylent fod yn berthnasol i amcanion cyffredinol y cynllun. Dylid cytuno'n ysgrifenedig ar gerrig milltir at ddibenion monitro, a allai gyfeirio at brosesau neu'r hyn y cytunwyd i'w gyflawni (ee gosod cyfarpar, cwblhau gwaith adeiladu penodol). Yn ogystal â hynny dylid cytuno'n ysgrifenedig ar y canlyniadau terfynol, a ddylai ymwneud â'r prosiect a ariannwyd (ee defnydd o wasanaethau a chyfleusterau newydd, cynnydd mewn incwm).
- Dylai cynlluniau ddarparu ar gyfer hapddigwyddiadau, drwy ddarparu cyllideb a dirprwyo awdurdod i staff i newid gofynion y prosiect a symiau'r grant, yn unol â thelerau a chyllideb y cynllun.
- Dylai fod yn amlwg i ymgeiswyr pa wybodaeth a dogfennaeth sy'n ofynnol wrth wneud cais, a dylai'r meini

prawf ynglŷn â chymhwyster ac asesu cynigion fod yn dryloyw i ymgeiswyr.

- Dim ond lle mae'r holl waith papur angenrheidiol yn gyflawn ac yn foddhaol y dylid dyfarnu grantiau.

Er na fwriedir cynnal rhagor o gylchoedd o'r Gronfa ar ei ffurf bresennol ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod unrhyw wersi a ddysgwyd o'r Gronfa ar gael i lywio'r ffordd y mae llywodraeth y DU a'r llywodraeth yng Nghymru yn mynd ati i gynllunio unrhyw gymorth cyhoeddus i swyddfeydd post yn y dyfodol.

Efallai y bydd rhai o'r argymhellion canlynol yn berthnasol hefyd i gynlluniau eraill sydd â'r nod o gefnogi busnesau bach mewn ardaloedd gwledig neu ddifreintiedig.

O ran rhoi unrhyw arian cyhoeddus i swyddfeydd post yn y dyfodol argymhellir y canlynol:

- Dylai'r rhesymeg a'r amcanion cyffredinol fod yn glir. Er enghraifft, a yw'r cynllun yn cyfrannu at ddichonoldeb masnachol, neu'n rhoi gwerth ychwanegol mewn ffyrdd eraill, megis cyfleusterau cymunedol, cysylltiadau â mentrau eraill gan y llywodraeth, neu fanteision cymdeithasol yn unig.
- Dylid cydgysylltu'n agos iawn â Swyddfa'r Post Cyf wrth gynllunio'r cynllun, codi ymwybyddiaeth a chyhoeddusrwydd, pennu sut i ddewis swyddfeydd post ar gyfer cyllid, asesu cynigion a chynllunio prosiectau. Dylai hyn sicrhau bod datblygiadau yn unol â'r dystiolaeth ddiweddaraf o arfer gorau masnachol a bod Swyddfa'r Post Cyf yn gallu rhoi gwarant hirdymor y bydd swyddfeydd post sy'n cael cyllid yn parhau i fod yn weithredol.
- Dylai arian cyhoeddus fod yn amodol ar ddarparu cynllun busnes cadarn ar adeg gwneud cais sy'n dangos y gwerth y mae'r prosiect yn ei

ychwanegu, a'r angen i geisio cyngor a chael hyfforddiant lle y bo'n briodol. Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod cyngor addas o safon dda ar gael i ddarpar ymgeiswyr llwyddiannus fel rhan o'r broses ymgeisio ac ariannu.

- Dylid ystyried rhoi mathau eraill o gyngor ar arallgyfeirio, er enghraifft, rhannu profiadau'r rhai sydd eisoes wedi cael cyllid o dan y Gronfa, drwy rwydweithio neu e-gynadledda neu ddosbarthu'r Canllaw Arfer Da ar Arallgyfeirio i Swyddfeydd Post a baratowyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.
- Dylai'r broses o werthuso cynigion ystyried dichonoldeb ac effaith gadarnhaol a negyddol bosibl ar fusnesau lleol eraill;
- Ni ddylid ystyried gwaith adeiladu yn ddiben ynddo'i hun, ond dylid ei ariannu ar sail tystiolaeth glir o'r effaith a ragwelir (ee ar nifer y cwsmeriaid sy'n galw heibio, y gallu i ddiwallu angen cymunedol neu ddarparu gwasanaethau neu gynhyrchion newydd).
- Ni ddylid tybio mai meini prawf daearyddol yw'r ffordd orau o ddogni neu dargedu adnoddau. Dylai eu defnydd ddibynnu ar amcan penodol y cyllid, a dylid ystyried y posibilrwydd y gellid creu ardaloedd a gaiff y cyllid i gyd ac ardaloedd sy'n cael dim cyllid. O ran ardaloedd gwledig, dylid nodi nad yw natur ynysig yn cyfateb i amddifadedd.
- Dylid ystyried mewn ffordd greadigol sut y gellid hyrwyddo cysylltiadau rhwng swyddfeydd post a mentrau neu wasanaethau penodol eraill gan y sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol, er enghraifft gwasanaethau ar gyfer cynhwysiant ariannol, gan gynnwys undebau credyd (ond gan

sicrhau na thorrir rheoliadau'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol), Communities@one neu fentrau eraill sy'n hyrwyddo mynediad at TGCh neu'r Rhyngwrwyd yn y gymuned, neu gryfhau cysylltiadau â'r heddlu.

- Lle y bwriedir gosod arwystl cyfreithiol ar eiddo i ddiogelu buddsoddiad cyhoeddus, dylid caniatáu o leiaf dri mis ar gyfer hyn yn y broses o gymeradwyo cynigion.
- Dylid caniatáu i'r rhai y dyfernir cyllid iddynt wneud ceisiadau am elfennau o'r gwaith bob yn dipyn yn hytrach na gofyn iddynt gyflwyno un cais ar ddiwedd y prosiect.
- Dylai cymorth gydnabod bod angen i'r busnes cyfan lwyddo yn hytrach na thrin elfennau o fusnes ar wahân.
- Dylid ystyried ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyfrannu canran fach o gyfanswm costau'r prosiect.
- Byddai angen i unrhyw gyllid yn y dyfodol ystyried unrhyw grantiau a ddyfarnwyd eisoes o dan y Gronfa neu unrhyw gynlluniau eraill gan y Llywodraeth er mwyn sicrhau nad eir y tu hwnt i drothwyon Cymorth Gwladwriaethol.
- Nid yw pellter i'r swyddfa bost agosaf yn ffactor allweddol wrth ragweld effaith penderfyniadau i gau swyddfeydd post, ac ni ddylid defnyddio hynny i osod blaenoriaethau ar gyfer rhoi cymorth. Lle y mesurir pellter i swyddfeydd post neu gyfleusterau eraill dylid gwneud hynny yn nhermau amseroedd teithio yn hytrach na phellter uniongyrchol.
- Dylid gofyn i ymgeiswyr a ydynt wedi'u cofrestru am TAW.

Atodiad 1

Llyfryddiaeth

AXON solutions (Tach 2003) **Final report on the social and economic value of the rural post office network**

Environmental Resources Management (ERM) (Medi 2001) **Post Offices and Community Needs in Rural and Deprived Urban Areas**

ERM (2000) **The economic significance of post office branches in rural areas**

Future Foundation (Ebrill 2003) **The Future of the Rural Post Office Network, Postcomm**

NACAB (1995) **Rural Benefits: CAB evidence on the role of rural post offices branches in rural communities**

NERA a RAND Europe (Mehefin 2003) **Cost-benefit analysis of rural post office branches, Postcomm**

NERA (Gorffennaf 2005) **Final report for an Urban Network Reinvention Postcomm**

Daliadau'r Post Brenhinol ccc **Adroddiad a Chyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 28 Mawrth 2004**

NFSP **High Street Britain 2015 - response to all party parliamentary small shops consultation**

MORI (Gorffennaf 2004) **Sub-postmaster income - the impact of changes to the Benefits Payments system**

MORI (Tach 2003) **Assessment of the URP - research amongst post office customers, Golwg ar Bost Cymru**

ODPM Rhag 2005 **Evaluation of the Deprived Urban Post Office Fund**

PIU (2000) **Counter revolution: modernising the post office network, Swyddfa'r Cabinet**

Postcomm (Rhag 2001) **Serving the Community I - evidence of the community value of post offices in rural areas**

Postcomm (Rhag 2001) **Serving the Community II - evidence of the community value of post offices in Urban deprived areas**

Postcomm (Rhag 2001) **Serving the Community III - post offices in rural and urban deprived areas with no other shops or services**

Postcomm (Ion 2002) **Serving the Community IV - future business for post offices in rural and urban deprived areas**

Postcomm (Mawrth 2002) **Serving the Community V - the effect of post office closures**

Postcomm (Ebrill 2002) **Serving the Community VI - post offices' vulnerable customers in rural and urban deprived areas**

Postcomm (2001) **Post Offices, Customers and Communities**
(adroddiad blynyddol 2000-2001)

Postcomm (2002) **Access to Post Office Services: Time to Act**
(adroddiad blynyddol 2001-2002)

Postcomm (2003) **Banking on the Future** (adroddiad blynyddol 2002-2003)

Postcomm (2004) **Building a Viable Network** (adroddiad blynyddol 2003-2004)

Postcomm (Hyd 2005) **The Three R's: Research, Urban Renewal and the Rural Network**
(adroddiad blynyddol 2004-2005)

Postcomm (2003) **The Post in a Foreign Country: they do things differently there -
post office networks abroad** (heb ei gyhoeddi)

Golwg ar Bost Cymru (2004) **Postwatch visit to Japan**

Golwg ar Bost Cymru (2005) **Australasian market developments**, Arrowhead

Triangle/HI Europe (2002) **The Impact of Post Office Closures in the Rural Community**,
Golwg ar Bost Cymru

Cymdeithas Gwasanaethau Manwerthu Pentrefi (1998) **Village Shops and post office
branches: a guide to village investment**

ViRSA (1998) **The Social Value of Post Offices**

Arsyllfa Wledig Cymru (Medi 2004) **A Survey of Rural Services in Wales**

WAVES 1&2 **Sub-postmaster income - rural English perspective final report**,
NFSP a'r Countryside Agency

Atodiad 2

Holiadur a thaflen monitro amrywiaeth enghreifftiol

Mae'r canlynol yn amlinellu o un o'r tri arolwg a anfonwyd (yn ddwyieithog) i swyddfeydd post. Anfonwyd yr enghraifft hon at y rhai a gwblhaodd brosiectau'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post. Roedd y ddau arolwg arall yn gofyn cwestiynau tebyg, wedi'u teilwra i wneud synnwyr i wahanol grwpiau. Anfonwyd taflen monitro amrywiaeth ddwyieithog at bob cyfranogwr hefyd.

Adran 1: Manylion y Swyddfa Bost

Cwestiwn 1.1: Gofynnir i chi nodi'r manylion a ganlyn. Defnyddir y rhain at ddibenion croes-gyfeirio yn unig ac ni chânt eu cyhoeddi na'u datgelu i neb arall.

Enw'r Swyddfa Bost	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Enw'r Is-bostfeistr/Is-bostfeistres	
Ffôn	
Natur unrhyw fusnes(au) cysylltiedig (ee manwerthu/caffi/dim un)	
A oes siopau eraill yn yr anheddiad? (Oes/nac oes)	

Cwestiwn 1.2: Os oes gennych siop neu fusnes arall sy'n gysylltiedig â'ch Swyddfa Bost, a ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno â'r gosodiadau isod?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn siŵr	Ddim yn berthnasol
Ni fyddai fy musnes Swyddfa Bost yn ddichonadwy heb fy musnes cysylltiedig				
Ni fyddai fy musnes cysylltiedig yn ddichonadwy heb fy musnes Swyddfa Bost				

Adran 2: Gweinyddu grant o dan y Gronfa

Cwestiwn 2.1: A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno â'r gosodiadau isod?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn siŵr
Cefais wybod am y grant mewn amser rhesymol i ymgeisio			
Roedd y broses ymgeisio yn rhesymol o glir a hawdd i mi			
Cefais ddigon o gymorth a chynghor gan swyddogion y Cynulliad			
Roeddwn yn meddwl bod y trefniadau ar gyfer hawlio taliadau'r grant yn rhesymol o glir a hawdd			
Cafodd y grant ei dalu'n brydlon			
Roedd y trefniadau monitro'n glir i mi			
Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon ar y ffordd y cafodd y cynllun ei weinyddu			

Adran 3: effaith gyffredinol y grant o dan y Gronfa

Cwestiwn 3.1: A fyddai'r prosiect a ariannwyd o dan y Gronfa wedi mynd ymlaen heb arian y grant? Ticiwch un:

Byddai	
Byddai ond yn nes ymlaen	
Byddai ond ar ffurf fwy cyfyngedig	
Na fyddai	

Cwestiwn 3.2: A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno â'r gosodiadau isod?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn siŵr
Heb y Gronfa, mae'n fwy na thebyg y byddwn wedi cau'r busnes erbyn hyn			
Ar y cyfan, gwnaeth yr arian fy musnes yn fwy dichonadwy yn fasnachol			
Gwnaeth yr arian fy musnes yn fwy defnyddiol i'r gymuned leol			
Gwnaeth yr arian hi'n haws i bobl gael gwasanaethau Swyddfa'r Post yn yr ardal			

Adran 4: effaith ar y busnes

Cwestiwn 4.1: Ers cwblhau'r prosiect a ariannwyd o dan y Gronfa, sut y mae'ch oriau agor wedi newid?

	Cynyddu	Aros yr un peth	Lleihau
Busnes y Swyddfa Bost			
Siop (os oes un)			

Cwestiwn 4.2: Ers cwblhau'r prosiect a ariannwyd o dan y Gronfa, a ydych o'r farn bod nifer yr ymweliadau gan gwsmeriaid ag ochr Swyddfa'r Post y busnes wedi (ticiwch un):

Cynyddu'n sylweddol	
Cynyddu ychydig	
Aros yr un peth	
Lleihau ychydig	
Lleihau'n sylweddol	

Cwestiwn 4.3: Ers cwblhau'r prosiect a ariannwyd o dan y Gronfa, a ydych o'r farn bod nifer yr ymweliadau gan gwsmeriaid ag ochr fanwerthu'r busnes nad yw'n ymwneud â'r swyddfa bost (os oes un) wedi: (ticiwch un)

Cynyddu'n sylweddol	
Cynyddu ychydig	
Aros yr un peth	
Lleihau ychydig	
Lleihau'n sylweddol	

Cwestiwn 4.4: Ers cwblhau'r prosiect a ariannwyd o dan y Gronfa a yw incwm ochr fanwerthu'r busnes nad yw'n ymwneud â'r swyddfa bost (os oes un) wedi: (ticiwch un)

Cynyddu'n sylweddol	
Cynyddu ychydig	
Aros yr un peth	
Lleihau ychydig	
Lleihau'n sylweddol	

Cwestiwn 4.5: Faint o gymorth oedd pob un o'r elfennau a ganlyn yn y prosiect o ran cynyddu busnes? Nodwch os nad oeddent o gymorth, os oeddent o gymorth neu os oeddent o gymorth mawr.

	Sgôr			
	Nid oedd o gymorth	Roedd o gymorth	Roedd o gymorth mawr	Ddim yn berthnasol
Mynediad a chyfleusterau i bobl anabl				
Gwasanaethau cymunedol newydd				
Gwasanaethau newydd gan Swyddfa'r Post				
Cynhyrchion/gwasanaethau newydd yn y siop (nid yn y Swyddfa Bost)				
Mesurau diogelwch				
Gwelliannau adeileddol/esthetig				

Adran 5: effaith ar swyddi

Cwestiwn 5.1: Yn cynnwys eich swydd chi, faint o swyddi oedd/sydd yn cael eu cynnal gan eich busnes cyfan?

	Llawr amser	Rhan amser
Cyn y prosiect o dan y Gronfa		
Nawr		

Adran 6: effaith ar y gymuned

Cwestiwn 6.1: A oedd y prosiect y cawsoch grant ar ei gyfer o dan y Gronfa yn cynnwys un neu fwy o'r pethau isod? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)?

Ystafell gymunedol	
Hysbysfwrdd cymunedol	
Cynnal undeb credyd/rhoi cyngor ar ddyledion	
Rhoi mwy o gyngor ar wasanaethau cyhoeddus	
Rhoi mwy o gymorth i helpu cwsmeriaid i lenwi ffurflenni	
Stocio mwy o gynhyrchion o ffynonellau lleol	
Darparu mynediad i'r Rhynggrwyd neu TG	
Cysylltiadau newydd â busnesau neu gyfleusterau lleol eraill	
Gwell mynediad neu gyfleusterau i bobl anabl	
Rôl gryfach i'r swyddfa bost fel canolbwynt cymdeithasol i'r ardal	

Cwestiwn 6.2: Yn eich barn chi, pa mor werthfawr i'r gymuned leol oedd pob un o'r agweddau isod ar y prosiect?

Nodwch os nad oeddent yn werthfawr, os oeddent yn werthfawr neu os oeddent yn werthfawr iawn.

	Sgôr			
	Ddim yn werthfawr	Gwerthfawr	Gwerthfawr iawn	Ddim yn berthnasol
Mynediad a chyfleusterau i bobl anabl				
Gwasanaethau cymunedol newydd				
Gwasanaethau newydd gan Swyddfa'r Post				
Cynhyrchion/gwasanaethau newydd yn y siop (nid yn y Swyddfa Bost)				
Mesurau diogelwch				
Gwelliannau adeileddol/esthetig				

Adran 7: sylwadau eraill

Cwestiwn 7.1: Os oes gennych ragor o sylwadau am y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post, nodwch nhw yma:

HOLIADUR AMRYWIAETH

Rhyw

Gwryw ☐ Benyw ☐

Beth yw eich oedran?

30 neu yn is ☐

31-45 ☐

46-60 ☐

61 neu yn fwy ☐

A ydych yn ystyried bod gennych anabledd?

Ydw ☐ Nac Ydw ☐

Beth yw eich cenedligrwydd? Ticiwch un.

☐ Prydeinig neu Brydeinig Cymysg

☐ Seisnig

☐ Gwyddelig

☐ Albanaidd

☐ Cymreig

☐ Arall? (manylnwch os dymunwch)

Beth yw eich grŵp ethnig? Ticiwch un.

☐ Asiaidd (Bangladeshaid, Indiaidd, Pacistanaidd, Asiaidd arall)

☐ Du (Affricanaidd, Caribiaidd, du arall)

☐ Tsieineaidd

☐ Cefndir ethnig Cymysg

☐ Gwyn

☐ Arall? (manylnwch os dymunwch)

Atodiad 3

Rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy ac ymatebwyr

Age Concern Cymru
Busnes yn y Gymuned
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Cynhalwyr Cymru
Cyngor ar Bopeth Cymru
Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Comisiwn Hawliau Anabledd Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Ffederasiwn yr Is-bostfeistri (Cymru)
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol *
Siambrau Masnach Lleol
Cymdeithas Genedlaethol y Siopau Cyfleustra
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched (Cymru)
Merched y Wawr *
Un Llais i Gymru (corff ymbarél ar gyfer cynghorau tref a chynghorau cymuned);
Postcomm
Golwg ar Bost Cymru *
Post Brenhinol Cymru/Swyddfa'r Post Cyf (Cymru) *
Awdurdodau Unedol * (derbyniwyd ymatebion gan Ynys Môn, Blaenau Gwent, Ceredigion, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Gwynedd, Sir Benfro)
Cymdeithas Gwasanaethau Manwerthu Pentrefi
Cyngor Defnyddwyr Cymru
Canolfan Gydweithredol Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Pensiynwyr Cymru
Fforwm Gwledig Cymru
Awdurdod Datblygu Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

* *derbyniwyd ymateb*

Atodiad 4

Ymgynghoreion astudiaethau achos a chanllaw ar bynciau

Ymgynghoreion astudiaethau achos:

Ar gyfer pob ardal:

- AS
- AC
- Cynghorydd(Cynghorwyr) Sir
- Cyngor tref/cymuned
- Swyddog datblygu pobl hŷn
- Cydgysylltydd Cymunedau yn Gyntaf Lle y bo'n briodol
- Bargod: swyddog datblygu cymunedol
- Cynghorwyr Trosglwyddo Gwledig Swyddfa'r Post Cyf (ar gyfer astudiaethau achos gwledig)

Canllaw ar bynciau ar gyfer cyfweiliadau Swyddfa'r Post:

1. Diben y cyfweiliad a chyfrinachedd

2. Cefndir - yr ardal a wasanaethir:

Math o ardal, cysylltiadau ag ardaloedd/cyfleusterau eraill, siopau o fewn pellter cerdded, cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus, nodweddion y sylfaen cwsmeriaid - lefelau incwm, grwpiau diamddiffyn (pobl ag anableddau, pobl hŷn, rhieni unigol, heb gar), lefelau budd-daliadau a phensiynau, galw gan gwsmeriaid/tueddiadau cwsmeriaid, ble mae cwsmeriaid yn byw, sut maent yn teithio i Swyddfa'r Post.

3. Cefndir - Swyddfa'r Post:

Math a maint Swyddfa'r Post, faint o gwsmeriaid, prif fathau o fusnes Swyddfa'r Post, oriau agor - Swyddfa'r Post a busnes, busnesau cysylltiedig eraill - math, cydbwysedd rhwng, i ba raddau mae Swyddfa'r Post yn dibynnu ar fusnes arall ac i'r gwrthwyneb.

Taliadau uniongyrchol: unrhyw effaith ar niferoedd/mathau o gwsmeriaid, incwm Swyddfa'r Post.

Lefelau'r cyngor a roddir/help gyda llenwi ffurflenni - pa fath; unrhyw help arall ee eiriolaeth/gwybodaeth i dwristiaid; cydberthynas â busnesau lleol eraill - darparu gwasanaethau, manylion.

4. Proses y Gronfa:

Sut y daethant yn ymwybodol o'r Gronfa, y broses gwneud cais a'r ffurflen, amseru, y wybodaeth sydd ei hangen, canllawiau a chymorth, adborth, talu, monitro.

5. Y prosiect a ariennir:

Disgrifiad - bodlon?/edifar?/ôl-ddoethineb

Swyddfa'r Post yn bennaf neu fusnes arall yn bennaf, effaith ar y ddau.

Unrhyw elfennau a fyddai wedi cael eu gwneud beth bynnag?

Anawsterau neu fuddiannau annisgwyl.

Ymateb cwsmeriaid.

6. Cyhoeddusrwydd:

Arddangos poster? Ymateb y cwsmeriaid i boster? Unrhyw gyhoeddusrwydd ee y wasg leol. Ymateb i rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ymwybyddiaeth o'r rôl honno?

7. Effaith ar y busnes:

Fel y rhagwelwyd?

Nifer y cwsmeriaid - ochr Swyddfa'r Post a manwerthu

Incwm - Swyddfa'r Post a manwerthu

Nifer y swyddi

Oriau agor

Amrywiaeth o wasanaethau/cynhyrchion Swyddfa'r Post a manwerthu

Math o gwsmeriaeth ychwanegol (lleol/twristiaid/pobl ddiamddiffyn)

Beth fyddai wedi digwydd heb gyllid

Dichonoldeb canfyddedig gyda chyllid a heb gyllid

Incwm/elw gwirioneddol y busnes cyfan cyn ac ar ôl y prosiect

A fydddech erioed wedi ystyried cau?

Cymorth arall ee grant buddsoddi ail-lunio trefol?

Pa elfen oedd fwyaf buddiol o ran incwm - Pa un oedd y lleiaf buddiol?

Effaith ar fusnesau lleol eraill (a'r defnydd o adeiladwyr lleol)

Pa mor ddibynnol oedd Swyddfa'r Post ar fusnes arall ac i'r gwrthwyneb - a yw'r cydbwysedd wedi newid?

8. Effaith ar y gymuned:

Unrhyw elfennau cymunedol yn unig

Effaith ganfyddedig neu effaith wirioneddol ar y gymuned

Man cyfarfod/canolfan gymdeithasol

Pa fuddiannau a welwyd yn sgîl y prosiect?

Pa elfen oedd fwyaf buddiol o ran incwm a'r gymuned

Ymateb/cymorth y gymuned

Effaith ar grwpiau diamddiffyn

9. Eich rôl eich hun a chanfyddiadau o Swyddfeydd Post yn gyffredinol a'r un hon yn benodol:

Yn mwynhau'r rôl? Os felly, pa agweddau? Disgwyliadau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf?

Cymorth a roddir i gwsmeriaid diamddiffyn

Barn ar ddyfodol Swyddfeydd Post nawr - heriau a chyfleoedd allweddol

Ffactorau llwyddiant ar gyfer is-bostfeistri/is-bostfeistresi a Swyddfeydd Post unigol

Unrhyw angen neu alw am sgiliau busnes neu gyngor/hyfforddiant

Unrhyw hyfforddiant wedi'i gynnal - Awdurdod Datblygu Cymru neu eraill, pryd a pha mor ddefnyddio ydoedd?

Atodiad 5

Astudiaethau achos

Astudiaeth achos 1: Swyddfa Bost Bargod

Bargod

Bargod oedd y 52ail ward fwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog 2000. Mae'r AS lleol, Wayne David, yn disgrifio Bargod fel 'tref sydd wedi gweld dyddiau gwell', gyda lefel uchel o anweithgarwch economaidd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn bwriadu gweithredu cynllun mawr a radical ym Margod, gan ddyblu maint canol y dref a gwneud ochr ddeheuol y dref yn ganolbwynt iddo.

Y swyddfa bost

Lleolir y swyddfa bost ar y ffordd fawr drwy Fargod, ar ochr ddeheuol y dref. O dan y rhaglen adfywio arfaethedig, caiff ei lleoli yng nghanol newydd y dref.

Trosglwyddwyd yr awenau i'r Is-bostfeistr, Mr Yousef Badat, yn 2001. Roedd yn brif swyddfa bost brysur, yn cynnig yr ystod lawn o wasanaethau swyddfa bost gan gynnwys treth car, gwasanaeth gwirio pasbort, yswiriant teithio ac E111, ond y prif fathau o drafodion oedd budd-daliadau a phensiynau, talu biliau cyfleustodau a thrwyddedau teledu. Roedd Mr Badat hefyd yn gwerthu tocynnau'r loteri, ac roedd ganddo fwth tynnu lluniau, ond nid oedd unrhyw fusnes manwerthu cysylltiedig arall yn mynd rhagddo cyn derbyn cyllid o dan y Gronfa.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr gwael iawn pan gymerodd Mr Badat yr awenau ac roedd eisoes wedi llwyddo i gael arian grant gan Awdurdod Datblygu Cymru (£13,796) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (£15,000) ym mis Tachwedd 2002 i uwchraddio'r adeilad. Gan fod angen dod o hyd i arian cyfatebol o 50% ar gyfer y ddau grant, buddsoddodd Mr Badat symiau sylweddol o'i gyfalaf ei hun yn y busnes hefyd, gan gynnwys arian a godwyd drwy fenthyciadau.

Mae Mr Badat yn disgrifio ei sylfaen cwsmeriaid fel un lleol iawn a nododd ei bod yn anodd denu unrhyw gwsmeriaid newydd, am nad oedd llawer o bobl yn teithio drwy'r ardal gyfagos.

Yn sgîl cyflwyno taliadau uniongyrchol, nid oedd y swyddfa bost yn ddichonadwy mwyach fel busnes ar ei ben ei hun. Cyn cyflwyno taliadau uniongyrchol, nododd Mr Badat bod y swyddfa yn ymdrin â thrafodion gwerth tua £200,000 yr wythnos, a bod y swm hwn wedi gostwng i £98,000: 'Arferai fod yn brysur ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau, ond nawr dim ond ar ddydd Llun a dydd Mawrth rydym yn brysur'. Ceisiodd gadw cwsmeriaid ond, i gychwyn, canfu mai dim ond 'pobl a oedd yn pryderu am y swyddfa bost a phobl nad oeddent yn hoffi banciau, a phobl na allent agor cyfrif banc a oedd yn aros gyda ni.' Fodd bynnag, nododd fod rhai pobl a oedd wedi symud i'r banc wedi dychwelyd 'pan wnaethant ganfod bod yn rhaid iddynt dalu £25 am godi gormod - ac ni all rhai pobl fynd i'r banc - neu nid yw'r banc am gael eu cwsmeriaeth!'

Prosiect Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post (y Gronfa)

Clywodd Mr Badat am y Gronfa gan gynrychiolydd Swyddfa'r Post Cyf ar ddechrau 2003, a gwnaeth gais yn syth am yr uchafswm grant o £50,000 i'w alluogi i symud ei gownteri swyddfa bost ac agor siop cyfleustra ar yr un safle. Dyfarnwyd y swm llai o £36,664.70

iddo mewn cydnabyddiaeth am y grantiau a dderbyniwyd eisoes gan Awdurdod Datblygu Cymru a'r cyngor lleol. Cynigiwyd y grant ym mis Ebrill 2003 a thalwyd rhan olaf y grant ym mis Ionawr 2004, yn dilyn archwiliad o'r adeilad gan Swyddfa'r Post Cyf a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.

Roedd y gwaith a wnaethpwyd o dan y Gronfa yn cynnwys gosod cownter swyddfa bost pedwar safle newydd a gwaith ailwampio, trosi a gosod ffitiadau ar gyfer adran fanwerthu newydd. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys gosod nenfwd, goleuadau, llawr ac arwyddion newydd, a gosod rhewgell ar gyfer cynnyrch llaeth, rhewgell cist, til newydd a system ddiogelwch newydd.

Nod y prosiect oedd cyflwyno ystod eang o gynnyrch siop cyfleustra a gwrthbwysu'r golled sylweddol o ran incwm a ddeilliodd o gyflwyno taliadau uniongyrchol gydag incwm o'r siop newydd. Gwnaethpwyd y gwaith gan gwmni o Abertawe.

Gweinyddu'r grant a chyhoedduswyd

Canfu Mr Badat fod y broses gwneud cais yn 'hawdd' a nododd na fu'n rhaid aros yn hir cyn iddynt benderfynu rhoi'r grant. Derbyniwyd y taliadau yn gyflym ac roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gymwynasgar. Fodd bynnag, cafwyd dwy broblem: yn gyntaf, ni wnaethpwyd yn glir o'r cychwyn na fyddai Llywodraeth y Cynulliad yn talu'r TAW ar y gwaith; ac, yn ail, roedd staff y Cynulliad yn newid yn aml: 'roeddent yn newid pobl, roeddwn bob amser yn delio â pherson newydd'.

Effaith y prosiect

Nododd Mr Badat na fyddai'r swyddfa bost ar agor nawr heb grant y o dan y Gronfa: nid oedd yn bosibl rhedeg y swyddfa bost ar ei phen ei hun mwyach ac nid oedd yn gallu fforddio unrhyw fuddsoddiad personol pellach i greu'r siop gyfagos. Roedd y broses o gyflwyno'r siop wedi sicrhau bod y busnes yn ddichonadwy yn gyffredinol, ond ni fyddai'r naill elfen na'r llall yn ddichonadwy ar ei phen ei hun. Nododd swyddog datblygu busnes o Gyngor Caerffili gynnydd o 1,500 i 2,000 o gwsmeriaid ers y prosiect a chynnydd cyson o ran incwm y swyddfa bost. Nododd Mr Badat bod gan y siop drosiant o £1,700-£1,800 yr wythnos: 'Mae'n gwrthbwysu'r arian a gollwyd yn sgîl taliadau uniongyrchol'. Mae'r siop bellach yn gwerthu papurau newydd, llaeth, bara, tybaco a sigarennau, melysion, bwydydd cyffredinol, teganau bach.

Yn ei farn ef, y swyddfa bost oedd canolbwynt economaidd y gymuned, gan gynhyrchu cwsmeriaid ar gyfer sawl busnes arall yn yr ardal leol:

'Mae'r holl ardal yn elwa oherwydd y swyddfa bost - ni welwch unrhyw un yn cerdded o amgylch yma, i lawr yn y canol fe welwch bobl ond nid oes unrhyw gwsmeriaid yn pasio heibio yma. Os bydd y swyddfa bost hon yn cau bydd yr holl ardal yn cau lawr. Mae caffi draw fan acw - Mae fy nghwsmeriaid yn dod yma ac yn dweud "nawr rydym yn mynd i gael coffi". Mae siop flodau fan acw - pe na bai'r swyddfa bost hon yma fe fyddai'n cau lawr, oherwydd ni fydd unrhyw un yn dod i'r ochr hon.'

Cadarnhawyd pwysigrwydd y swyddfa bost i Fargod gan sawl parti arall, gyda Rheolwr Datblygu Canol Tref y Cyngor Andrew Highway yn datgan: 'mae'r swyddfa bost ym Margod yn bwysig i'r nifer fawr o bobl sy'n ei defnyddio fel rhan annatod o'u cymuned... Mae'r ffaith bod amrywiaeth ehangach o gynnyrch ar werth bellach...hefyd wedi ei gwneud yn rhan annatod o'r economi leol. Heb Swyddfa'r Post yn y dref mae rheswm cryf dros gredu y byddai'n cael effaith andwyol ar nifer yr ymwelwyr. Mae pob siop

[ym Margod] yn ei chael hi'n anodd ymdopi â chyflyrau masnachu a bydd unrhyw golled o ran y gwasanaethau allweddol a ddarperir o fewn y dref yn cael effaith niweidiol ar y manwerthwyr hyn.' Dangosodd dau gynghorydd lleol eu cefnogaeth dros gadw'r swyddfa bost ar agor, gyda'r Cynghorydd David Carter yn ei disgrifio fel 'canolbwynt masnach o fewn canol y dref' gan bwysleisio bod busnesau eraill yn dibynnu ar gadw'r swyddfa bost ar agor.

Nodwyd bod busnesau eraill, swyddfa leol y cyngor a'r ysgol leol yn defnyddio'r swyddfa bost ar gyfer eu hanghenion bancio a phostio eu hunain. Cadarnhaodd swyddog datblygu busnes o Gyngor Caerffili bod llawer o fusnesau lleol yn defnyddio'r swyddfa bost i fancio eu harian yn ddyddiol a bod y gwasanaeth yn 'lleol ac yn effeithlon' yn eu barn hwy.

Nododd sawl cyfrannwr y cysylltiad ag ailddatblygu canol y dref: 'bydd gan Swyddfa'r Post rôl strategol bwysicach i'w chwarae yn y degawdau sydd i ddod...Yn fy marn bersonol i, mae swyddfa bost Bargod yn hollbwysig i ddatblygiad gwelliannau cyffredinol canol y dref ac i fuddsoddiadau yn y dref gyfan yn y dyfodol'. (Richard Murphy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili).

Roedd Mr Badat yn falch ar y gwaith a wnaethpwyd: 'Fe wnes i'n siŵr ei fod yn edrych yn dda, cafodd y cownter ei symud ac roedd popeth yn newydd. Dechreuais y siop o'r newydd, digwyddodd popeth gyda'r grant. Roeddwn yn falch bod y grant wedi cael ei roi ar yr amser perffaith i mi - ni allwn fod wedi gwneud unrhyw beth hebddo. Ni fyddwn wedi cael siop fel honno - roedd hi'n llanastr llwyr, roedd angen gwaith adeiladu mawr.'

Mae'r prosiect wedi golygu bod oriau agor y swyddfa bost wedi'u hymestyn: roedd y ffaith bod siop bapurau wedi'i chynnwys yn y siop yn golygu bod angen agor am 7.30am, ac mae Mr Badat a'i wraig bellach yn agor cownteri'r swyddfa bost cyn gynted â phosibl ar ôl hyn, yn hytrach nag am 9am fel o'r blaen. Ymddengys fod hyn wedi dod â chwsmeriaid newydd i'r swyddfa bost, cwsmeriaid sy'n teimlo ei bod yn fwy cyfleus iddynt godi eu harian pan fyddant yn casglu eu papur yn hytrach na gwneud siwrnai arall i'r swyddfa bost. Cafodd oriau agor ar ddydd Sadwrn eu hymestyn o 12.30 i 5pm: 'rydym yn gwneud ein gorau i gystadlu gyda'r banciau'.

Mae'r angen am staff i weithio yn y siop yn ogystal â chownteri'r swyddfa bost wedi arwain at greu dwy swydd ran amser.

Nodwyd bod y cwsmeriaid yn hapus: 'cyn gynted ag y daethant i mewn dywedwyd "w, dyna newid, mae'n hyfryd". Mae llawer o bobl yn hapus nad oes angen iddynt fynd i unrhyw le arall, mae'n haws iddynt, nid oes angen iddynt gerdded i'r siopau eraill'. Dywedodd y Cynghorydd David Carter bod y gwelliannau wedi bod yn 'fuddiol iawn' i ddefnyddwyr: 'mae pobl y dref yn hapus iawn gyda'r gwaith sydd wedi'i wneud'.

Gwnaeth Mr Badat arddangos y sticer sy'n cydnabod arian grant Llywodraeth y Cynulliad a dywedwyd bod pobl yn ymwybodol o ffynhonnell y grant: 'Roeddent yn gwybod nad oedd yr arian gennyf felly dywedais wrthyn nhw pwy oedd wedi rhoi'r arian i mi.'

Y swyddfa bost yn y gymuned

Dywedodd Mr Badat bod y swyddfa bost yn fan cyfarfod i bobl leol a'u bod yn dueddol o glywed beth oedd yn digwydd yn lleol: 'mae llawer o newyddion yn dod i mewn'. Roedd wedi cyflwyno hysbysfwrdd fel rhan o'r gwaith ailwampio, a oedd yn cynnwys gwybodaeth oddi wrth y cyngor am wasanaethau a digwyddiadau lleol.

Pwysleisiodd Mr Badat bod y swyddfa bost yn chwarae rôl gymdeithasol o ran cynorthwyo cwsmeriaid diamddiffyn. Nododd nad oedd llawer o gwsmeriaid hŷn yn gwybod eu rhifau PIN, ac roedd yn rhaid eu helpu i ddatblygu system ar gyfer ymdopi â'r cyfrif cerdyn newydd. Soniodd am gwsmeriaid unigol a oedd yn dibynnu ar y gwasanaeth personol a gynigiwyd gan swyddfa bost leol sy'n eu hadnabod. Roedd un cwsmer dall yn dibynnu arno i roi ei harian mewn amlen ('nid ydynt yn gwirio'r arian rydym yn ei roi yn yr amlen, maent yn ymddiried ynom'), ac ar gyfer cwsmer arall 'mae'n rhaid i ni alw tacsï ac rydym yn ei helpu i fynd at ei thacsï - mae'n rhaid i ni weld beth sydd yn ei phwrs a'i helpu - ac nid yw erioed wedi ymddiried mewn unrhyw un arall'. Roedd e'n teimlo na fyddai gwasanaeth personol o'r fath ar gael mewn banc ac y 'byddai ganddynt lawer o broblemau' pe na bai'r swyddfa bost yno. Nododd rheolwr datblygu canol y dref bod 'ymweliad â Swyddfa'r Post, i lawer o bobl oedrannus a phobl ddi-amddiffyn, yn diffinio'r ffordd maent yn byw eu bywydau, gan ddarparu ffynhonnell werthfawr o ran cyswllt â'r byd y tu allan.' Nododd canolfan gymdeithasol a chynghor 'Young at Hearts' yng Nghwm Rhymni bod ei haelodau o'r farn bod y newidiadau yn fuddiol a bod y ffaith y gallant ddefnyddio mwy o wasanaethau mewn un lle yn gyfleus: 'pe bai'r gwasanaethau hyn yn cael eu diddymu, byddai hynny'n drychineb i'n trigolion oedrannus ac yn drychineb economaidd i'r dref.' Dywedodd yr Aelod Cynulliad Lleol, Jeff Cuthbert: 'i ddinasyddion Bargod, yn enwedig yr henoed, mae'r gwasanaethau a gynigir gan y swyddfa bost yn bwysig iawn - ...rwyf yn hynod falch bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi Swyddfa Bost Bargod ac yn ddi-au bu'r gefnogaeth yn werth chweil.'

Cymorth arall

Ar wahân i'r grantiau a roddwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru a'r cynghor lleol, ni chafodd Mr Badat unrhyw gymorth, hyfforddiant na chynghor allanol, ond roedd yn teimlo nad oedd eu hangen: 'rydym yn ymdrin â miloedd o drafodion bob blwyddyn, ac rydym yn ei wneud bob dydd'.

Y dyfodol

Roedd Mr Badat yn teimlo'n hyderus ynglŷn â dyfodol ei swyddfa bost a swyddfeydd post yn gyffredinol, 'oherwydd credaf fod 90% o bobl yn y wlad hon yn dibynnu ar y swyddfa bost, mae'n rhaid i bawb ei defnyddio rywbyrd, mae'n rhaid i'r bobl a arferai ddod i gasglu eu budd-daliadau hyd yn oed ddod i dalu eu biliau - £5 ar y cerdyn hwn, £5 ar y llall.

Maent yn dibynnu ar y system ac ar y swyddfa bost ac maent yn ymddiried yn y system'.

Fodd bynnag, roedd ganddo rai pryderon ynglŷn â'r pwyslais newydd ar werthu cynnyrch ariannol fel yswiriant car. 'Rwyf wedi bod mewn busnes ar hyd fy mywyd a dywedaf hyn wrthyf. Pan fyddaf yn mynd i mewn i siop, os bydd gwerthwr yn dod i siarad â mi, ni fyddaf yn prynu unrhyw beth - byddaf yn cerdded allan. Os nad ydynt yn gofyn i mi, rwyf yn cymryd fy amser. Felly, nid wyf yn rhoi pwysau ar fy nghwsmeriaid, nid yw rhai pobl yn hoffi hynny, felly rhoddaf y dewis iddynt'.

'Mae Swyddfa Bost Bargod yn gwbl hanfodol i'r gymuned a wasanaethir ganddi... I'r henoed yn y dref, mae'r swyddfa bost yn amlwg yn bwysig, nid yn unig fel lle sy'n diwallu eu hanghenion ariannol ond hefyd fel canolfan gymdeithasol lle gallant gwrdd â ffrindiau yn rheolaidd...Yn fuan, bydd Bargod yn destun rhaglen adfywio. Byddai'r rhaglen hon wedi bod yn anoddach o lawer pe bai'r swyddfa bost wedi cau...Rwyf yn hynod falch bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi Swyddfa Bost Bargod ac, yn ddi-au, mae'r gefnogaeth wedi bod yn werth chweil.'

Wayne David, AS

'Mae cadw swyddfa bost yng nghanol tref Bargod yn hollbwysig i'r gymuned ac mae'n ffactor allweddol o ran adeiledd economaidd y dref. Mae ei lleoliad parhaol yng nghanol y dref yn hollbwysig i ddyfodol Bargod...mae pobl yn dod yn fwy ymwybodol o'r rôl bwysig y mae canol trefi yn ei chwarae mewn cymunedau, felly mae'n rhaid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gadw'r darparwr gwasanaeth mwyaf adnabyddus sy'n cael ei werthfawrogi fwyaf.'

Andrew Highway, Rheolwr Datblygu Canol Tref

'Mae Swyddfa'r Post wedi darparu gwasanaeth amhrisiadwy i bobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol fawr iawn o fewn y fwrdeistref erioed. Mae'r swyddfa bost wedi'i lleoli'n ganolog yn agos at gysylltiadau bysiau lleol ac mae'n bwysig iawn o ran galluogi pobl yr ardal i ddefnyddio ei gwasanaethau...yn fy marn i, pe bai'r swyddfa yn cau am unrhyw reswm byddai hynny'n cael effaith niweidiol ar bawb yn yr ardal.'

Richard Murphy, Cydgysylltydd Cymunedau yn Gyntaf

Astudiaeth achos 2: Grand Avenue, Trelái

Grand Avenue, Trelái

Mae Trelái yn ardal drefol ddifreintiedig ar gyrion Caerdydd. Trelái oedd y 63ain ward fwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog 2000.

Roedd yr Is-bostfeistr yn teimlo bod gan yr ardal enw gwael ond dywedodd fod 'hon yn ardal sy'n hawdd ei beirniadu - mae'n ymwneud ag enw gwael ac mae llawer ohono'n anhaeddiannol...Mae'r cyngor yn ceisio dileu canolbwynt y rhodfa ar gyfer gangiau, drwy ddileu'r rheiliau'.

Y swyddfa bost

Mae swyddfa bost Grand Avenue yn brif swyddfa bost, sy'n cynnig yr amrywiaeth llawn o wasanaethau swyddfa bost, gan gynnwys gwasanaeth gwirio pasbort a threth car. Mae'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid yn bobl leol iawn ac maent yn cerdded i'r swyddfa bost. Disgrifir y sylfaen cwsmeriaid fel un 'ffyddlon', ac mae staff y swyddfa bost yn galw'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid wrth eu henwau cyntaf. Fodd bynnag, y brif her yw denu cwsmeriaid newydd.

Trosglwyddwyd yr awenau i'r Is-bostfeistr presennol, Mr Bill Hopkins, yn 2004.

Mae'n disgrifio'r 'effaith enfawr' y mae taliadau uniongyrchol wedi'i chael ar ddichonoldeb busnes y swyddfa bost:

'Roedd yn fygythiad i ddichonoldeb ac mae'n dal yn fygythiad, gwelwyd sefyllfa lle aeth y swyddfa bost o fod yn fusnes dichonadwy a oedd yn gwneud elw - nid ffortiwn ond elw - i wneud colled fawr. Gwelwyd gostyngiad o 35% ym musnes y swyddfa bost dros ychydig fisoedd, fel disgyn oddi ar ochr dibyn.'

Gwelwyd sgîl-effaith ar incwm manwerthu: 'Roedd incwm y siop tua £55,000, ond gostyngodd i tua £42,000. Rydym yn dal i ymdrechu i adfer y sefyllfa hyd yn oed ar ôl agor y siop newydd.'

Roedd adeilad y swyddfa bost wedi dirywio gyda thyllau yn y waliau a'r llawr a'r blociau bris yn dangos. Cafodd ei ddisgrifio fel 'llwm iawn, y math o le y byddech ond yn ymweld ag ef pe byddai'n rhaid i chi wneud hynny.' Prif ased y swyddfa bost oedd y staff, a oedd yn brofiadol, yn ymroddedig ac yn lleol.

Prosiect o dan y Gronfa

Bu'r Is-bostfeistr blaenorol yn ceisio gwerthu'r swyddfa bost am o leiaf tair blynedd. Ar ddiwedd 2003, gwnaeth gais am grant o dan y Gronfa a dyfarnwyd £50,000 iddo, yr uchafswm grant, ar gyfer gwelliannau o ran diogelwch, mynediad i bobl anabl ac addurno'r adeilad. Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad, mewn egwyddor, i drosglwyddo'r grant a ddyfarnwyd i'r Is-bostfeistr olynol ar yr amod eu bod yn cytuno i lynu wrth amodau'r grant, gan gynnwys y gofyniad i gynnal y busnes fel swyddfa bost am o leiaf bum mlynedd.

Prynodd Mr Hopkins y busnes ar y sail hon, a chyflwynodd gais llwyddiannus i ddiwygio'r prosiect arfaethedig, yn unol â'i strategaeth a'i gynlluniau manwerthu ei hun ar gyfer datblygu'r busnes. Byddai rhai o elfennau gwreiddiol y prosiect yn cael eu cyflawni drwy ffyrdd eraill: roedd Cyngor Sir Caerdydd wedi cytuno i ailosod ffryntiau pob siop ar y rhodfa; roedd grantiau ar gael gan yr Adran Masnach a Diwydiant i wella mynediad i bobl anabl yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd; a rhoddwyd cymorth gan Swyddfa'r Post Cyf ar ffurf gwaith llafur am ddim o dan y Rhaglen Ail-lunio'r Rhwydwaith Trefol i wella diogelwch. Defnyddiodd y cynnig diwygiedig o dan y Gronfa yr arian a oedd yn weddill yn sgîl hyn i gyflawni gwaith ailwampio mwy trwyadl a newid stordy yn ofod manwerthu, gan gynyddu arwynebedd y siop 150 troedfedd sgwâr. Cytunodd y Cynulliad yn ffurfiol i ddyfarnu grant newydd o £50,000 ym mis Tachwedd 2004, o dan ail gylch y Gronfa.

Roedd y gwaith yn cynnwys tynnu wal fewnol i lawr, ailweirio, gwella adeiledd a décor y swyddfa bost, newid y lloriau, a gosod ffitiadau'r siop, nenfwd crog, arwyddion a chownteri, a chwpwrdd i'r swyddfa bost. Cwblhawyd y prosiect a gwnaethpwyd y taliad olaf ym mis Gorffennaf 2005.

Gweinyddu'r grant a chyhoedduswyd

Nododd Mr Hopkins ei fod wedi'i synnu o'r ochr orau o ran pa mor ddidrafferth y bu'r broses o weinyddu'r grant. Roedd cydberthnasau â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn 'dda iawn iawn', gyda lefelau uchel o gymorth ac arweiniad, er enghraifft o ran diwygio cynlluniau'r prosiect: 'roedd person ar gael y gellid siarad â hwy bob amser waeth pa broblem oedd gennych'. Gwnaethpwyd taliadau yn brydlon, o fewn pythefnos i gyflwyno cais.

Ail-agorwyd y swyddfa bost a'r siop ar eu newydd wedd gan Rhodri Morgan AS, yn rhinwedd ei swydd fel yr Aelod Cynulliad Lleol. Cafodd y lansiad a gynhaliwyd ar Orffennaf 28ain sylw yn y Cardiff Post, a chafodd gymorth grant Llywodraeth y Cynulliad gydnabyddiaeth yn ei erthygl. Dywedodd Mr Hopkins bod cwsmeriaid yn ymwybodol o rôl y Cynulliad wrth ariannu'r gwaith: 'Mae'r sticer sy'n nodi bod y gwaith wedi'i ariannu gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ymddangos yn y ffenestr. Nid oes unrhyw un yn credu mai fi sydd wedi talu amdano - byddent yn credu fy mod yn gyrru o amgylch mewn Rolls Royce!'

Effaith y prosiect

Gwnaeth Mr Hopkins yn glir na fyddai wedi ystyried prynu'r swyddfa bost heb warant y byddai'n cael grant. Nid oedd y perchenogion blaenorol wedi gallu gwerthu'r busnes hyd nes y cafwyd y dyfarniad. Roedd Mr Hopkins o'r farn y byddai'r swyddfa bost wedi cau oni bai am y Gronfa a byddai wedi cael effaith sylweddol ar weddill y siopau ar Grand Avenue:

'Roedd ar y rhestr fer [ar gyfer ei chau] beth bynnag ac yr wyf bron yn siŵr y byddai Swyddfa'r Post Cyf wedi'i chau, a fyddai wedi golygu diwedd i'r rhodfa benodol hon o siopau. Ac eithrio'r un neu ddwy siop cludfwyd credaf y byddai'r rhodfa gyfan wedi cau o fewn dwy flynedd. Yma mae gennym siop bapur newydd, un neu ddwy siop cyfleustra, siop fetio, un neu ddwy siop cludfwyd, dyma ffocws y gymuned. Mae pobl yn cyfarfod â'i gilydd yma.'

Ers cwblhau'r prosiect, mae Mr Hopkins wedi nodi cynnydd bach ond cyson ym musnes y swyddfa bost, yn enwedig o ran y gwasanaeth gwirio pasbort ac yswiriant teithio, ond cafwyd symudiad mewn cydbwysedd tuag at ochr fanwerthu'r busnes, lle gwelwyd mwy o gwsmeriaid. Nododd Mr Hopkins bod y grant wedi bod yn 'hollol angenrheidiol o ran cynyddu'r sylfaen cwsmeriaid - nid oedd hynny'n mynd i ddigwydd gyda'r adeilad yn y cyflwr yr oedd ynddo.'

Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd y cynnydd o ran nifer y cwsmeriaid yn dal i fod yn 'siomedig, yn enwedig o ystyried y swm a wariwyd ar hysbysebu'r busnes. Roeddem yn gobeithio denu dwsinau [o gwsmeriaid ychwanegol] yr wythnos nid dwsinau dros 3 wythnos.' Roedd denu cwsmeriaid o'r tu allan i'r dalgylch naturiol a sicrhau bod y busnes yn ddichonadwy yn yr hirdymor yn dal i fod yn frwydr.

Cafodd y pum swydd oedd yn bodoli a bywoliaeth Mr a Mrs Hopkins eu diogelu drwy gadw'r swyddfa bost a'r siop, a phenodwyd un aelod ychwanegol o staff.

Roedd oriau agor y siop wedi'u hymestyn o hanner diwrnod i ddiwrnod llawn ar ddydd Sadwrn. Yn ogystal, roedd y broses o gyflwyno 'cownter cyfunol' yn golygu bod y rhan fwyaf o wasanaethau'r swyddfa bost ar gael yn ystod oriau agor y siop: 'gall pobl godi arian parod, talu biliau. Ni allant wneud rhai o'r trafodion mwyaf - treth car, gwirio pasbort - ond gallant wneud 80% o'r pethau y maent yn dod yma i'w gwneud.'

Dywedodd Mr Hopkins ei fod yn hapus gyda'r hyn a oedd wedi cael ei wneud a chyda'r canlyniad ffisegol, a oedd yn 'eang, yn olau, yn ysgafn ac yn groesawus', gyda digon o ofod ar gyfer y ciwiau anochel wrth gownter y swyddfa bost, a mynediad a lle i droi ar gyfer cadeiriau olwyn a chadeiriau gwrthio. 'Roeddem am greu teimlad da. Gan fod ein sylfaen cwsmeriaid yn gyfyngedig, hoffwn weld yr adeilad yn creu argraff ar bobl newydd sy'n dod i mewn a hoffwn eu gweld yn dychwelyd, drwy ddewis ac nid o anghenraid, i ddefnyddio'r swyddfa bost a'r siop'. Nodwyd bod cwsmeriaid yn ymateb yn gadarnhaol: 'waw, fe ddes i mewn ac fe fu'n rhaid i mi fynd allan eto a dod i mewn eto oherwydd ei fod mor wahanol'.

Bu'r ymateb gan siopau eraill yn 'gadarnhaol iawn. Mae'r siop fara drws nesa wedi cael budd mawr, mae eu masnach wedi bron â dyblu gyda phobl yn picio i mewn. Nid oes unrhyw un wedi ymateb yn negyddol - credaf mai'r rheswm am hynny yw nad ydym yn cystadlu ag unrhyw un yn uniongyrchol. Gyda'r swyddfeydd post lleol eraill, rydym yn cystadlu mewn gwahanol ardaloedd.'

Y swyddfa bost yn y gymuned

Roedd gan y strategaeth fanwerthu newydd sy'n canolbwyntio ar ddillad plant, teganau, deunydd ysgrifennu a chynnyrch i'r cartref ddau nod, sef denu cwsmeriaid newydd sy'n teithio ymhellach i ffwrdd a diwallu anghenion a gofynion trigolion lleol, er enghraifft drwy werthu dillad plant o ansawdd da sy'n gymharol rhad oherwydd eu bod yn ddillad 'diwedd y llinell'. Sefydlwyd clwb cynilo Nadolig i dalu am deganau: 'rydym yn adnabod ein cwsmeriaid a'u hanghenion ac mae hwn yn wasanaeth na ellir ei gael mewn mannau eraill felly rydym yn gobeithio y bydd y niferoedd sy'n cofrestru yn cynyddu'.

Y prif wahaniaeth rhwng y gwaith manwerthu a gwaith y swyddfa bost oedd yr elfen 'gwasanaeth cymunedol', gan gynnwys rhoi cyngor arbenigol ar ba gynnyrch neu wasanaeth oedd fwyaf addas i unigolion, a chynorthwyo gyda'r broses o lenwi ffurflenni.

Fel dewis bwriadol, cynhaliwyd y prosiect gan adeiladwyr a oedd yn byw yn yr ardal, ac eithrio'r gwaith o osod ffitiadau ar gyfer y siop, arbenigedd sy'n dueddol o gael ei ddominyddu gan gwmnïau cenedlaethol.

Cymorth arall

Nododd Mr Hopkins bod hyfforddiant a chynghor busnes ar gael drwy Awdurdod Datblygu Cymru ac eraill, ond mynegodd bryder cyffredinol ynghylch ansawdd a natur or-gyffredinol, gor-ddamcaniaethol yr hyfforddiant busnes.

'Rydych yn mynd atynt mewn swyddfa yn rhywle a cheir cyflwyniad PowerPoint hyfryd, ond yr hyn sydd ei angen arnoch yw cyngor unigol ymarferol. Mae gennyf radd meistr mewn busnes ac rwyf yn gwybod y theori, gallaf siarad am theori nes fy mod yn biws, mae hynny'n hawdd, ond y peth cyntaf a ddysgais yw nad yw theori yn ffaith'.

Dadleuodd o blaid gwasanaeth ymgynghoriaeth a datblygu busnes wedi'i deilwra ar y safle, a fyddai'n cynnig buddiant 'par o lygaid ffres ond profiadol', a mynegodd barodrwydd i dalu tuag at gost gwasanaeth o'r fath, mewn cydnabyddiaeth am y ffaith y byddai'r gwasanaeth hwn yn ddrutach i'w gyflenwi na hyfforddiant parod.

Roedd y gwaith adfywio a wnaethpwyd gan y Cyngor yn yr ardal, gan gynnwys ailosod ffrynt y siopau, wedi helpu delwedd y rhodfa, ac roedd cynlluniau i ymgymryd â gwaith pellach gan gynnwys gwella mynediad i bobl anabl gyda phalmant ar osgo, gan ddileu'r angen am rampiau cludadwy.

Y dyfodol

Roedd Mr Hopkins yn rhagweld 'amseroedd caled yn y dyfodol'. Er bod cwsmeriaid yn defnyddio ochr swyddfa bost y busnes, roedd yn dibynnu ar yr ochr fanwerthu am incwm. Nododd ei fod yn 'syllu i mewn i belen grisial ar hyn o bryd i benderfynu pa un a yw'n werth chweil cadw'r swyddfa bost ar agor'. Roedd yr incwm o'r swyddfa bost ond yn cwmpasu cyflogau'r staff, gan adael y siop i dalu costau cyffredinol eraill fel y benthyciad adeiladu a'r trethi. Nid oedd yn cyflawni'r trosiant o £1,500 yr wythnos yr oedd ei angen i gwmpasu'r costau hyn. Gyda thri aelod o staff yn rhedeg y swyddfa bost ac un yn rhedeg y siop, roedd costau anghyfartal ar ochr y swyddfa bost.

Roedd gan Mr Hopkins amheuaeth ddifrifol ynghylch dyfodol swyddfeydd post yn gyffredinol, ac roedd yn teimlo bod y swyddfeydd post hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan daliadau uniongyrchol yn llai tebygol o gael budd o gynnyrch newydd y swyddfa bost.

'Dros y pum mlynedd nesaf, credaf y bydd Swyddfa'r Post yn wynebu brwydr fawr. Gallwch wneud unrhyw beth y gallwch ei wneud mewn swyddfa bost mewn ffordd arall erbyn hyn: ar-lein, debydau uniongyrchol, stampiau mewn unrhyw siop bapur newydd. Mae'n rhaid i Swyddfa'r Post Cyf dderbyn nad yw'r swyddfa bost yn cynnig unrhyw beth arbennig erbyn hyn. Wrth gwrs, maent yn ceisio newid sylfaen cwsmeriaid y swyddfa bost ond nid yw'r cynnyrch newydd y maent yn eu gwerthu yn gydnaws â'n cwsmeriaid - pobl ar fudd-daliadau, pobl ar incwm isel, pensiynwyr, rhieni unigol, pobl â lefel isel o addysg, heb gredyd da na hanes credyd. Y cynnyrch newydd yw: cerdyn credyd - mae angen i chi fod yn ennill £8,000; benthyciadau - mae angen bod arian gennych yn barod. Maent yn gynnyrch eitha' dosbarth canol, ac mae gennym sylfaen cwsmeriaid nad yw'n cyd-fynd â'r categori hwnnw. Ar hyn o bryd, maent yn dilyn trywydd diogel iawn: mae pawb yn trefnu yswiriant yn yr ardaloedd diogel braf - ond beth am y bobl sy'n byw mewn ardal risg uchel, beth am y bobl ifanc 19 mlwydd oed - mae'n anodd iddynt gael yswiriant, ac felly mae'r bobl sy'n fwy tebygol o ddefnyddio swyddfa bost bron â chael eu heithrio o ddefnyddio ei gwasanaethau.'

Dyfyniadau

'Y realiti yw na allwch hysbysebu gwasanaethau'r swyddfa bost - mae'n rhaid i chi wthio'r ochr fanwerthu, a gobeithio cael budd ar ochr y swyddfa bost, sef y gwrthwyneb i'r hyn a arferai ddigwydd, gyda phobl yn mynd i'r swyddfa bost a phrynu ar yr ochr fanwerthu yn sgîl hynny.'

Mr Hopkins, Is-bostfeistr

'Mae'n bleser i'w weld - mae mwy o le, mae'n oleuach, ceir awyrgylch croesawus ac mae'n gwbl hygyrch i bawb, h.y. yn ystyriol o bobl anabl. Mae'r cyfleuster hwn yn hanfodol i bensiynwyr a grwpiau eraill diamddiffyn sy'n dibynnu ar swyddfa bost leol i godi arian parod ac ar gyfer gwasanaethau eraill. Mae'r allfeydd hyn yn cyflogi pobl leol. Byddai cau'r swyddfa bost wedi cael effaith niweidiol ar economi Trelái a byddai'n golygu bod yn rhaid i bobl na allant fforddio gwneud hynny ddefnyddio bysiau i deithio i'r swyddfa bost amgen agosaf. Fel y gwyddom, mae swyddfeydd post yn fannau lle mae pobl yn defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir, ond maent hefyd yn fannau lle gall pobl gyfarfod a chadw mewn cysylltiad â'i gilydd.'

Y Cynghorydd Brian Finn

Astudiaeth achos 3: Swyddfa Bost Llangurig, Powys

Llangurig

Mae pentref Llangurig wedi'i leoli mewn ardal wledig iawn yng nghanolbarth Cymru. Yn ôl yr Is-bostfeistr, mae'r boblogaeth leol yn bobl wedi ymddeol, teuluoedd ifanc a ffermwyr yn bennaf. Mae pentref Llangurig ar yr A44 prysur sy'n rhedeg o Ganolbarth Lloegr i'r arfordir yn Aberystwyth, ac oddi ar yr A470, sef y briffordd rhwng Gogledd a De Cymru. Caiff y pentref ei wasanaethu gan fysiau lleol i Aberystwyth, Llanidloes, Rhaeadr Gwy a'r Drenwydd, a choetsis sy'n teithio ymhellach i Ganolbarth Lloegr. Yn ogystal â'r swyddfa bost, mae gan y pentref siop greffttau, wedi'i hanelu'n bennaf at y fasnach dwristiaeth, bythynnod gwyliau, dau dafarndy a gorsaf betrol gyfagos.

Y swyddfa bost

Swyddfa bost gymunedol wedi'i lleoli ar yr heol i Aberystwyth, ychydig lathenni o'r arhosfan bysiau, yw swyddfa bost Llangurig. Mae lle parcio y tu allan i'r swyddfa bost ac ar hyd y cyrbau cyfagos. Mae sylfaen cwsmeriaid y swyddfa bost a'i siop gysylltiedig felly yn gymysgedd o bobl leol a thraffig sy'n pasio drwy'r pentref, gan gynnwys masnach, gyrwyr lorïau a phobl sy'n dosbarthu nwyddau drwy'r flwyddyn, a'r rheini sydd ar wyliau yn ystod misoedd yr haf. Mae'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid lleol yn byw yn y pentref ac yn cerdded i'r swyddfa bost, ond mae rhai cwsmeriaid yn byw hyd at bum milltir i ffwrdd. Nododd yr Is-bostfeistres bod pobl yn aml yn ei chael hi'n haws parcio y tu allan i'w swyddfa bost am ychydig funudau na theithio i mewn i dref fwy o faint, dod o hyd i le i barcio yno a defnyddio gwasanaethau'r swyddfa bost mewn swyddfa brysurach lle mae ciwiau yn fwy tebygol. Nodwyd bod busnesau lleol eraill yn defnyddio gwasanaethau'r swyddfa bost hefyd. Mae'r Is-bostfeistres, Mrs Mary Davies, a'i gŵr Colin, wedi bod yn rhedeg y swyddfa bost a siop y pentref ers wyth mlynedd. Mae'r siop yn gwerthu bwydydd cyffredinol a nwyddau i'r cartref, deunydd ysgrifennu, melysion a thybaco. Nododd Mrs Davies bod y swyddfa bost a'r siop yr un mor bwysig â'i gilydd o ran busnes ac nid oedd yn ystyried y byddai'n bosibl rhedeg y naill na'r llall ar eu pen eu hunain:

'Nid yw'r cwsmeriaid yn gweld gwahaniaeth rhwng y ddau, mae'r ddau'n cydblethu â'i gilydd ac mae'r cwsmeriaid yn eu gweld fel un siop cyfleustra. Mae'r swyddfa bost yn denu cwsmeriaid i'r ochr fanwerthu ac mae'r ffaith bod gennym ochr fanwerthu yn rhoi mwy o reswm iddynt ddod i mewn i'r swyddfa bost'.

Y prif wasanaethau a ddefnyddir yn y swyddfa bost yw talu budd-daliadau a phensiwn, a thalu biliau. O'r herwydd, mae'r broses o gyflwyno taliadau uniongyrchol wedi cael effaith ar y swyddfa bost. Mae'r swyddfa bost wedi colli rhai cwsmeriaid ac mae hyn wedi cael effaith ar y busnes manwerthu. Fodd bynnag, nid effeithiwyd ar y busnes i'r fath raddau fel ei fod yn bygwth dichonoldeb y busnes ac ni fu'n rhaid i Mr a Mrs Davies ystyried cau'r siop, yn bennaf oherwydd eu hymdrechion hwy eu hunain i gynnal eu sylfaen cwsmeriaid:

'Bu inni weithio'n galed iawn i gadw cymaint o'n cwsmeriaid â phosibl, gwnaethom esbonio sut y byddai'r newidiadau yn effeithio arnynt, ac oherwydd bod yr ardal mor wledig ac mai ni yw'r unig siop, roedd yn fwy cyfleus iddynt barhau i ddefnyddio'r swyddfa bost yn hytrach na defnyddio'r banc yn y dref agosaf, bum milltir i ffwrdd.'

Mae'r swyddfa bost yn derbyn rhyddhad trethi busnes gan y cyngor lleol.

Prosiect o dan y Gronfa

Clywodd Mr a Mrs Davies am yr arian o dan y Gronfa gan eu Rheolwr Rhwydwaith Manwerthu (RTA) gyda Swyddfa'r Post Cyf, a gwnaethant gais yn syth. Dyfarnwyd grant o £31,887 ar ddiwedd mis Mawrth 2003, a chwblhawyd y prosiect a gwnaethpwyd y taliad grant terfynol ar ddiwedd mis Hydref 2003.

Roedd y prosiect a ariannwyd gan y grant yn cynnwys ailwampio'r ardal fanwerthu a gwella mynediad i bobl ag anableddau drwy osod ramp bach yn lle'r gris. Roedd y gwaith ailwampio yn cynnwys uwchraddio golwg y siop a'r ffitiadau, gan gynnwys newid y drysau a'r ffenestri gyda gwydr diogelwch, gosod til arian newydd, llungopiwr, cabinet oeri, rhewgell, ac oerwr diodydd, gosod peiriant aerdymheru a newid arwydd losenffurf y swyddfa bost. Prif nod y prosiect oedd moderneiddio golwg y siop, a oedd wedi defnyddio'r un silffoedd pren ers y 1940au o leiaf. Roedd y silffoedd yn gwneud y siop yn dywyll iawn,

roedd hi'n anodd iawn arddangos nwyddau ar eu gorau ac roedd hi'n anodd glanhau yn unol â'r safonau a ddisgwylir heddiw. Y nod oedd gwneud y siop yn haws i gwsmeriaid ei defnyddio, symud i hunanwasanaeth, a gwella effeithlonrwydd o ran storio ac arddangos cynnyrch. Cyflwynwyd gwasanaeth newydd i gwsmeriaid drwy gyfrwng llungopiwr, ac roedd yr oerwyr amrywiol yn caniatáu i'r siop gynnig amrywiaeth ehangach o gynnyrch ffres a lleol, gan gynnwys cig moch, cig dafad a chynnyrch cig eraill o safon uchel a gynhyrchwyd yn lleol.

Roedd y cwpl yn teimlo y byddent wedi ymgymryd â llawer o'r gwaith eu hunain hyd yn oed heb arian grant, ond byddai'r gwaith wedi cael ei wneud yn raddol dros nifer o flynyddoedd. Ar wahân i allu ymgymryd â'r gwaith yn gynharach, dywedasant mai mantais yr arian grant oedd eu bod wedi gallu ymgymryd ag un prosiect a sicrhau bod yr holl elfennau yn ffitio gyda'i gilydd yn effeithlon 'fel pos jig-so'.

Dymuniad Mr a Mrs Davies oedd defnyddio adeiladwyr lleol yn wreiddiol, ond nid oeddent yn gallu dod o hyd i un cwmni lleol a oedd yn ddigon mawr i gydlynu'r prosiect. Roeddent yn anfodlon ymgymryd â'r gwaith o reoli holl elfennau'r prosiect ar eu pen eu hunain, ac yn awyddus bod y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud mewn wythnos i leihau'r ymyrraeth ar y gwasanaeth, felly gwnaethant benderfynu defnyddio cwmni cenedlaethol. Caewyd y siop am wythnos, ond parhaodd y swyddfa bost i weithredu o'r tŷ er mwyn cadw cwsmeriaid.

Gweinyddu'r grant a chyhoeddusrwydd

Nododd Mr a Mrs Davies bod y broses o weinyddu'r grant a'r prosiect wedi 'mynd yn dda', gyda chynghor a chymorth da gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a thaliad cyflym o ran y grant. Fodd bynnag, mynegwyd un pryder ynghylch y newidiadau mynych ym mhersonél y tîm gweinyddu grant. Dywedasant eu bod wedi delio â staff newydd yn aml a bod angen iddynt 'fynd drwy bethau eto' gyda hwy.

Cafodd y gwaith ei archwilio gan RTA Swyddfa'r Post Cyf a anfonodd ardystiad (ffurflen PO3) i Lywodraeth y Cynulliad yn nodi bod y gwaith yn foddhaol. Gwnaethpwyd hyn yn unol â'r weithdrefn arferol o dan drefniadau a gytunwyd gyda Swyddfa'r Post Cyf. Fodd bynnag, mynegodd y cwpl syndod na fu unrhyw gynrychiolydd o Lywodraeth y Cynulliad yn archwilio'r gwaith. Nodwyd hefyd nad oeddent erioed wedi derbyn y sticer sy'n cydnabod y ffaith bod arian Llywodraeth y Cynulliad wedi'i ddefnyddio, a phan drefnwyd erthygl yn y papur lleol, nid oedd unrhyw un o Lywodraeth y Cynulliad yn bresennol i fod yn rhan o'r llun: 'roedd yn gyfle iddynt chwythu eu corn eu hunain, roeddwn i'n meddwl y byddent wedi gwneud y gorau o'r cyfle'. Fodd bynnag, cafodd y ffaith bod arian y Cynulliad wedi'i ddefnyddio i ariannu'r prosiect ei gydnabod yn yr erthygl.

Effaith y prosiect

Nododd Mr a Mrs Davies effaith sylweddol ar lefelau incwm yn sgîl y prosiect, gydag incwm gros y siop rhwng £12,000 a £15,000 y flwyddyn yn y ddwy flynedd ers cwblhau'r prosiect. Amcangyfrifodd Swyddfa'r Post Cyf bod trosiant y siop wedi cynyddu 12% y flwyddyn yn y ddwy flynedd ers iddi gael ei hailwampio.

Yn ôl Mr a Mrs Davies, y gallu i werthu mwy o gynnyrch a'u harddangos yn well oedd y rheswm dros y cynnydd hwn, yn hytrach na newid sylweddol yn y sylfaen cwsmeriaid sylfaenol. Gwnaethant nodi achlysuron pan ddywedodd cwsmeriaid 'Nid oeddwn i'n gwybod eich bod yn gwerthu'r cynnyrch hwnnw', o ran cynnyrch a werthwyd ganddynt

cyn i'r gwaith ailwampio gael ei wneud. Roedd cwsmeriaid wedi ymateb yn gadarnhaol i'r prosiect a nodwyd eu bod yn falch o weld buddsoddiad gan y llywodraeth yn yr ardal leol. Roedd oriau rhan amser cynorthwydd y siop wedi'u hymestyn bron i oriau llawn amser o ganlyniad i'r cynnydd mewn busnes.

Mae busnes y swyddfa bost yn Llangurig wedi aros yn gyson ar gyfer y rhan fwyaf o drafodion, ond gwelwyd rhywfaint o gynnydd mewn busnes ym meysydd gwasanaethau newydd fel bancio ar-lein ac ychwanegu arian yn electronig. Nododd Swyddfa'r Post Cyf bod 'y cynnydd yn galonogol iawn oherwydd mae llawer o ganghennau gwledig wedi colli busnes o ganlyniad i ddiddymu llyfrau pensiwn yn raddol a thalu drwy Daliadau Uniongyrchol i mewn i gyfrifon banc cwsmeriaid'.

Roedd yr Is-bostfeistres yn hapus gyda'r prosiect, ac yn teimlo ei fod wedi cael yr effaith ddymunol ar y busnes. Wrth edrych yn ôl, bu'n ystyried pa un a ddylent fod wedi bod yn fwy uchelgeisiol ac ehangu'r gofod manwerthu i mewn i'r ardaloedd storio presennol.

Ni chafodd y gwaith unrhyw effaith ar oriau agor y swyddfa bost na'r siop, ond roedd Mrs Davies eisoes yn cynnig gwasanaethau'r swyddfa bost pryd bynnag roedd y siop ar agor fel arfer, yn hytrach na glynu wrth oriau cyfyngedig a chaniatáu i giwiau ddatblygu.

Y swyddfa bost yn y gymuned

Nododd Mrs Davies bod y swyddfa bost yn aml yn gweithredu fel man cyfarfod ar gyfer pobl leol, a oedd yn aml yn aros i siarad ymhlith ei gilydd am amser ar ôl cwblhau eu trafodion yn y swyddfa bost neu ar ôl iddynt orffen eu siopa. Roedd digwyddiadau cymdeithasol yn aml yn cael eu trefnu yn y swyddfa bost. Nododd Mrs Davies hefyd bod pobl yn dueddol o ofyn ei chyngor ar 'unrhyw gwestiwn o dan haul', ac 'fel y pwynt cyswllt cyntaf, os na allwn roi ateb iddynt, gallwn yn sicr eu cyfeirio at rywun a fydd yn gallu gwneud hynny'. Roedd yn ystyried y rôl hon fel 'rhan o'r gwasanaeth'. Roedd y prosiect wedi cynnwys gosod hysbysfwrdd cymunedol ar gyfer arddangos gwybodaeth am ddigwyddiadau neu faterion lleol, hysbysebu busnesau lleol, hysbysiadau 'ar goll' ac ati.

Nododd Mrs Davies mai rhan arall o'r rôl gymdeithasol oedd sylwi os na fyddai rhywun yn galw i mewn i'r swyddfa bost pan ddisgwylid iddynt wneud hynny neu os oeddent yn ei chael hi'n anodd ymdopi, a rhoi gwybod i rywun am hyn. Mae cyfran fawr o'r cwsmeriaid lleol, rhai lleol a newydd-ddyfodiaid, yn bensiynwyr, ac nid oes gan lawer o'r bobl hyn hyn gar.

Cymorth arall ar gyfer swyddfeydd post

Roedd Mrs Davies wedi cael wythnos o hyfforddiant a ddarparwyd gan Gyswllt Busnes Cymru pan ddechreuodd y busnes. Bu'r hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol yn bennaf oherwydd y cysylltiadau a wnaethpwyd - yn enwedig gydag un ymgynghorydd, a fu'n gymwynasgar ac a gynorthwyodd gyda'r gwaith o wneud cais am arian o dan y Gronfa. Ymhlith yr hyfforddiant a'r cymorth dilynol a gafwyd, ar wahân i'r cymorth parhaol gan yr RTA, roedd sesiynau Swyddfa'r Post Cyf ar gynnyrch newydd, a gynhaliwyd unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, a rhwydweithio drwy gyfarfodydd Cymdeithas Genedlaethol yr Is-bostfeistri. Nid oedd Mrs Davies o'r farn bod angen rhagor o hyfforddiant neu gyngor busnes.

Y dyfodol

Roedd Mrs Davies yn optimistaidd ynglŷn â dyfodol swyddfa bost Llangurig, oherwydd ei lleoliad da wrth ochr ffordd brysur, ond ni wyddai a fyddai'n bosibl goroesi pe bai wedi'i lleoli mewn ardal fwy anghysbell. Serch hynny, nododd 'bod angen y gwasanaeth... does dim llawer o ddewis mewn ardaloedd gwledig'.

Roedd ganddi rai amheuan ynglŷn â'r pwyslais diweddar a roddwyd ar wasanaethau ariannol gan Swyddfa'r Post Cyf. Er ei bod yn cydnabod y pwysau sydd arnynt, roedd hi'n teimlo mai 'gwasanaeth' oedd gwaith y swyddfa bost pan ddechreuodd hi 'a nawr, mae'n sicr yn fusnes, sy'n gwerthu ac yn cynnig benthyciadau ac yswiriant'. Cred fod perygl y gallai natur unigryw'r swyddfa bost gael ei cholli: 'Mae pawb yn gwerthu yswiriant a benthyciadau. Caiff y swyddfa bost ei hystyried fel lle cyfeillgar y mae'n hawdd mynd ato ac os byddant yn dechrau canolbwyntio mwy ar fusnes mawr fel banciau, yna byddant yn colli'r natur unigryw honno.'

'Rhoddodd y grant yr hyder a'r gallu i ni ailwampio'r siop. Hyder yw 90% o fusnes - os nad oes gennych yr hyder hwnnw ni fyddwch yn mynd ati i ymgymryd â phrosiect y credwch sy'n werth chweil. Mae'r gwaith wedi cael effaith gadarnhaol iawn. Pe bawn yn colli unrhyw fusnesau yn y pentref, byddai pob un o'r busnesau eraill yn colli rhywfaint o hyder, byddent yn cwestiynu a fyddent yn gallu parhau i weithredu. Cydag un busnes yn cau, mae'n ei gwneud hi'n anos i fusnesau eraill, ac mae'n effeithio ar yr hyder ac yn y diwedd mae pawb yn tynnu allan ac mae popeth yn y pentref yn cael ei golli, mae pobl yn colli gwasanaethau ac nid oes modd aros mewn ardal wledig. Pe bai'r Llywodraeth yn rhoi hyder i fusnesau mewn ardaloedd gwledig, byddent yn gweld y buddiant a ddaw yn sgîl hynny ond os byddant yn tynnu'n ôl drwy'r amser, blaen y gyllell yw hynny, a byddwn i gyd yn tynnu'n ôl'.

Mrs Davies, Is-bostfeistres

Mae copiâu ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

Helen Wyatt

Uned Ymchwil a Gwybodaeth
Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 1718

E-bost: Helen.Wyatt@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: <http://www.cymru.gov.uk/cyfiawndercymdeithasolacadfywio>